

**Pecyn Cymorth Conwy a Sir  
Fflint ar gyfer Anghenion  
Dysgu Ychwanegol (ADY) 0 –  
25 oed – cliciwch am Cymraeg**

**Toolkit for Additional  
Learning Needs (ALN) 0-25  
years – click for English**



# **Pecyn Cymorth Conwy a Sir Fflint ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 0 – 25 oed**



## Cynnwys

<b>1. Rhagair</b> .....	3
<b>2. Cydnabyddiaeth</b> .....	4
<b>3. Rhagarweiniad</b> .....	6
3.1. Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)? .....	6
3.2. Diben y ddogfen hon.....	6
<b>4. Y Continwwm ADY</b> .....	6
4.1. Mathau o Anghenion.....	6
4.2. Lefelau Angen.....	8
<b>5. Cyflwyno'r Ymateb Graddedig</b> .....	8
5.1. Beth ydi'r Ymateb Graddedig?.....	8
5.2. Defnyddio'r Ymateb Graddedig.....	10
<b>6. Egwyddorion yr Ymateb Graddedig</b> .....	10
6.1. Asesu, Cynllunio, Gwneud ac Adolygu.....	10
6.2. Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn .....	12
6.3. Cydweithio .....	13
6.4. Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.....	13
<b>7. Yr Ymateb Graddedig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar</b> ..	15
7.2. Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.....	16
<b>8. Yr Ymateb Graddedig yn yr ysgol</b> .....	73
8.1. Rhagarweiniad.....	73
8.2. Beth yw Addysgu a Dysgu Cyffredinol o Ansawdd Da? .....	73
<b>9. Pontio rhwng lleoliadau addysgol</b> .....	134
9.1. Rôl y lleoliad addysg .....	134
9.2. Rôl yr Awdurdod Lleol a'r gwaith amlasiantaethol .....	134
<b>10. Gorolwg o Gyllid ADY</b> .....	137
10.1. Cyllid mewn darpariaeth prif ffrwd .....	137
<b>10.2. Cyllid mewn darpariaeth arbenigol ac adnodd</b> .....	139
<b>11. Dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn ADY</b> ..	141
11.1. Atgyfeiriadau o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol .....	141
11.2. Pwy fydd yn cymryd rhan yn yr asesiad? .....	143
<b>12. Iechyd</b> .....	144
12.1. Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO).....	144
12.2. Rôl y DELCO.....	144
12.3. Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y DECLO.....	144
12.4. Cefnogi disgyblion yn yr ysgol gyda chyflyrau meddygol.....	145
a. Therapi Iaith a Lleferydd.....	145
b. Therapi Galwedigaethol .....	145
c. Ffisiotherapi.....	145
d. Pediatregwyr.....	145
<b>13. Gwasanaethau Cymorth Buan a Gofal Cymdeithasol</b> .....	146
<b>14. Geirfa</b> .....	148
<b>Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau</b> .....	1
<b>Atodiad 2: Addysgu o Ansawdd Da i Bawb</b> .....	1
<b>Atodiad 3: Asesiadau Awgrymedig</b> .....	1
<b>Atodiad 4: Adnoddau a awgrymir</b> .....	1

## 1. Rhagair

Mae Cyngorau Bwrdeistref Sirol Conwy a Sir y Fflint yn ymrwymo i bolisi o gynnwys pawb. Rydym fel awdurdodau'n credu'n gryf yn yr egwyddor hon, fel y mae ein hysgolion. Ein nod yw creu diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgol a'u bröydd a dymunwn i'r holl blant, rhieni a staff deimlo eu bod yr un mor werthfawr â phawb arall. Dymunwn hefyd chwalu rhwystrau rhag dysgu ac ennyn cyfranogiad llawn ym mywyd yr ysgol.

Rydym yn uchelgeisiol ar ran ein holl blant a phobl ifanc ac yn cydnabod mor bwysig yw sicrhau darpariaeth ac ymyriadau o ansawdd uchel i bawb, ac yn enwedig felly'r rheiny â'r anghenion addysgol mwyaf cymhleth sydd angen cefnogaeth ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni cystal ag y medrant.

Mae Conwy a Sir y Fflint hefyd yn ymrwymo i weithredu ar sail yr egwyddorion ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fel y'u pennir yng Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, sef:

- Ymagwedd yn seiliedig ar hawliau
- Adnabod yn gynnar, ymyrryd ac atal
- Cydweithio ac integreiddio
- Addysg gynhwysol
- System ddwyieithog.


Mae'r Cod hefyd yn creu dyletswydd i fod o blaid addysgu plant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir, a bydd y pecyn gwaith hwn yn ein cynorthwyo ni a'n hysgolion i gydymffurfio â'r dyletswyddau ac egwyddorion hyn.

Mae'r pecyn gwaith hwn yn cyflwyno ieithwedd a dull gweithredu cyffredin i gefnogi'r holl fudd-ddeiliaid i feithrin dealltwriaeth ar y cyd o anghenion plant a phobl ifanc a'r amrywiaeth o ymyriadau addas sydd ar gael i sicrhau y bodlonir yr anghenion hynny'n brydlon. Mae'n cynnig ymateb graddedig, gan gydnabod fod yno gontinwmm o anghenion sy'n golygu bod yn rhaid adnabod achosion ac ymyrryd yn gynnar, o'r sylfaen o addysgu gwahaniaethol o ansawdd uchel a

darpariaeth gynhwysol hyd y gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i'r rhai hynny sydd â'r anghenion mwyaf.

### Defnydd Awdurdodedig

Mae defnyddwyr y pecyn gwaith hwn yn cael adolygu, defnyddio a rhannu'r wybodaeth sydd ynddo gyda staff o fewn eu lleoliad. Fodd bynnag, nid yw defnyddwyr yn cael gwneud unrhyw newidiadau, trwyddedu neu rannu'r pecyn gwaith gydag unrhyw unigolyn y tu allan i'w lleoliad, heb ganiatâd ysgrifenedig a ddatganwyd gan y Cyngor.





## 2. Cydnabyddiaeth

Deillia'r pecyn gwaith hwn o gydweithio rhwng awdurdodau lleol Conwy, Sir y Fflint a Dwyrain Swydd Caer ac fe'i datblygwyd gydag amrywiaeth helaeth o weithwyr proffesiynol a budd-ddeiliaid. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n rhan o gynhyrchu'r pecyn gwaith hwn a fydd yn ategu ein hymdrechion ar y cyd i alluogi plant a phobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial.

Ni ellid fod wedi llunio'r canllawiau hyn heb ymrwymiad yr unigolion a'r timau a ganlyn yng Nghyngor Dwyrain Swydd Caer:

Gweithwyr proffesiynol mewn sefydliadau addysgol:

- ✚ **Andrea Booth** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Wilmslow Grange
- ✚ **Rebecca Charlesworth** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Wrenbury
- ✚ **Kay Clarke** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Eglwys Lloegr Sant Ioan Efenglydd
- ✚ **Dawn Cranshaw** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Gymunedol Lindow
- ✚ **Jo Glover** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Uwchradd Wilmslow Pennaeth - Ysgol Adelaide
- ✚ **Sarah Martin** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Academi Gynradd Nantwich
- ✚ **Julia McGhie** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Bexton
- ✚ **Andrea Phelps-Brown** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Bexton
- ✚ **Andrew Pownall** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Weaver

- ✚ **Ruth Walker** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Alsager
- ✚ **Alison Williams** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Academi Gymunedol Sant Mihangel
- ✚ **Lesley Wrenshall** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Gynradd Pear Tree
- ✚ **Kate Yeomans** Swyddog Cydlynu Anghenion Addysgol Arbennig - Ysgol Adelaide
- ✚ **Chris Baggs** Coleg De Swydd Caer
- ✚ **Liz Brown** Coleg Macclesfield
- ✚ **Denise Hughes** Coleg Reaseheath
- ✚ **Gaynor Holland** *Total People*

Rhieni, Gofalwyr a Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:







- ✚ **Louisa Harrison** Fforwm Rhieni a Gofalwyr Dwyrain Swydd Caer
- ✚ **Claire Johnson** Fforwm Rhieni a Gofalwyr Dwyrain Swydd Caer
- ✚ **Kate Walters** Fforwm Rhieni a Gofalwyr Dwyrain Swydd Caer
- ✚ **Karen Lynch** Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Dwyrain Swydd Caer

Gweithwyr proffesiynol iechyd a darparwyr iechyd a gomisiynwyd:







- ✚ **Penny Hughes** Swyddog Clinigol Dynodedig – GIG Dwyrain Swydd Caer  
Grŵp Comisiynu Clinigol Swydd Caer a Grŵp Comisiynu Clinigol GIG De Swydd Caer  
Uwch-ymarferydd Iechyd Meddwl
- ✚ **Rob Lupton**
- ✚ **Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd i Blant**
- ✚ **Gwasanaeth Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol i Blant**


Swyddogion Cyngor Dwyrain Swydd Caer:


- ✚ **Tracey Beardmore-Evans** Rheolwr y Gwasanaeth Anghenion Addysgol Ychwanegol ac Anableddau
- ✚ **Ian Donegani** Pennaeth Gwasanaeth: ADY a Chynhwysiant
- ✚ **Liz Hicks** Cefnogi Busnes, y Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- ✚ **Vicky Howarth** Rheolwr Prosiect (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau)
- ✚ **Louisa Joyce** Cydlynnydd Pontio

 <b>Kay McIntyre</b>	Rheolwr Cyflawni Ardal, y Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid
 <b>Sarah Ramsey</b>	Rheolwr Cyflawni Ardal, y Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid
 <b>Carol Sharples</b>	Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
 <b>Lindsey Thompson</b>	Rheolwr Gwasanaeth <i>Family Focus</i>
 <b>Alison Wallace</b>	Tîm Awtistiaeth Dwyrain Swydd Caer
 <b>Nicola West</b>	Prif Seicolegydd Addysg

Gwasanaethau Cyngor Dwyrain Swydd Caer:

-  **Tîm y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant**
-  **Tîm Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau**
-  **Tîm Awtistiaeth Dwyrain Swydd Caer**
-  **Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd**
-  **Gwasanaeth Seicoleg Addysg**
-  **Tîm Cyllid Ysgolion Dwyrain Swydd Caer**





Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol” ar gyfer plentyn dan dair oed yw unrhyw fath o ddarpariaeth addysgol.

### 3. Rhagarweiniad

#### 3.1. Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Mae gan blentyn neu unigolyn ifanc ADY os oes ganddynt **anhawster dysgu neu anabledd (boed yr anhawster neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n golygu fod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol.**

Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol gorfodol, neu rywun hŷn na'r oedran hwnnw, anhawster dysgu neu anabledd os ydynt –

- (a) yn cael llawer mwy o anhawster yn dysgu na mwyafrif y plant o'r un oed, neu
- (b) gydag anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n eu rhwystro neu'u hatal rhag defnyddio'r cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill yr un oed mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Mae gan blentyn iau na'r oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os ydynt yn debygol o ddod o fewn yr is-adran uchod pan fyddant yn cyrraedd yr oedran ysgol gorfodol, neu'n debygol o wneud os na chynigir darpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Ystyr “darpariaeth ddysgu ychwanegol”** ar gyfer rhywun tair oed neu hŷn yw darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn a gynigir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran, neu'n wahanol -

- (a) ysgolion prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru,
- (b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu
- (c) lleoedd yng Nghymru lle darperir addysg feithrin.

#### 3.2. Diben y ddogfen hon

Anelir y Pecyn Gwaith Anghenion Dysgu Ychwanegol at bob darparwr a lleoliad addysg i blant a phobl ifanc Conwy a Sir y Fflint rhwng 0 a 25 oed.

Mae'n nodi'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth y mae Cynghorau Sir y Fflint a Bwrdeistref Sirol Conwy'n ei ddisgwyl y bydd yr holl lleoliadau addysgol i blant a phobl ifanc Sir y Fflint a Chonwy'n eu cynnig.

Diben y pecyn yw rhoi cyfarwyddyd manwl ynglŷn â sut y gall lleoliadau addysgol adnabod plant a phobl ifanc ag anghenion o wahanol fathau a lefelau, ynghyd â gwybodaeth am y camau priodol i'w cymryd a strategaethau i'w cefnogi. Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth eglur ynglŷn ag adnabod ADY a sefyllfaoedd lle gallai fod gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a llunio Cynlluniau Datblygu Unigol, neu ddarparu gwasanaethau arbenigol.

### 4. Y Continwwm ADY

#### 4.1. Mathau o Anghenion

Mae'r term “Anghenion Dysgu Ychwanegol” yn cynnwys amryw fathau o anghenion o wahanol lefelau, a dylai'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i blentyn neu unigolyn ifanc gyfateb yn benodol i'w hangen dysgu ychwanegol. Mae *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn pennu pedwar o feysydd cyffredinol o anghenion* ac fe'u nodir dros y tudalen. Yn y meysydd hynny ceir amrywiaeth o anghenion y dylai darparwyr a lleoliadau addysgol gynllunio ar eu cyfer.

## Mathau o Anghenion

### Gwybyddiaeth a Dysgu



Efallai y bydd angen cymorth ag anawsterau dysgu pan mae plant a phobl ifanc yn dysgu'n arafach na'u cyfoedion. Mae anawsterau dysgu'n cynnwys amrywiaeth helaeth o anghenion, gan gynnwys:

- **Anawsterau dysgu cymedrol**
- **Anawsterau dysgu difrifol** - pan mae plant a phobl ifanc yn debygol o fod ag angen cymorth ymhob maes o'r cwricwlwm ynghyd ag anawsterau cysylltiedig â symudedd a chyfathrebu.
- **Anawsterau dysgu dwys a lluosog** - pan mae plant a phobl ifanc yn debygol o fod ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth yn ogystal ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu.
- **Anawsterau dysgu penodol** - sy'n effeithio ar un neu fwy o agweddau penodol ar ddysgu. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o gyflyrau fel dyslecsia, dyscalcwlia a dyspracsia.

### Cyfathrebu a Rhyngweithio



Mae hyn yn cynnwys:

#### Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

Mae plant a phobl ifanc ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu'n ei chael yn anodd cyfathrebu ag eraill.

- Gallai hynny fod oherwydd anhawster dweud yr hyn y mae arnynt eisiau'i ddweud fel bod eraill yn eu deall,
- trafferth deall beth mae pobl yn ei ddweud wrthynt
- , neu fethu â deall neu ddefnyddio rheolau cymdeithasol wrth gyfathrebu (gan gynnwys plant a phobl ifanc â diagnosis o **Anhwylder yn y Sbectrum Awtistig**).

Mae'n cynnwys plant a phobl ifanc ag anawsterau iaith a chyfathrebu o ganlyniad i

- nam synhwyradd neu gorfforol
- parhaol.

### Ymddygiad, a datblygiad emosiynol a chymdeithasol



Gallai plant a phobl ifanc wynebu amrywiaeth o anawsterau cymdeithasol ac emosiynol sy'n dod i'r amlwg mewn nifer o ffyrdd.

Gall hyn gynnwys **mynd i'w cragen** neu fod yn **ynysig** yn ogystal â dangos **ymddygiad heriol, trafferthus neu sy'n peri pryder**.

Gallai ymddygiad fel hyn fod oherwydd anawsterau iechyd meddwl fel gorbryder neu iselder, hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau, anhwylderau bwyta neu symptomau corfforol nad oes esboniad meddygol yn eu cylch.

Gallai plant a phobl ifanc eraill fod ag anhwylderau fel **anhwylder diffyg canolbwytio (ADD), anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd (ADHD)** neu **anhwylder ymlyniad (AD)**.

### Anghenion Synhwyradd a/neu Gorfforol



Mae ar rai plant a phobl ifanc angen darpariaeth ddysgu ychwanegol oherwydd anabledd sy'n eu rhwystro rhag defnyddio'r cyfleusterau addysgol a ddarperir yn gyffredinol neu'n ei gwneud yn anodd iddynt. Mae hynny'n cynnwys plant a phobl ifanc â:

- **Nam ar y golwg**
- **Nam ar y clyw**
- **Nam amsynnwyr** (cyfuniad o anawsterau gyda'r golwg a'r clyw)
- **Anabledd corfforol**

*"Mae'r maes angen hwn yn cynnwys yr ystod eang o anawsterau synhwyradd, amsynhwyradd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyradd yn ymestyn o fyddardod neu nam ar y golwg dwys a pharhaol drwodd i lefelau llai o golled, a all fod yn rhai dros dro yn unig. Gall namau corfforol ddeillio o achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolig sy'n gofyn am fynediad priodol at gyfleusterau ac offer*



*addysgol yn unig; gall eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan rai plant a phobl ifanc anawsterau aml-synhwyrdd, rhai ohonynt ag anawsterau corfforol cysylltiedig.*" (Cod ADY Cymru 2021)

Y diben wrth adnabod ADY yw penderfynu pa gamau y mae'n ofynnol i'r sefydliad addysgol eu cymryd, yn hytrach na rhoi plentyn neu unigolyn ifanc mewn rhyw gategori penodol. Yn ymarferol, mae anghenion plant a phobl ifanc yn aml iawn yn ymwneud â'r holl feysydd hyn, a gallai'r anghenion newid dros amser yn ôl eu math a'u dwyster. Dylai'r cymorth a ddarperir i blentyn neu unigolyn ifanc fod yn seiliedig bob amser ar ddealltwriaeth drylwyr o'u cryfderau ac anghenion penodol.

## 4.2. Lefelau Angen

Yn ogystal â disgrifio Anghenion Dysgu Ychwanegol ar sail gwahanol feysydd cyffredinol o angen, gellir hefyd eu mesur yn ôl gwahanol lefelau o ddifrifoldeb. Mae'r lefelau hynny'n bodoli ar gontinwwm a gall yr anghenion symud ar hyd y continwwm hwnnw dros amser. Darlunnir hyn dros y tudalen yn y diagram o'r Continwwm Anghenion ADY. Mae'r Ymateb Graddedig (a ddisgrifir yn y rhan sydd i ddilyn) yn cynnwys cyngor i sefydliadau addysgol ynglŷn ag adnabod y lefel o angen sy'n briodol ar gyfer plant a phobl ifanc unigol ar y continwwm hwn drwy arsylwi effaith eu hanghenion ar eu dysg.

## 5. Cyflwyno'r Ymateb Graddedig

### 5.1. Beth ydi'r Ymateb Graddedig?

Yn Sir y Fflint a Chonwy rydym yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY ar wahanol lefelau drwy ddefnyddio 'Ymateb Graddedig'.

*Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*

Yr ymateb graddedig ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY

20.23 Dylai ysgolion a gynhelir, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol fabwysiadu ymateb graddedig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag ADY, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae hyn yn golygu y dylai'r DDdY sy'n cael ei gwneud fod ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a

nodwyd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Yn benodol dylai ysgolion a sefydliadau addysg bellach wneud defnydd llawn o'r adnoddau sydd ar gael iddynt cyn galw, lle bo angen, ar arbenigwr i gynorthwyo gyda'r anawsterau y gall plentyn neu berson ifanc fod yn eu hwynebu.



20.24. Mewn llawer o achosion, bydd y DDdY a sefydlir i ddechrau yn golygu bod anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn cael eu diwallu'n llawn neu eu datrys. Dim ond ar gyfer y plant neu'r bobl ifanc hynny y mae eu cynnydd yn parhau i achosi pryder y bydd angen DDdY gynyddol neu wahanol yn ôl pob tebyg. Mae'n bosibl y bydd modd lleihau DDdY yn raddol yn hytrach na'i chynyddu ar gyfer rhai plant neu bobl ifanc os yw'r ymyriadau yn llwyddiant.

Pan adnabyddir fod gan blentyn neu unigolyn ifanc ADY, dylai sefydliadau addysgol gymryd camau i gael gwared ag unrhyw rwystrau rhag dysgu a sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol effeithiol drwy ddefnyddio Ymateb Graddedig.

Mae'r Lefel Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu) yn disgrifio'r gefnogaeth sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc, boed ganddynt ADY neu beidio. Wrth ddefnyddio'r Ymateb Graddedig ar y Lefel Cyffredinol, bodlonir anghenion drwy Addysgu a Dysgu graenus ynghyd â gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol sydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc (meddygon teulu a deintyddion, er enghraifft).

Darperir gwasanaethau Cyffredinol, gan gynnwys addysgu graenus, i'r holl blant a phobl ifanc, a bydd plant a phobl ifanc ag ADY yn dal i dderbyn y ddarpariaeth hon yn ogystal â'r gefnogaeth ychwanegol a ddarperir ar lefelau eraill o'r Ymateb Graddedig. Golyga hynny fod pob athro'n athro i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

Addasir y gefnogaeth i blant a phobl ifanc ar y lefel Cyffredinol, gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, yn ôl anghenion pob plentyn neu unigolyn ifanc ac fe'i darperir ar amrywiaeth o ffurfiau, er enghraifft: technoleg gynorthwyol, addysgu unigol neu mewn grwpiau bach, neu ddarparu cymorth yn y dosbarth.



**Continwmm Angen ADY Gogledd Cymru**

Bydd anghenion rhai plant a phobl ifanc yn fwy cymhleth mewn rhai cyd-destunau ac mae'r Ymateb Graddedig yn cynnwys cefnogaeth ychwanegol i fodloni'r anghenion hynny.

Yn Sir y Fflint a Chonwy mae ysgolion wedi cael cyllid i ddarparu cymorth ychwanegol fel y gallant roi darpariaeth ddysgu ychwanegol ar waith i blant mewn ysgolion prif ffrwd. Fel arfer, felly, yr awdurdodau lleol fydd yn ystyried cynlluniau datblygu unigol, eu llunio a'u cynnal pan mae ar blentyn neu unigolyn ifanc angen lleoliad a darpariaeth arbenigol.

Bodlonir anghenion y rhan helaeth o blant a phobl ifanc drwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol fel rhan o ddarpariaeth prif ffrwd. Bydd angen darpariaeth arbenigol ar nifer fechan iawn ohonynt. Ni chymeradwyir darpariaeth felly ond drwy benderfyniad amlasiantaethol cytûn ar sail proses o asesu'r dystiolaeth o angen y plentyn neu unigolyn ifanc (gan gynnwys ceisio cyngor asiantaethau arbenigol allanol), lle cytunir fod ar y plentyn neu unigolyn ifanc angen darpariaeth addysgol arbenigol yn unol â Chynllun Datblygu Unigol, ac mai dim ond mewn lleoliad arbenigol y gellir cynnig y ddarpariaeth.

## 5.2. Defnyddio'r Ymateb Graddedig

Cyflwynir yr Ymateb Graddedig yn y ddogfen hon ar ffurf cyfres o dablau sy'n:

- rhoi cyngor ynghylch adnabod gwahanol fathau a lefelau o anghenion yn y Continwmm ar gyfer ADY drwy ddefnyddio dangosyddion 'effaith ar ddysgu' y bydd staff yn arsylwi arnynt yn y lleoliad addysgol. Ni ddisgwylir i blant a phobl ifanc fod â phob dangosydd ar ryw lefel benodol, ond mae'n rhaid bod ganddynt fwy nag un.
- disgrifio'r camau y disgwylir i weithwyr proffesiynol mewn lleoliadau addysgol eu cymryd er mwyn bodloni anghenion plant a phobl ifanc ag ADY. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â chyfathrebu â theuluoedd, strategaethau ar gyfer y camau nesaf i'w cymryd a'r dystiolaeth y mae angen ei chofnodi.

Seiliwyd y tablau'n fras ar y meysydd o angen a nodir yng *Nghod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*, a rhannwyd rhai o'r meysydd hynny er mwyn cynnwys gwybodaeth fanylach ynghylch strategaethau arbenigol. Ymhob maes angen ceir tablau unigol ar gyfer y gwahanol lefelau o ddarpariaeth -

Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol Arbenigol).

Drwy ddefnyddio'r Ymateb Graddedig disgwylwn y gwneir addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod y rhan helaeth o blant a phobl ifanc ag ADY yn medru cael mynediad at ddarpariaeth prif ffrwd a bod y ddarpariaeth hynny'n bodloni eu hanghenion, fel eu bod yn cael yr un cyfleoedd â'u cyfoedion lle bynnag y bo modd a'u bod wedi'u cynnwys yn llwyr yn eu cymunedau.


Bwriedir i'r ddogfen hon gynorthwyo lleoliadau addysgol wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY ac mae'n cydnabod bod yn rhaid ystyried anghenion plant a phobl ifanc yn unigol. Ni ddylid gweld y ddogfen fel polisi hollgynhwysfawr.

## 6. Egwyddorion yr Ymateb Graddedig

Dylid mabwysiadu'r egwyddorion isod ymhob cam o'r Ymateb Graddedig, ac nid yn unig ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dan ystyriaeth yng nghyswllt ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol neu sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol.

### 6.1. Asesu, Cynllunio, Gwneud ac Adolygu

Yn ôl *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021* mae'n bwysig cadw mewn cof fod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, ac efallai y bydd eu hanghenion yn newid dros amser. Drwy gylch parhaus o gynllunio, gweithredu ac adolygu, gellir adnabod a darparu gwahanol gefnogaeth neu arbenigedd fel bo'r angen. Dylai'r amrywiaeth o gefnogaeth a'i harddull, felly, gynyddu, lleihau neu newid yn ôl anghenion penodol y plentyn neu unigolyn ifanc a'u cynnydd. Mae cefnogi plant a phobl ifanc ag ADY drwy'r Ymateb Graddedig yn cynnwys dilyn cylch â phedwar rhan, sef 'Asesu, Cynllunio, Gwneud ac Adolygu'. Wrth ddilyn y cylch caiff penderfyniadau a chamau gweithredu blaenorol eu hailystyried, eu diwygio a'u hadolygu wrth feithrin dealltwriaeth o anghenion y plentyn neu unigolyn ifanc a'r hyn sy'n cynorthwyo'r plentyn neu unigolyn ifanc i wneud cynnydd gwerth chweil a chyflawni canlyniadau da.



Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi braslun o'r egwyddorion cyffredinol ymhob cam o'r cylch sy'n sail ar gyfer penderfynu a oes ADY gan blentyn neu unigolyn ifanc a phennu'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei hangen. Mae Pennod 20 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch penderfynu a oes ADY gan blentyn neu unigolyn ifanc a phennu'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sydd ei hangen.

### **ASESU - Casglu tystiolaeth a'i hystyried**

Mae'n rhaid cael tystiolaeth er mwyn penderfynu a oes gan blentyn neu unigolyn ifanc ADY. Gellir cael y wybodaeth gan y plentyn neu unigolyn ifanc neu riant. Gall staff yn y lleoliad addysg a gwasanaethau eraill ddarparu gwybodaeth hefyd. Os oes gan y plentyn neu unigolyn ifanc anabledd cydnabyddedig (at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2012) bydd gwasanaethau arbenigol yn darparu tystiolaeth yn ôl pob tebyg, fel gwasanaeth cymorth synhwyraidd, er enghraifft.

Bydd penderfyniadau hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth a gesglir wrth arsylwi ar y plentyn neu unigolyn ifanc a'u hasesu. Mae asesu drwy ymyrryd yn hanfodol er mwyn darparu gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â chynnydd plentyn neu

unigolyn ifanc. Wrth gynnal asesiadau ffurfiannol o ansawdd da gan ddefnyddio amrywiaeth o offer a deunyddiau darperir gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r cynnydd. Ceir amrywiaeth o offer safonedig ar gyfer sgrinio ac asesu a fframweithiau y gall lleoliadau eu defnyddio. Gellir cael tystiolaeth werthfawr wrth ddadansoddi arsylwadau a chraffu ar waith. Mae rhestrau gwirio datblygiad a holiaduron dysgwyr hefyd yn ffynonellau o dystiolaeth. Mewn rhai amgylchiadau gallai asiantaethau eraill fel cyrff iechyd fod yn ymwneud â'r plentyn neu unigolyn ifanc. Bydd eu gwybodaeth, asesiadau a chyfraniadau hwythau'n helpu i alluogi lleoliad i gyflawni'r ddyletswydd o bennu'r anghenion dysgu ychwanegol. Os nad yw'r gweithwyr proffesiynol perthnasol yn gweithio â'r lleoliad addysgol yn barod, dylai staff y lleoliad gysylltu â hwy, gyda chydysniad rhieni'r plentyn neu unigolyn ifanc.

Mae'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn medru darparu cefnogaeth broffesiynol i'r holl staff fel bod modd iddynt adnabod ac asesu ADY yn gynnar a meithrin dealltwriaeth drwyadl o'r anghenion.

### **CYNLLUNIO – pennu'r ADY a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sy'n ofynnol**

Os nad yw plentyn neu unigolyn ifanc yn gwneud cynnydd digonol bydd angen i'r staff yn y lleoliad addysgol roi addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau wedi'u targedu ar waith. Pan mae angen darpariaeth ar blentyn neu unigolyn ifanc sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol i'r holl ddysgwyr neu'n wahanol, byddai hynny'n cyfrif fel darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae pennod 4 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn egluro'r ddyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau a chynlluniau. Dylai gweithwyr proffesiynol yn y lleoliad addysgol, ar y cyd â'r Cydlynnydd ADY, weithio gyda'r plentyn, eu rhieni neu'r unigolyn ifanc i gytuno ar y canlyniadau, ymyriadau a'r gefnogaeth y dylid eu sefydlu. Dylai'r gefnogaeth a'r ymyriadau a ddarperir fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'u llunio i gefnogi'r plentyn neu unigolyn ifanc i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Dylid hefyd nodi unrhyw anghenion cysylltiedig ar gyfer datblygu staff a mynd i'r afael â hwy. Dylai'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol fod ar y lefel isaf sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r ADY a nodwyd a dylai'r lleoliad ddefnyddio'i adnoddau i'r eithaf. Llunnir Cynllun Datblygu Unigol yn egluro'r ADY a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol sy'n ofynnol.



**GWNEUD** – Yr unigolyn allweddol neu'r athro dosbarth/pwnc sy'n dal yn gyfrifol am weithio â'r plentyn neu unigolyn ifanc yn feunyddiol (hyd yn oed pan mae'r ymyriadau'n cynnwys addysgu mewn grŵp neu'n unigol). Dylai'r Cydlynnydd ADY gefnogi staff lle bo angen wrth gynnal asesiadau ychwanegol a/neu gynghori ynghylch rhoi Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar waith yn effeithiol.

**ADOLYGU** – Bydd effeithiolrwydd y gefnogaeth a'r ymyriadau, a'u heffaith ar gynydd y plentyn neu'r unigolyn ifanc, yn cael ei adolygu'n gyson ac yn unol ag unrhyw amserlen y cytunwyd arni. Mae Pennod 25 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru'n darparu gwybodaeth a chyfarwyddyd ynghylch adolygu a diwygio Cynlluniau Datblygu Unigol.

Wrth adolygu bydd angen ystyried a yw'r plentyn neu unigolyn ifanc yn gwneud cynnydd at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir, a ydynt yn dal ag ADY, a yw'r anghenion dynodedig wedi newid ac a yw'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn dal yn briodol ynteu a oes angen darpariaeth ychwanegol neu wahanol.

## 6.2. Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Y plentyn neu unigolyn ifanc ag ADY a ddylai fod yn ganolbwynt unrhyw drefn asesu neu gynllunio. Mae a wnelo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â chanfod yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn neu unigolyn ifanc a gweithredu ar sail hynny, gan sicrhau cydbwysedd â'r hyn sy'n bwysig i'r staff. Wrth arfer dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fe adlewyrchir yr hyn y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn gallu'i wneud, yr hyn sy'n bwysig iddynt (yn awr ac yn y dyfodol) a rhoddir ystyriaeth i'r gefnogaeth y gallai fod angen arnynt er mwyn cyflawni'u potensial. Mae'n broses barhaol o wrando a dysgu, felly. Mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynnwys datrys problemau ac ystyried sut y gallwn neilltuo'r gefnogaeth a'r adnoddau mwyaf priodol i alluogi plant a phobl ifanc ag ADY i weithio at gyflawni eu dyheadau. Gallai'r adnoddau hynny ddod o rwydwaith y plentyn neu unigolyn ifanc a/neu'r gymuned leol, yn hytrach na bod gwasanaethau arbenigol yn unig yn eu darparu.

Mae Pennod 4 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn egluro'r ddyletswydd ar gyrrff i gyflawni eu swyddogaethau o dan Ddeddf Anghenion Addysgol Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau a chynlluniau.

4.4. Rhaid i rywun sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf sy'n ymwneud â phlentyn neu unigolyn ifanc ystyried:

- (a) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'u rhieni neu'r unigolyn ifanc
- (b) mor bwysig yw bod y plentyn a'u rhieni neu'r unigolyn ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth dan sylw
- (c) mor bwysig yw darparu'r wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol i'r plentyn a'u rhieni neu'r unigolyn ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

Mae Pennod 22 o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru'n cyflwyno cyfarwyddyd ac enghreifftiau o arferion da ar gyfer cyfarfodydd ynglŷn ag ADY a Chynlluniau Datblygu Unigol.

22.6. Dylai ysgol a gynhelir, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol sy'n cynnal cyfarfodydd â phlentyn a'u rhieni neu unigolyn ifanc:

- (a) trefnu'r cyfarfod(ydd) ar sail dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- (b) mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth gasglu gwybodaeth a'i chyflwyno (lle bo hynny'n berthnasol).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau cyfarwyddyd ynghylch ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae'r rhain ar gael ar-lein:



Arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn addysg: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/ymarfer-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion-mewn-addysg-canllaw-ar-gyfer-blynyddoedd-cynnar-ysgolion-a-cholegau-yng-nghymru.pdf>

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-01/person-centred-practice-in-education-a-guide-for-early-years-schools-and-colleges-in-wales.pdf>

Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: canllaw ar gyfer blynyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau yng Nghymru

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/pecyn-cymorth-adolygiadau-sy-n-canolbwyntio-ar-unigolion.pdf>

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/person-centred-reviews-toolkit.pdf>

## 6.3. Cydweithio

21.1. Un egwyddor allweddol y mae'r drefn ADY yn seiliedig arno yw'r angen am gydweithio rhwng pawb sy'n ymwneud ag adnabod anghenion, pennu cynlluniau a darparu cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag ADY.

Yn unol â *Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021*, dylid arfer dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### Rhieni

Mae arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn seiliedig ar yr ethos bod y rhaid ystyried safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'u rhieni neu'r unigolyn ifanc a'i bod yn bwysig eu bod yn cymryd rhan mor gyflawn â phosib mewn penderfyniadau sydd a wnelont â dylunio'r gefnogaeth a'r gwasanaethau, eu cynllunio, eu darparu a'u hadolygu er mwyn cyflawni'r amcanion a gytunir. Mae'n **rhaid** darparu'r wybodaeth a'r gefnogaeth

angenhidiol i'r plentyn a'u rhieni neu i'r unigolyn ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hyn. **Dylid** gwneud hyn yn gynnar yn ystod y broses er mwyn sicrhau bod y plentyn, eu rhiant neu'r unigolyn ifanc yn medru cymryd rhan gyflawn. Mae hynny'n gydnaws ag ethos ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Wrth arfer dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gosodir y plentyn, eu rhiant neu'r unigolyn ifanc yng nghanol y penderfyniadau, gan gydnabod fod gan bawb gyfraniad pwysig i'w wneud oherwydd eu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau amrywiol. Mae rhieni'n meddu ar wybodaeth allweddol, maent yn chwarae rhan hollbwysig yn natblygiad ac addysg eu plant ac yn chwarae rhan sylfaenol wrth helpu eu plant i gyflawni eu potensial.

### Asiantaethau eraill

Dylid hefyd ystyried a yw'r plentyn neu unigolyn ifanc eisoes yn ymwneud ag unrhyw asiantaethau eraill neu sefydliadau yn y trydydd sector neu'n derbyn cefnogaeth ganddynt. Dylid cynnwys y rheiny hefyd yn y broses fel y bo'n briodol.

Wrth gydweithio fel hyn mae'n fwy tebygol y caiff anghenion y plentyn neu unigolyn ifanc eu hadnabod yn gywir a bod y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a bennir yn effeithiol, a dylai hynny yn ei dro arwain at well canlyniadau i'r plentyn neu unigolyn ifanc.

## 6.4. Gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc

Yn unol â rhaglen drawsnewid Llywodraeth Cymru ar gyfer ADY, rydym yn benderfynol o sicrhau system lle caiff anghenion y dysgwyr eu hadnabod yn gynnar a'u bod yn cael cefnogaeth i gyflawni eu potensial. Mae Pennod 3 o God Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2021 yn nodi pump o egwyddorion allweddol sy'n sail ar gyfer y drefn ADY.

3.2. Yr egwyddorion sy'n sail ar gyfer y drefn ADY yw:

(a) **Dull sy'n seiliedig ar hawliau** Lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, eu rhiant neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle galluogir y plentyn, eu rhiant neu'r unigolyn ifanc i gyfranogi mor llawn â phosib yn y prosesau penderfynu a bydd ganddynt hawliau gwirioneddol i herio penderfyniadau ynglŷn ag ADY, darpariaeth ddysgu ychwanegol a materion cysylltiedig.

(b) **Mynd ati'n gynnar i adnabod anghenion, ymyrryd ac atal** a threfnu'r ddarpariaeth cyn gynted â phosib, ac os oes modd, rhoi ymyriadau ar waith i atal ADY rhag datblygu neu ddwysau.

(c) **Cydweithio ac integreiddio** rhwng gwasanaethau er mwyn sicrhau y caiff ADY eu hadnabod yn gynnar ac y darperir cefnogaeth gydlynol a phriodol er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i gyflawni disgwyliadau, profiadau a chanlyniadau cadarnhaol.

(ch) **Addysg gynhwysol** Lle caiff y mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY eu cefnogi i gyfranogi'n llawn mewn addysg prif ffrwd a lle dilynir dull lleoliad cyfan wrth ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY.

(dd) **System ddwyieithog** Lle cymerir pob cam rhesymol i gynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan fedru cynyddu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg dros amser.

Credwn y dylid canolbwyntio'n gryf ar ddyheadau uchel a gwella canlyniadau i'r holl blant a phobl ifanc sydd ag ADY. Nid yw canlyniadau'n golygu sefydlu'r gefnogaeth neu'r ddarpariaeth i'r plentyn neu unigolyn ifanc. Yn hytrach, canlyniadau yw'r budd neu'r gwahaniaeth i'r plentyn neu unigolyn ifanc oherwydd yr ymyrraeth, ac felly dylid canolbwyntio ar ganlyniadau o'r cychwyn cyntaf wrth adnabod plant a phobl ifanc ag ADY a'u cefnogi. Dylai unrhyw gynlluniau a chefnogaeth a ddarperir ganolbwyntio bob amser ar y canlyniadau a bennwyd ar gyfer y plentyn neu'r unigolyn ifanc (hynny yw, i ba raddau y bydd y gefnogaeth honno'n cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a

gytunir) a dylai hynny fod yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy o effeithiolrwydd y ddarpariaeth. Dylid adolygu'r gefnogaeth yn gyson fel rhan o'r cylch 'Asesu, Cynllunio, Gwneud, Adolygu' ac addasu neu newid y gefnogaeth gan ddibynnu pa mor effeithiol y bu'r ddarpariaeth wrth gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd.

Gyda dyheadau uchel a'r gefnogaeth iawn gall y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc fynd ymlaen i gyflawni canlyniadau hirdymor da fel oedolion. Dylai'r awdurdod lleol, lleoliadau addysgol, gwasanaethau a phartneriaid eraill gydweithio i baratoi plant a phobl ifanc ag ADY ar gyfer bod yn oedolion, a'u cynorthwyo i gyflawni eu huchelgeisiau.

## 7. Yr Ymateb Graddedig ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar

Ceir dogfennau perthnasol i'r Blynyddoedd Cynnar, gan gynnwys canllawiau arferion da, drwy fynd i <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/>

### 7.1. Rhagarweiniad

Mae pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau posib mewn bywyd a chefnogaeth sy'n eu galluogi i gyflawni eu potensial. Mae plant yn datblygu'n gyflym yn y blynyddoedd cynnar ac mae profiadau plentyn hyd bum mlwydd oed yn cael effaith fawr ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Dylai lleoliadau sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl blant a'u cefnogi.

Mae cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel yn hanfodol i ddysg a datblygiad plant ac maent yn gosod y sail ar gyfer unrhyw gamau pellach i amrywio'r ddarpariaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae'n rhaid i staff fod â'r disgwyliadau uchaf o'r holl blant ar sail yr hyn a wyddant am ddysg a datblygiad y plant, gan sicrhau y gwahaniaethir eu darpariaeth i blant unigol fel y bo'n briodol, a chan ystyried anghenion pawb.

Mae dysgu o ansawdd uchel yn deillio o'r amrywiaeth helaeth o ddarpariaeth yn y Blynyddoedd Cynnar (gan gynnwys Dechrau'n Deg, darparwyr Gofal Plant, y Blynyddoedd Cynnar, y Cyfnod Sylfaen ac yn y blaen) ac mae'n seiliedig ar bedwar o egwyddorion pwysig:

- Mae pob plentyn yn unigryw
- Mae plant yn dysgu bod yn gryf ac yn annibynnol drwy berthnasau cadarnhaol
- Mae plant yn dysgu a datblygu'n dda mewn amgylchedd sy'n eu galluogi
- Mae plant yn dysgu a datblygu mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol gyflymder



Wrth gynllunio a darparu cyfleoedd a phrofiadau mae'n hanfodol fod ymarferwyr yn ystyried y gwahanol ffyrdd y mae plant yn dysgu a'u bod yn adlewyrchu nodweddion dysgu effeithio yn eu hymarfer: wrth chwarae a chwilota; dysgu gweithredol; creu a meddwl yn feirniadol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gwricwlwm datblygiadol ar gyfer plant rhwng tair a saith mlwydd oed yng Nghymru. Ei nod yw annog plant i fod yn greadigol, defnyddio'u dychymyg a chael hwyl yn ogystal â gwneud dysgu'n fwy effeithiol.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru'n cynnwys saith o feysydd dysgu:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol
- Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygiad Iaith Gymraeg
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- Datblygiad Corfforol

Gellir defnyddio canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen a dulliau monitro eraill yn ganllaw ar gyfer pennu a yw plentyn yn datblygu'n unol â'r arfer am eu hoedran ynteu a oes perygl eu bod ar ei hôl hi neu ar y blaen. Caiff cynnydd y plentyn ei fonitro a'i olrhain yn gyson mewn yn y prif feysydd dysgu a meysydd penodol.

Mae gallu ymarferydd i greu cysylltiad go iawn â phlentyn a deall sut maent yn dysgu'n deillio o'u perthynas fel unigolyn allweddol. Dylai pob plentyn gael **unigolyn allweddol** a fydd yn gweithio'n agos â'r plentyn a'r teulu. Mae arsylwi, asesu a chynllunio'n hanfodol wrth fodloni anghenion unigol pob plentyn.

Wrth fonitro ac olrhain cynnydd plant fel hyn gellir adnabod anghenion yn brydlon ac ymyrryd yn gynnar ar sail hynny. Mae ymyrryd yn gynnar yn hanfodol wrth sicrhau cefnogaeth briodol i'r plant yn ogystal â'u teuluoedd. Mae ymyrryd yn effeithiol yn atgyfnerthu gallu teuluoedd i gefnogi eu plant ac yn arwain at well canlyniadau i'r teulu'n gyffredinol.

Rhieni sy'n adnabod eu plant orau ac mae'n bwysig fod yr holl ymarferwyr yn gwrandao ar rieni ac yn gweithio â hwy. Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth agos fel hyn. Mae cydweithio'n ein galluogi i greu darlun cyflawn o'r plentyn. Mae'n hanfodol rhannu gwybodaeth am y plentyn â gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau os oes rhai'n ymwneud â'r plentyn. Bydd hynny'n golygu bod modd rhannu gwybodaeth drwy'r dull graddedig a'i chofnodi yn y **Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**.

Gydol y blynyddoedd cynnar mae swyddogaeth y **Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd** yn allweddol. Mae Cynghorau Sir y Fflint a Chonwy'n gweithio'n agos â'r Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd. Mae Ymwelwyr Iechyd yn monitro cynnydd Datblygiadol plant yn y blynyddoedd cynnar. Os nodir unrhyw bryderon fe'u trafodir â'r rhieni a chaiff y plentyn eu hatgyfeirio at yr Ymwelwyr Iechyd am gefnogaeth briodol.

*Unwaith y mae plentyn yn mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol a gynhelir a bod ADY wedi'u hadnabod, dylid nodi y bydd Cydlynnydd ADY yr ysgol yn darparu cefnogaeth a chyfarwyddyd.*

## 7.2. Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cynorthwyo pawb i ddod i adnabod y plentyn yn well ac mae'n eu galluogi i gynllunio a chyflawni ymarfer a darpariaeth effeithiol i'r plentyn. Mae'r cyfarfod yn un cefnogol lle mae pawb, gan gynnwys y plentyn os yw hynny'n briodol, yn cael cyfle i rannu eu dymuniadau, safbwyntiau a chynlluniau ar gyfer symud ymlaen. Cytunir y strategaethau ac ymyriadau hyn gan bawb yn y cyfarfod, gan alluogi pawb sy'n cefnogi'r plentyn i gydweithio er mwyn bodloni eu hanghenion a chyflawni'r canlyniadau a bennwyd.

Bydd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys rhieni'r plentyn, y plentyn os yw hynny'n briodol, a'r staff perthnasol o'r lleoliad, a gallant hefyd gynnwys: aelod o Dîm Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar a/neu Dechrau'n Deg yn ogystal ag asiantaethau sy'n bartneriaid sy'n cefnogi'r plentyn fel yr Ymwelwyr Iechyd, Therapydd Iaith a Lleferydd, Ffisiotherapydd neu Therapydd Galwedigaethol Tîm Cymorth Synhwyraidd.

Yn y Blynyddoedd Cynnar caiff lleisiau plant eu cofnodi mewn sawl ffordd gan y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n agos â hwy. Rhan allweddol o'r broses yw cynnwys llais y rhieni hefyd, gan sicrhau y cydnabyddir eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bersonol o'u plant a bod hynny'n rhan o'r holl drafodaethau a phenderfyniadau. Y rhieni sy'n adnabod a deall eu plant orau ac mae'n hanfodol eu bod yn cyfranogi er mwyn sicrhau fod pawb yn gweithio i gyflawni'r un canlyniadau cytunedig. Mae'r cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn sicrhau fod y rhieni'n teimlo bod rhywun yn gwrandao arnynt ac yn gwerthfawrogi eu barn a'u cyfraniadau.



Mae'n hollbwysig gweithio mewn partneriaeth â rhieni wrth gynllunio gan ganolbwyntio ar yr unigolyn. Dylid meithrin cyswllt â hwy gydol y drefn Asesu, Cynllunio ac Adolygu a dylid ystyried eu barn wrth benderfynu ynghylch y gefnogaeth y dylid ei darparu i'r plentyn yn y lleoliad. At hynny, dylai'r ymarferydd a'r Cydlynedd ADY ymgynghori â'r rhieni a chytuno ynghylch:

- Y canlyniadau a ddymunant i'w plentyn
- Yr ymyriadau a'r gefnogaeth a sefydlir
- Yr effaith a ddisgwylir ar gynnydd, datblygiad ac ymddygiad
- Dyddiad ar gyfer adolygu'r uchod.

I gynorthwyo gyda hyn, mae'r awdurdod lleol wedi llunio canllawiau y gall lleoliadau'r blynyddoedd cynnar eu dilyn. Mae copïau ar gael:

**I Gonwy.**

Gwefan ADY Conwy.

**I Sir y Fflint.**

Map Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar







## Y Blynyddoedd Cynnar

## Darpariaeth Gyffredinol


## Gwybyddiaeth a Dysgu (Maes Angen)

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p>Gallai fod tystiolaeth o rywffaint o oedi wrth gyrraedd cerrig milltir disgwylidig a thystiolaeth o un neu fwy o'r pethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhai pryderon ynglŷn â sgiliau datblygiadol</li> <li>Rhywfaint o dystiolaeth o chwarae ailadroddus, diddordebau cul a diffyg dychymyg wrth chwarae.</li> <li>Efallai bod y plentyn yn symud yn gyflym o un gweithgaredd i'r llall a gallai fod angen oedolyn i sicrhau eu bod yn dysgu drwy chwarae.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cofnodi'r pryderon a'r dyddiad y'u codwyd.</li> <li>Dylid cadw cofnod o bob digwyddiad o bwys fel dyddiad cofrestru â'r lleoliad, atgyfeiriadau at asiantaethau allanol ac yn y blaen.</li> <li>Dylai staff y lleoliad sicrhau y darperir gweithgareddau wedi'u gwahaniaethu'n addas i'r plentyn</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Dylid dal ati i olrhain a monitro cynnydd y plentyn yn unol â'u proffil datblygu gan amlygu unrhyw feysydd sy'n peri pryder.</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi</li> <li>Dylid trafod datblygiad y plentyn fel y'i cofnodir yn y Llyfr Coch ac/neu yn y cyfarfod sgrinio pan mae'r plentyn yn 15 mis oed a 27 mis oed (Rhaglen Plant Iach Cymru)</li> <li>Dylai'r lleoliad feithrin cyswllt agos â'r Ymwelydd Iechyd cysylltiedig, gyda chydysyniad y rhieni.</li> <li>Dylid ystyried cyfleoedd hyfforddiant i'r staff</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid defnyddio Nodweddion Dysgu Effeithiol wrth asesu sut mae plant yn dewis dysgu a lle maen nhw'n hoffi mynd dan do ac yn yr awyr agored.</li> <li>Dylid ystyried sut mae'r plentyn yn chwarae ac archwilio, beth sy'n eu cymell i ddysgu a meddwl yn feirniadol ac yn y blaen.</li> <li>Dylid ystyried sut mae'r plentyn yn chwarae ac archwilio, beth sy'n eu cymell i ddysgu a meddwl yn feirniadol ac yn y blaen.</li> <li>Dylid canfod beth sy'n ennyn diddordeb a sylw'r plentyn a defnyddio'r wybodaeth wrth gynllunio'r camau nesaf o safbwynt dysgu.</li> <li>Dylid darparu cyfleoedd i archwilio a thrin a thrafod offer a defnyddiau chwarae.</li> <li>Dylid cydgrynhai'r dysgu drwy sicrhau bod y gweithgareddau y mae'r plentyn yn eu mwynhau yn dal ar gael ac yn hygyrch.</li> <li>activities that the child enjoys remain available and are easily accessible.</li> <li>Dylid ymestyn ac addasu gweithgareddau wrth i ddiddordebau a syniadau plant ddatblygu a newid.</li> <li>Dylid ystyried yr amgylchedd. Helpwch y plentyn i ganolbwyntio drwy gyfyngu ar bethau sy'n tynnu eu sylw, er enghraifft drwy gefnogi amser chwarae mewn lle tawel yn y lleoliad.</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cefnogi plant a theuluoedd i gael mynediad at wasanaeth cyffredinol fel y bo'n briodol:</li> </ul> <p><b>Yng Nghonwy</b>, drwy'r Canolfannau Teuluoedd lleol / y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (<a href="http://plantconwy.gov.uk">plantconwy.gov.uk</a>) a/neu'r ymwelydd iechyd</p> <p><b>Yn Sir y Fflint</b>, drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (<a href="mailto:fisf@flintshire.gov.uk">fisf@flintshire.gov.uk</a>) a/neu'r ymwelydd iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol</li> <li>Dylid ystyried iaith a siaredir ar aelwyd y plentyn os yw honno'n wahanol i iaith y lleoliad</li> <li>Os erys pryderon dylai'r unigolyn dynodedig ar gyfer ADY yn y lleoliad drafod â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol a oes angen ymyriadau mwy penodol ar y plentyn, a rhannu'r wybodaeth â'r rhieni/gofalwyr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid darparu gweithgareddau addas o safbwynt datblygiad a sicrhau bod y plentyn yn medru cael mynediad atynt wrth eu pwysau eu hunain, er mwyn eu galluogi i lwyddo</li> <li>Dylid darparu gweithgareddau sy'n ysgogi'r plant a'u hannog i ddefnyddio'u holl synhwyrau.</li> <li>Dylid ennyn chwilfrydedd y plentyn drwy gyflwyno gweithgareddau newydd neu newid rhai cyfarwydd, fel chwarae Lego yn y pwll tywod, rhoi ceir yn y clai ac yn y blaen.</li> <li>Dylid darparu basgedi trysor a chynnwys pethau newydd ynddynt yn gyson i'r plant gael archwilio</li> <li>Anogwch y plentyn i archwilio dan do ac yn yr awyr agored, ac i fagu chwilfrydedd, fel drwy chwarae mewn pyllau mwdlyd ac ati.</li> <li>Anogwch blant i ddatrys problemau drwy ofyn cwestiynau fel 'beth fyddai'n digwydd os...?' Rhowch amser i'r plentyn ymateb.</li> <li>Defnyddiwch iaith syml fel bod y plentyn yn medru deall ac ymateb.</li> <li>Ategwch hynny â phethau gweledol fel sachau stori, pypedau ac yn y blaen.</li> <li>Datblygu sgiliau presennol drwy ailadrodd, cyffredinoli a chymryd camau bychain wrth ddysgu.</li> <li>Cynlluniwch gyfleoedd perthnasol a strwythuredig i blant ddysgu a chwarae er mwyn bodloni eu hanghenion datblygiadol.</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r ymateb graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Cofnodion yn cynnwys:
  - y pryderon a'r dyddiad y'u codwyd gyntaf
  - pob digwyddiad o bwys fel dyddiad cofrestru â'r lleoliad, atgyfeiriadau at asiantaethau allanol ac yn y blaen
- Tystiolaeth (cofnodion cyfarfodydd, cynlluniau) o'r bartneriaeth â'r rhieni a'r plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.
- Orlhain a monitro i ddangos cynnydd y plentyn
- Proffil datblygiadol y plentyn (Proffil y Cyfnod Sylfaen)
- Tystiolaeth o gyfarfodydd ac arsylwadau ynghyd â chefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi
- Cynlluniau sy'n dangos sut rhoddwyd strategaethau ar waith

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**



## Y Blynyddoedd Cynnar

### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)

## Gwybyddiaeth a Dysgu

### (Maes Angen)


<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydych chi'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<p><b>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir a thystiolaeth o un neu fwy o'r pethau canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth o chwarae ailadroddus mynych, diddordebau cul ac anawsterau arwyddocaol â chwarae dychmygus.</li> <li>Tystiolaeth fod y plentyn yn ei chael yn anodd cofio cysyniadau dros amser</li> <li>Mae'n well ganddynt chwarae ar eu pennau'u hunain neu ar y cyrion pan mae plant eraill yn chwarae.</li> <li>Wrth ddysgu o'r newydd mae'n rhaid rhannu popeth yn gamau bychain a'u hailadrodd, ac mae gofyn gor-ddysgu er mwyn sicrhau cynnydd a chyflawni canlyniadau</li> <li>Mae'r plentyn yn dechrau colli sgiliau mewn meysydd datblygu penodol.</li> <li>Anawsterau mawr â sylw. Mae gofyn lefel uchel o gefnogaeth i hoelio sylw'r plentyn a hybu dysgu drwy chwarae. Diddordebau cul wrth chwarae</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dal i gadw cofnod o ddigwyddiadau o bwys, fel atgyfeirio at asiantaethau allanol, er enghraifft</li> <li>Dylai'r Cydlynnydd ADY/unigolyn cyswllt dynodedig yn y lleoliad rannu'r pryderon â'r rhieni a llunio Proffil Un Tudalen ar y cyd â'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn.</li> <li>Dal i feithrin cyswllt â'r asiantaethau allanol sy'n ymwneud â'r plentyn, fel y bo'n briodol.</li> <li>Dylai'r Cydlynnydd ADY/unigolyn cyswllt dynodedig gynorthwyo'r unigolyn allweddol wrth gynllunio gweithgareddau gwahaniaethol, ymyriadau a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</li> <li>Defnyddio'r Proffil Un Tudalen wrth fonitro ac adolygu'r strategaethau a'r ymyriadau a ddefnyddir gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau.</li> <li>Dylid sicrhau y caiff unrhyw argymhellion gan arbenigwyr eu cynnwys ym <b>Mhroffil Un Tudalen</b> y plentyn.</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi.</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu Proffiliau Un Tudalen yn ogystal â strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel <b>Cyffredinol</b>, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried beth sy'n ennyn diddordeb y plentyn ac yn hybu cyfranogiad ar lefel uchel.</li> <li>Symleiddio'r gweithgareddau/tasgau a'u rhannu'n gamau bychain y gellir eu cyflawni</li> <li>Dylid sicrhau ymhob sesiwn fod y plentyn yn cael mynediad at gyfle dysgu unigol â chefnogaeth, amser mewn grŵp bach a chefnogaeth wrth chwarae dan arweiniad y plentyn.</li> <li>Dylid sicrhau fod yno ddigonedd o gyfleoedd i ailadrodd gweithgareddau</li> <li>Dylid annog plant i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau penagored sy'n eu difyrru a'u hannog i ddefnyddio'u holl synhwyrâu.</li> <li>Dylid dal i greu profiadau diddorol sy'n meithrin chwifrydedd y plentyn a'u hawydd i archwilio</li> <li>Dylid datblygu 'sylw ar y cyd' drwy ddilyn diddordebau'r plentyn, ymuno wrth iddynt chwarae, a modelu ieithwedd sy'n addas i lefel datblygiad y plentyn</li> <li>Dylid darparu cyfleoedd i archwilio a thrin a thrafod offer a defnyddiau chwarae</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheolaidd</li> <li>Dylid ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff</li> <li>Cefnogi plant a theuluoedd i gael mynediad at wasanaeth cyffredinol fel y bo'n briodol:</li> </ul> <p><b>Yng Nghonwy</b>, drwy'r Canolfannau Teuluoedd lleol / y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (<a href="http://plantconwy.gov.uk">plantconwy.gov.uk</a>) a'r Ymwelydd Iechyd</p> <p><b>Yn Sir y Fflint</b>, drwy Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint (<a href="mailto:fisf@flintshire.gov.uk">fisf@flintshire.gov.uk</a>) a'r Ymwelydd Iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid ategu <b>pob</b> cais â thystiolaeth a gasglwyd ers y tro cyntaf y codwyd pryderon, gan adlewyrchu popeth y mae'r lleoliad wedi'i wneud i fodloni anghenion y plentyn. Bydd panel cymedroli'n ystyried pob cais.</li> <li>Os bydd datblygiad y plentyn yn dal i beri pryder ar ôl cyfnod rhesymol o amser a bod cynnydd yn dal yn araf, dylai Cydlynnydd ADY / unigolyn dynodedig y lleoliad drafod y sefyllfa â'r rhieni, yr asiantaethau allanol perthnasol, ac mewn <b>lleoliadau nas cynhelir</b>, Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar, ac ystyried a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar y plentyn er mwyn bodloni unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid sgaffaldio dysg y plentyn drwy fodelu'r sgil newydd. Gellir gwneud hyn yn unigol, mewn parau neu mewn grwpiau bach gydag oedolyn yn cefnogi.</li> <li>Dylid datblygu cronfa o adnoddau aml-synhwyrdd y gellir eu defnyddio ar wahanol adegau wrth ddatblygu ymwybyddiaeth y plentyn a'u hannog i archwilio'r synhwyrddau</li> <li>Dylid cyflwyno gwrthrychau annisgwyl, rhoi teganau mewn manau anarferol a/neu gyflwyno blychau trysor neu bethau diddorol i blant eu harchwilio</li> </ul>



## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:
  - Tystiolaeth o anawsterau, gan gynnwys arsylwadau ynglŷn â phryd, lle a sut y caiff cefnogaeth ei darparu a'i haddasu i gynorthwyo â hynny
  - Proffil Un Tudalen, gan gynnwys cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd gan arbenigwyr
  - Rhannu cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â'r plentyn, rhieni ac asiantaethau allanol

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)**




## Y Blynyddoedd Cynnar

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)

## Gwybyddiaeth a Dysgu (Maes Angen)

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<p><b>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir a thystiolaeth o un neu fwy o'r pethau canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Oedran datblygiadol yn llai na'r oedran cronolegol mewn dau o feysydd datblygu neu fwy.</li> <li>Tystiolaeth o chwarae ailadroddus mynych, diddordebau cul ac anawsterau difrifol â chwarae dychmygus.</li> <li>Yn osgoi chwarae ag eraill.</li> <li>Yn tueddu i beidio ag ymwneud ag oedolion na chyfoedion.</li> <li>Methu â throsglwyddo sgiliau a ddysgwyd mewn cyd-destun ehangach.</li> <li>Tystiolaeth fod y plentyn yn ei chael yn anodd iawn cofio cysyniadau dros amser</li> <li>Mae'r plentyn yn gyson yn colli sgiliau mewn meysydd datblygu penodol.</li> <li>Mae ar y plentyn angen lefel uchel iawn o gefnogaeth bersonol i gael mynediad at gwricwlwm sydd wedi'i addasu'n benodol ar eu cyfer.</li> </ul>	<p>Dylai'r Cydlynnydd ADY/unigolyn cyswllt dynodedig gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol, ymyriadau a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau.</li> <li>Sicrhau fod Cynllun Datblygu Unigol y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr (er enghraifft, y Therapydd Iaith a Lleferydd, Seicolegydd Addysg).</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi.</li> <li>Dylid sicrhau partneriaeth waith agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu'r CDU yn ogystal â strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Dylid sicrhau fod yr holl staff yn cael hyfforddiant penodol i anghenion y plentyn a chefnogi cyflawniad y canlyniadau yn y CDU a'r ddarpariaeth yn y lleoliad.</li> <li>Dylid sicrhau y sefydlir CDU yr Awdurdod Lleol a bod y lleoliad yn gweithredu'r canlyniadau a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel Cyffredinol a/neu Cyffredinol wedi'i Dargedu, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu.</li> <li>Dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir yn y CDU.</li> <li>Dylai'r cynlluniau roi sylw i weithdrefnau symud a chario sy'n seiliedig ar gyngor proffesiynol</li> </ul>

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dal i gyfathrebu'n gyson â'r asiantaethau sy'n gweithio â'r plentyn</li> <li>• Adolygu'r CDU bob blwyddyn</li> <li>• Dylid cynnal cyfarfod adolygu'r CDU pan mae'r plentyn yn pontio i lleoliad neu ysgol newydd er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r ddarpariaeth a nodir yn y CDU yn briodol yn y lleoliad newydd.</li> </ul>	

<b>Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig</b> <b><i>Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?</i></b>	
	<p><a href="http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy">http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth flaenorol: <ul style="list-style-type: none"> <li>- y pryderon a'r dyddiad y'u codwyd gyntaf</li> <li>- pob digwyddiad o bwys fel dyddiad cofrestru â'r lleoliad, atgyfeiriadau at asiantaethau allanol ac yn y blaen</li> </ul> </li> <li>• Tystiolaeth (cofnodion cyfarfodydd, cynlluniau) o'r bartneriaeth â'r rhieni a'r plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Olrhain a monitro er mwyn dangos cynnydd y plentyn</li> <li>• Proffil datblygiadol y plentyn (Proffil y Cyfnod Sylfaen)</li> <li>• Tystiolaeth o gyfarfodydd ac arsylwadau ynghyd â chefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi</li> <li>• Cynlluniau sy'n dangos sut rhoddwyd strategaethau ar waith</li> <li>• - Tystiolaeth o anawsterau, gan gynnwys arsylwadau ynglŷn â phryd, lle a sut y caiff cefnogaeth ei darparu a'i haddasu i gynorthwyo â hynny</li> <li>• - Proffil Un Tudalen, gan gynnwys cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd gan arbenigwyr</li> <li>• - Rhannu cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â'r plentyn, rhieni ac asiantaethau allanol</li> <li>• Dylid sicrhau hefyd: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Bod cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dangos y gwaith a wneid â'r plentyn, rhieni ac asiantaethau allanol</li> <li>- Proffiliau Un Tudalen, gan gynnwys rhai sydd wedi'u hadolygu</li> <li>- Tystiolaeth gynhwysfawr o waith monitro sy'n dangos effaith y strategaethau ac ymyriadau</li> <li>- Tystiolaeth sy'n dangos cyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd gan asiantaethau allanol ar ffurf cofnodion, cynlluniau gweithredu, cynlluniau</li> <li>- CDU yr Awdurdod Lleol sy'n pennu'r canlyniadau a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a roddwyd ar waith</li> </ul> </li> </ul>




## Y Blynyddoedd Cynnar

## Darpariaeth Gyffredinol

## Cyfathrebu a Rhyngweithio


<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p>1 band datblygiadol islaw'r oedran cronolegol</p> <p>Hefyd, gweler y wybodaeth isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pecyn gwaith WellComm</li> <li>Rhestr wirio datblygu ELKLAN</li> <li>Rhestr wirio ICAN</li> <li>Proffil y Cyfnod Sylfaen</li> </ul> <p><b>Rhyngweithio Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhai anawsterau wrth ddilyn normau cymdeithasol, fel</li> <li>cadw cyswllt llygaid, er enghraifft, sgwrsio, rhannu ac aros eu tro</li> <li>Rhai anawsterau wrth siarad ag oedolion y tu allan i'r teulu</li> <li>Tynnu'n ôl i ryw raddau o gwmpeini eraill</li> <li>Diffyg gallu i oddef rhyngweithio cymdeithasol (gan ystyried oedran)</li> <li>Gorbryder gwaeth nag arfer ar adegau o newid neu bontio (arferion/amgylchedd/pobl)</li> <li>Rhai anawsterau â gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion</li> <li>Diddordebau cul wrth chwarae weithiau a/neu bod y plentyn yn cadw at weithgareddau y mae'n eu hoffi, fel cerbydau, cyfrifiadur ac yn y blaen.</li> <li>Efallai bod y plentyn yn chwarae ar ben ei hun.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai <b>Staff</b> y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd, ac adolygu'r cynlluniau'n gyson</li> <li>Dal i olrhain a monitro cynnydd y plentyn</li> <li>Trafod datblygiad y plentyn fel y'i cofnodwyd yn y</li> <li>y Llyfr Coch ac/neu yn y cyfarfod sgrinio pan mae'r plentyn yn 15 mis oed a 27 mis oed (Rhaglen Plant Iach Cymru).</li> <li>Dylai'r lleoliad feithrin cyswllt agos â'r Ymwelydd Iechyd cysylltiedig.</li> <li>Dylai ymarferwyr ddefnyddio dulliau sgrinio fel Proffil y Cyfnod Sylfaen, pecyn gwaith WellComm, rhestr wirio ELKLAN (add link to more info on Conwy website). Dylid rhannu canlyniadau'r sgrinio â'r rhieni.</li> <li>Ffonio'r gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd. Llinell gymorth ar gyfer brysbennu a thrafod pryderon.</li> </ul> <p>Rhif ffôn:                  Dydd Llun 3pm – 4pm 03000 850095                  Dydd Iau 12.30pm – 1.30pm 03000 850095  <a href="mailto:BCU.SALThelpineCentral@wales.nhs.uk">BCU.SALThelpineCentral@wales.nhs.uk</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhowch eich hun yn rhywle lle mae'r plant yn medru gweld eich wyneb yn glir a chithau'n gallu eu gweld hwythau.</li> <li>Cyfyngwch ar bethau sy'n tynnu sylw</li> <li>Neilltewch amser ychwanegol ar gyfer prosesu gwybodaeth, rhoi atebion a chwblhau tasgau</li> <li>Rhowch gyfle i ymarfer yn rheolaidd drwy gofio ac</li> <li>ailadrodd</li> <li>Rhowch rybudd pan mae gweithgaredd yn tynnu at y terfyn a chefnogi wrth fynd o un peth i'r llall (gallai fod angen rhoi rhybudd gweledol).</li> <li>Cyflwynwch weithgareddau a phrofiadau newydd yn bwylllog fesul dipyn, er enghraifft drwy gyflwyno hambwrdd bach o dywod a dim byd arall.</li> <li>Cefnogwch ddatblygiad rhannu a chymryd troeon mewn grwpiau bach ac yn unigol os oes angen. Dylid sicrhau fod yno ddigonedd o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau rhyngweithio cymdeithasol a chwarae.</li> <li>Cynigiwch dewisiadau i'r plentyn, fel dewis o ddwy gân, dwy stori, dau ddiodydd - ategwch y dewisiadau'n weledol â gwrthrychau/lluniau/symbolau</li> <li>Rhowch ganmoliaeth benodol fel "rwyd ti'n eistedd yn dda" neu "rwyd ti'n yfed yn dda" ac yn y blaen</li> </ul>




<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r plentyn yn mwynhau gwybodaeth weledol ac yn ymateb yn well nag i wybodaeth glywedol/llafar</li> <li>Efallai bod yn well gan y plentyn rai pethau nag eraill o ran bwyd, dillad ac ati, ac efallai y bydd eu hannog i roi cynnig ar brofiadau newydd yn peri gofid iddynt</li> <li>Os yw'r plentyn yn cynhyrfu gall gymryd mwy o amser i'w setlo a'u cysuro</li> </ul> <p><b>Iaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Iaith fynegiannol a/neu oddefol y plentyn yn dangos rhywfaint o oedi (gan ystyried oedran ac iaith gyntaf) ac mae angen cyfraniad ychwanegol er mwyn hybu'r cynnydd</li> <li>Mae angen ailadrodd, siarad yn araf a defnyddio geiriau allweddol</li> </ul> <p><b>Lleferydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Siarad â synau babiaidd</li> <li>Lleferydd yn annealladwy i oedolyn sy'n gyfarwydd â'r plentyn</li> </ul>	<p>Mae gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefan hefyd: <a href="https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-lleferydd/gwasanaethau-plant/">https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-lleferydd/gwasanaethau-plant/</a></p> <p>Mae rhagor o wybodaeth ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/slt">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/slt</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Os ydych chi'n anfon e-bost dylech gynnwys enw cyntaf y plentyn, eu hoedran, eich perthynas â'r plentyn a rhif ffôn. Mae'n rhaid cael caniatâd y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn cysylltu â'r llinell gymorth dros y ffôn neu drwy e-bost.</li> <li>Dylech ystyried cyfleoedd hyfforddiant i'ch staff, gan gynnwys pethau fel Makaton, creu amgylchedd sy'n annog cyfathrebu, er enghraifft.</li> <li>Cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd Lleol.</li> <li>Cefnogwch blant a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn sesiynau galw heibio grwpiau Sgwrsio Lleol.</li> <li>Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol - (holwch a oedd yw'r plentyn wedi symud o ardal Awdurdod Lleol arall lle'r oedd ganddynt Gynllun Datblygu Unigol)</li> <li>Dylid ystyried iaith a siaredir ar aelwyd y plentyn os yw honno'n wahanol i iaith y lleoliad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ewch ati i greu amgylchedd cyson a dibynadwy a sicrhau y dilynir trefnau beunyddiol</li> <li>Rhowch bethau ar y wal fel ffordd weledol o brocio'r cof</li> <li>Cefnogwch weithgareddau dan arweiniad y plentyn a chanolbwyntio ar gyfathrebu ac iaith drwy ymuno â'r plentyn, dilyn eu harweiniad a chwarae â hwy.</li> <li>Symleiddiwch eich iaith os oes angen - pwysleiswch eiriau allweddol a defnyddiwch frawddegau byr.</li> <li>Rydym yn gwirio ac atgyfnerthu dealltwriaeth plant drwy ailadrodd, aralleirio, egluro a modelu.</li> <li>Cynlluniwch weithgareddau wedi'u gwahaniaethu mewn grwpiau bach.</li> <li>Adnoddau a chyfleoedd chwarae yn ôl oedran a cham datblygu, fel ICAN: <i>Babbling Babies</i> (£12.00), <i>Toddler Talk</i> (£12.00), <i>Chatting with Children</i> (£12.00)</li> </ul> <p>Adnoddau am ddim i ymarferwyr – <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/resources/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/resources/</a></p> <p>Adnoddau am ddim i rieni – <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/parents/resources/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/parents/resources/</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhowch amser i blant sy'n ei chael yn anodd siarad neu sydd angen amser i brosesu eu meddyliau.</li> </ul>




<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddiwch strategaethau o'r Rhaglen Hyfforddiant ar Ddatblygiad Iaith Cynnar ynghylch Rhyngweithio rhwng Plant ac Oedolion a defnyddio Iaith. Rhowch Amser Iddo <a href="https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo">https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo</a> <a href="https://gov.wales/parenting-give-it-time/your-childs-development">https://gov.wales/parenting-give-it-time/your-childs-development</a> Plant Bach Hapus <a href="https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg">https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg</a> I Can <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/professionals-faqs/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/professionals-faqs/</a></li> <li>• Defnyddiwch weithgareddau i ddatblygu sgiliau gwranddo a chanolbwyntio (mewn grŵp), er enghraifft, drwy gynllunio amser stori er mwyn annog plant i ymuno, gyda straeon cryno â digon o luniau, celfi, sachau stori ac yn y blaen.</li> <li>• Gweithgareddau i ddatblygu cof clywedol tymor byr</li> <li>• Darparwch adnoddau wedi'u labelu'n amlwg â lluniau neu wrthrychau, a defnyddiwch amserlenni gweledol. Cyflawni'r cynllun Siarad Gyda Fi <a href="https://llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu">https://llyw.cymru/siarad-gyda-fi-cynllun-cyflawni-ar-gyfer-lleferydd-iaith-chyfathrebu</a></li> <li>• Staff yn sicrhau cysondeb y drefn feunyddiol gan olygu fod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn deall beth sy'n digwydd.</li> <li>• Amgylchedd ag ardaloedd diffiniedig wedi'u labelu â delweddau, symbolau a geiriau</li> <li>• Defnyddir cyfathrebu di-eiriau i ategu'r iaith lafar. Er enghraifft, defnyddir Makaton a gwahanol ystumiau wrth siarad.</li> <li>• Cyflawnir gweithgareddau'r rhaglen grŵp WellComm.</li> </ul>



<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hunan-gofnodi teimladau ymhob sesiwn. Cofnod gweledol yw hwn sy'n annog y plentyn i fagu annibyniaeth a'r gallu i roi enw a label ar bethau.</li> <li>• Caiff pob plentyn ei gyfarch yn bersonol ymhob sesiwn.</li> <li>• Lleihau sŵn yn y cefndir lle bo modd. Cornel dawel (sydd ag adnoddau amlsynhwyraidd i gynorthwyo â hunan-reolaeth ar emosiynau).</li> <li>• Cefnogwch weithgareddau dan arweiniad y plentyn a chanolbwyntio ar gyfathrebu ac iaith drwy ymuno â'r plentyn, dilyn eu harweiniad a chwarae â hwy.</li> <li>• Symleiddiwch eich iaith os oes angen - pwysleisiwch eiriau allweddol a defnyddiwch frawddegau byr.</li> <li>• Rydym yn gwirio ac atgyfnerthu dealltwriaeth plant drwy ailadrodd, aralleirio, egluro a modelu.</li> <li>• Cynlluniwch weithgareddau wedi'u gwahaniaethu mewn grwpiau bach.</li> <li>• Adnoddau a chyfleoedd chwarae yn ôl oedran a cham datblygu, fel ICAN: Babbling Babies (£12.00), Toddler Talk (£12.00), Chatting with Children (£12.00)</li> </ul> <p>Adnoddau am ddim i ymarferwyr – <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/resources/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/resources/</a></p> <p>Adnoddau am ddim i rieni – <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/parents/resources/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/parents/resources/</a></p>




<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhowch amser i blant sy'n ei chael yn anodd siarad neu sydd angen amser i brosesu eu meddyliau.</li> <li>• Defnyddiwch strategaethau o'r Rhaglen Datblygiad Iaith Cynnar ynghylch Hyfforddiant ac Ymwneud ag Oedolion a defnyddio Iaith. Rhowch Amser Iddo <a href="https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo">https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo</a> <a href="https://gov.wales/parenting-give-it-time/your-childs-development">https://gov.wales/parenting-give-it-time/your-childs-development</a> Plant Bach Hapus <a href="https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg">https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg</a> I Can <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/professionals-faqs/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/professionals-faqs/</a></li> </ul> <p>Rhagor o Wybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="https://ican.org.uk/">https://ican.org.uk/</a></li> </ul> <p>Rhagor o wybodaeth i'w rannu â rhieni</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ICAN - <i>Talking Point</i></li> <li>• <i>Talk to Your Baby</i></li> <li>• WellComm</li> </ul> <p>Rhowch Amser Iddo <a href="https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo">https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo</a> a Plant Bach Hapus <a href="https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg">https://www.bbc.co.uk/tiny-happy-people/cymraeg</a></p>



## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*

<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy>



- Dyddiadau'r pryderon cyntaf a digwyddiadau mawr megis atgyfeiriadau at asiantaethau allanol/canlyniadau asesiad ac ati.
- Cofnodion yn dangos cyfarwyddyd ychwanegol ynghylch:
  - Pecyn gwaith WellComm
  - Rhestr wirio datblygu ELKLAN
  - Rhestr wirio ICAN
  - Proffil y Cyfnod Sylfaen
- Tystiolaeth yn dangos cydnabyddiaeth o'r maes angen (rhyngweithio cymdeithasol, iaith a lleferydd) gan gynnwys enghreifftiau'n dangos arsylwadau a chanlyniadau
- Archwilio'r amgylchedd a'r drefn feunyddiol i greu cysondeb
- Cynlluniau sy'n dangos gwahaniaethu a grwpiau
- Enghreifftiau o iaith eiriol a di-eiriau a ddefnyddir wrth gyfathrebu, fel defnyddio Makaton ac ystumiau wrth siarad
- Enghreifftiau o weithgareddau rhaglen grŵp WellComm a'r canlyniadau, os defnyddir y rhain

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**

## Y Blynyddoedd Cynnar


### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)

## Cyfathrebu a Rhyngweithio

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>2 fand datblygiadol islaw'r oedran cronolegol mewn dwy o agweddau ar y prif feysydd neu fwy.</li> </ul> <p>Hefyd, gweler yr adnoddau isod am ragor o gyfarwyddyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pecyn gwaith WellComm</li> <li>Rhestr wirio datblygu ELKLAN</li> <li>Rhestr wirio ICAN</li> <li>Proffil y Cyfnod Sylfaen</li> </ul> <p><b>Rhyngweithio Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Anawsterau aml ac arwyddocaol wrth ddilyn normau a disgwyliadau cymdeithasol, er enghraifft: llai o gyswllt llygaid, anawsterau wrth aros tro/rhannu ac yn y blaen.</li> <li>Gofid amlwg pan anogir y plentyn i rannu</li> <li>Anawsterau aml ac arwyddocaol â deall ffiniau cymdeithasol a'r disgwyliadau wrth chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill</li> <li>Anawsterau aml ac arwyddocaol â goddef rhyngweithio cymdeithasol.</li> <li>Anawsterau aml ac arwyddocaol ag ymdrechion aflwyddiannus i rhyngweithio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynnydd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad a'r rhieni er mwyn rhannu pryderon.</li> <li>Proffil Un Tudalen – gan gynnwys sut addasir y gwaith er mwyn bodloni anghenion y plentyn</li> <li>Dal i feithrin cyswllt â'r Ymwelydd Iechyd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y bo'n briodol</li> <li>Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad gynorthwyo'r unigolyn allweddol wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</li> <li>Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau.</li> </ul> <p>Rhif ffôn y Llinell Gymorth:  Dydd Llun 3pm – 4pm 03000 850095  Dydd Iau 12.30pm – 1.30pm 03000 850095  <a href="mailto:BCU.SALThelpLineCentral@wales.nhs.uk">BCU.SALThelpLineCentral@wales.nhs.uk</a></p> <p>Mae gwybodaeth ac adnoddau ar ein gwefan hefyd:  <a href="https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-lleferydd/gwasanaethau-plant/">https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-lleferydd/gwasanaethau-plant/</a></p> <p>Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:  <a href="http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/slt">http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/slt</a></p> <p>Os ydych chi'n anfon e-bost dylech gynnwys enw cyntaf y plentyn, eu hoedran, eich perthynas â'r plentyn a rhif ffôn.</p>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel Cyffredinol, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu unrhyw ymyriadau a strategaethau Therapi Iaith a Lleferydd, fel Camau Iaith (adnodd i ddatblygu sgiliau iaith - dealltwriaeth a mynegiant)</li> <li>Nodwch amserau a manau penodol ar gyfer cefnogaeth unigol wedi'i thargedu</li> <li>Rhowch bwyslais cryf ar gefnogaeth weledol sy'n addas i allu iaith a datblygiad gwybyddol y plentyn, a defnyddiwch hynny'n gyson ar ffurf gwrthrychau/ffotograffau/symbolau, er enghraifft</li> <li>Cynnal sesiwn mewn grŵp bach bob dydd er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol.</li> <li>Creu <i>Social Stories</i>™ syml fel y bo'r angen  <a href="https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/communication/communication-tools/social-stories-and-comic-strip-conversations">https://www.autism.org.uk/advice-and-guidance/topics/communication/communication-tools/social-stories-and-comic-strip-conversations</a></li> <li>Cyflwyno'r gweithgareddau drwy roi amserlen weledol wedi'i haddasu i'r unigolyn</li> <li>Sgyrsiau sribedi comig a straeon cymdeithasol</li> <li>Dysgwch fwy am straeon cymdeithasol a sgyrsiau sribedi comig a sut mae'r rhain yn gallu helpu pobl awtistig i gyfathrebu.</li> <li>Datblygir sgiliau cyfathrebu'r plentyn unigol drwy ddefnyddio strategaethau ar gyfer rhyngweithio rhwng Oedolion a Phlant yn gyson; <ul style="list-style-type: none"> <li>Wyneb yn Wyneb</li> <li>Gwyllo ac Aros</li> </ul> </li> </ul>




<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn tynnu'n ôl yn fwriadol dros gyfnod o amser</li> <li>• Gorbryder arwyddocaol yn aml ar adegau o newid neu bontio (arferion/amgylchedd/pobl)</li> <li>• Anawsterau aml ac arwyddocaol â dilyn gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn</li> <li>• Mae'r plentyn yn treulio llawer iawn o amser ar weithgareddau y maent yn eu harwain eu hunain ac yn ei chael yn anodd rhoi'r gorau iddi neu symud ymlaen (gall hyn beri gofid a/neu ymddygiad heriol)</li> <li>• Efallai bod y plentyn yn dangos mwy o ddiddordeb mewn pethau na phobl</li> <li>• Efallai y bydd y plentyn yn tywys yr oedolyn wrth eu llaw/braich pa bryd bynnag y maent yn dymuno defnyddio llaw'r oedolyn fel teclyn i wneud i deganau neu gyfarpar weithio</li> <li>• Anawsterau aml ac arwyddocaol gyda sylw, a gall symud yn gyflym o un lle i'r llall ac o un gweithgaredd i'r llall heb roi llawer o sylw iddynt na dysgu fawr ddim</li> <li>• Efallai bod y plentyn yn trin a thrafod offer chwarae mewn ffordd amhriodol, neu'n defnyddio cyfarpar mewn ffordd wahanol i'w cyfoedion</li> <li>• Mae'r plentyn yn ceisio profiadau synhwyraidd neu'n eu hosgoi i'r fath raddau fel bod hynny'n amharu neu'n cyfyngu ar ddysgu</li> <li>• Mae'r plentyn yn gyndyn o gyfathrebu â geiriau yn y lleoliad, bod hynny â phlant neu staff</li> </ul>	<p>Mae'n rhaid cael caniatâd y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn cysylltu â'r llinell gymorth dros y ffôn neu drwy e-bost.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ar ôl cael caniatâd y rhieni dylid gwneud atgyfeiriad at y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd a gweithredu'r cyngor, strategaethau a Chynllun Cyfathrebu Unigol a ddarperir (fel y bo'n briodol i bob plentyn unigol)</li> <li>• Chwiliwch am wybodaeth ar ASDinfoWales is yw'n briodol (<a href="https://llyw.cymru/gwefan-asdinfowales">https://llyw.cymru/gwefan-asdinfowales</a>)</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae Tîm Ymgynnwys y Blynnydoedd Cynnar / Athrawon Cyswllt yn eu rhoi</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheolaidd</li> <li>• Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i staff, gan gynnwys unrhyw hyfforddiant perthnasol gan y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd fel ELKLAN, <i>Learning Language and Loving It</i> HANEN, <i>May I Join You</i> <a href="https://www.youtube.com/watch?v=_Lz4xoIW5TM">https://www.youtube.com/watch?v=_Lz4xoIW5TM</a></li> <li>• Llyfrynau strategaethau chwarae <i>May I Join You</i> – gan <a href="mailto:derwen@gwynedd.gov.uk">derwen@gwynedd.gov.uk</a> - Dr Helen Delargy, Tîm Integredig Plant Anabl Derwen, Lôn Parc, Caernarfon, LL55 2HP</li> <li>• Yng Nghonwy, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd lleol <a href="mailto:plant.children@conwy.gov.uk">plant.children@conwy.gov.uk</a> 01492 577850 / 577788</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Dilyn eu harweiniad</li> <li>○ Dynwared</li> <li>○ Gwneud sylw</li> <li>○ Dehongli</li> <li>○ Ychwanegu mwy o eiriau</li> <li>○ Lleihau'r pwysau (llai o gwestiynau a mwy o sylwadau)</li> <li>○ Cymryd tro</li> </ul> <p><b>Strategaethau</b>  <a href="https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-leferydd/gwasanaethau-plant/">https://bipbc.gig.cymru/gwasanaethau/gwasanaethau-ysbyty/therapi-iaith-a-leferydd/gwasanaethau-plant/</a></p>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p><b>Iaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelir oedi arwyddocaol yn iaith fynegiannol a /neu oddefol y plentyn a/neu anhwylder sy'n golygu fod angen cefnogaeth gan y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd (gan ystyried oedran ac iaith gyntaf)</li> <li>Mae angen cefnogaeth ychwanegol i addysgu a rheoli dulliau cyfathrebu gwahanol a gallai fod gofyn am gefnogaeth gan asiantaethau allanol</li> <li>Efallai bod y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd yn gweithio â'r plentyn a bod Cynllun Cyfathrebu Unigol wedi'i sefydlu</li> <li>Colli sgiliau cyfathrebu a ddangoswyd o'r blaen, yn enwedig siarad neu arwyddo</li> </ul> <p><b>Lleferydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwallau mynych wrth siarad y gall oedolyn ddod i arfer â hwy.</li> <li>Mae'r rhieni'n deall y plentyn yn iawn, ond gallai fod yn anodd i bobl anghyfarwydd eu deall, gal gynnwys staff a phlant</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn Sir y Fflint, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu drwy eu cyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint <a href="mailto:FISF@flintshire.gov.uk">FISF@flintshire.gov.uk</a></li> <li>Os erys pryderon ynghylch datblygiad y plentyn a bod cynnydd yn araf, dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad/unigolyn cyswllt siarad â Thîm y Blynyddoedd Cynnar i drafod a oes angen cefnogaeth gan Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar</li> </ul>	

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy>

- Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:
  - Cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gynhaliwyd yn rheolaidd, gan gynnwys cofnod o farn y plentyn a'r rhieni
  - Proffil Un Tudalen
  - Tystiolaeth o gyfraniad asiantaethau allanol fel y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, gan gynnwys atgyfeiriadau a gweithredu ar sail cyngor, strategaethau a Chynllun Cyfathrebu Unigol
  - Cofnodion yn dangos gwaith monitro ac adolygu cynnydd yn ogystal ag effaith strategaethau ac ymyriadau

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*


→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (CDU ALI)

## Y Blynyddoedd Cynnar


### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)

## Cyfathrebu a Rhyngweithio

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Anawsterau cyson ac arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> </ul> <p><b>Rhyngweithio Cymdeithasol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Anawsterau cyson a difrifol wrth ddilyn normau a disgwyliadau cymdeithasol</li> <li>Anawsterau cyfathrebu difrifol sy'n golygu fod angen cefnogaeth ddwys a strategaethau pendant er mwyn i'r plentyn gyfathrebu (diagnosis o Gyflwr yn y Sbectrwm Awtistig neu anawsterau Cyfathrebu Cymdeithasol treiddiol). Bydd y plentyn yn cael anawsterau arwyddocaol â chyfathrebu cymdeithasol a bydd hynny'n effeithio ar bob agwedd ar ddatblygiad y plentyn a'u gallu i gael mynediad at gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.</li> <li>Dim dealltwriaeth o ffiniau cymdeithasol wrth chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill, gan gynnwys rhyngweithio cymdeithasol</li> <li>Methu â goddef unrhyw ryngweithio cymdeithasol ac eithrio bodloni anghenion sylfaenol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r unigolyn allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY y lleoliad</li> <li>Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn</li> <li>Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau.</li> <li>Sicrhau fod Cynllun Datblygu Unigol y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr (er enghraifft, y Therapydd Iaith a Lleferydd).</li> <li>from the Speech and Language Therapist) is incorporated into the child's Individual Development Plan (IDP)</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae Tim y Blynyddoedd Cynnar / Athrawon Cyswllt yn eu rhoi</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu'r Cynllun Datblygu Unigol a strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd</li> <li>Cynnal cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd, a chynnwys y plentyn a phawb sy'n rhan o fywyd y plentyn.</li> <li>Dylid sicrhau fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant i gefnogi'r plentyn yn y lleoliad</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel <b>Cyffredinol a/neu Cyffredinol wedi'i Dargedu</b>, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu yn ogystal â Thim ADY y Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir.</li> <li>Mae'n rhaid bod yn gyson wrth ddefnyddio'r holl strategaethau a chefnogaeth. Dylai'r holl staff wybod am y strategaethau a ddefnyddir, eu deall a chytuno â hwy</li> </ul> <p><b>Rhagor o Wybodaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>ASDinfoWales <a href="https://llyw.cymru/gwefan-asdinfowales">https://llyw.cymru/gwefan-asdinfowales</a></li> <li>Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth <a href="https://www.autism.org.uk/">https://www.autism.org.uk/</a></li> <li>SPACE4AUTISM (cefnogaeth i rieni) <a href="https://space4autism.com/">https://space4autism.com/</a></li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai bod ysgogiadau synhwyrdd yn aml yn llethu'r plentyn i'r fath raddau fel bod hynny'n amharu'n arwyddocaol ar ddysgu. Efallai bod y plentyn yn treulio llawer iawn o amser yn ceisio/osgoi profiadau synhwyrdd</li> <li>Anawsterau aml ac arwyddocaol â dilyn gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn</li> <li>Bydd yno oedi arwyddocaol yng nghyfathrebu a dealltwriaeth y plentyn</li> <li>Diddordebau cyfyng iawn a thystiolaeth gref o ddiddordebau ailadroddus a stereoteipiau chwarae</li> <li>Mae gorbryder y plentyn yn amharu'n arwyddocaol ar eu hymddygiad a'u gallu i gael mynediad at gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen</li> <li>Byrhoedlog yw'r sylw a roddir i unrhyw weithgaredd – er efallai bod y plentyn yn dyfalbarhau gyda rhai mathau o ymddygiad sy'n ceisio profiadau synhwyrdd, fel troelli olwynion, er enghraifft</li> <li>Efallai bod y plentyn heb ddim neu fawr ddim ymdeimlad o berygl a bod angen goruchwyliaeth agos i sicrhau eu bod yn ddiogel wrth ddringo, rhoi pethau yn eu ceg, rhedeg, taflu ac yn y blaen.</li> <li>Nid yw'r plentyn yn gallu cyfathrebu â geiriau yn y lleoliad, bod hynny â phlant neu staff</li> </ul> <p><b>Iaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelir oedi cyson ac arwyddocaol yn iaith fynegiannol a/neu oddefol y plentyn sy'n golygu fod angen cefnogaeth gan y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, ac mae'r cynnydd yn araf (er gwaethaf ymyriadau)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yng Nghonwy, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd Lleol.</li> <li>Yn Sir y Fflint, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu drwy eu cyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint</li> </ul> <p>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint <a href="mailto:FISF@flintshire.gov.uk">FISF@flintshire.gov.uk</a></p>	



<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgiliau cyfathrebu gweithredol cyfyngedig sy'n golygu fod angen strategaethau cyfathrebu gwahanol a/neu estynedig er mwyn galluogi mynediad at gyfleoedd dysgu</li> <li>Prin yw dealltwriaeth y plentyn o'r hyn sy'n cael ei ddweud neu'i arwyddo (gan ystyried oedran ac iaith gyntaf)</li> <li>Mae angen cefnogaeth ddwys i addysgu a rheoli dulliau cyfathrebu gwahanol a gallai fod gofyn am gefnogaeth gan asiantaethau allanol</li> <li>Colli sgiliau cyfathrebu a ddangoswyd o'r blaen yn barhaus, yn enwedig siarad neu arwyddo</li> </ul> <p><b>Lleferydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen cefnogaeth ddwys i addysgu a rheoli dulliau cyfathrebu gwahanol a gallai fod gofyn am gefnogaeth gan asiantaethau allanol</li> <li>Colli sgiliau cyfathrebu a ddangoswyd o'r blaen yn barhaus, yn enwedig siarad neu arwyddo</li> <li>Annealladwy i bobl sy'n eu hadnabod. Hyd yn oed mewn cyd-destun gall y lleferydd swnio'n wahanol i'r geiriau targed.</li> </ul>		

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*

<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy>



- Tystiolaeth flaenorol:
  - Dyddiadau'r pryderon cyntaf a digwyddiadau mawr megis atgyfeiriadau at asiantaethau allanol/canlyniadau asesiad ac ati.
  - Cofnodion yn dangos cyfarwyddyd ychwanegol ynghylch:
    - Pecyn gwaith WellComm
    - Rhestr wirio datblygu ELKLAN
    - Rhestr wirio ICAN
    - Proffil y Cyfnod Sylfaen
- Tystiolaeth yn dangos cydnabyddiaeth o'r maes angen (rhyngweithio cymdeithasol, iaith a lleferydd) gan gynnwys enghreifftiau'n dangos arsylwadau a chanlyniadau
- Archwilio'r amgylchedd a'r drefn feunyddiol i greu cysondeb
- Cynlluniau sy'n dangos gwahaniaethu a grwpiau
- Enghreifftiau o iaith eiriol a di-eiriau a ddefnyddir wrth gyfathrebu, fel defnyddio Makaton ac ystumiau wrth siarad
- Enghreifftiau o weithgareddau rhaglen grŵp WellComm a'r canlyniadau, os defnyddir y rhain
- - Cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gynhaliwyd yn rheolaidd, gan gynnwys cofnod o farn y plentyn a'r rhieni
- Proffil Un Tudalen
- Tystiolaeth o gyfraniad asiantaethau allanol fel y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, gan gynnwys atgyfeiriadau a gweithredu ar sail cyngor, strategaethau a Chynllun Cyfathrebu Unigol
- - Cofnodion yn dangos gwaith monitro ac adolygu cynnydd yn ogystal ag effaith strategaethau ac ymyriadau
- Dylid ystyried hefyd:
  - Adroddiadau iechyd a thargedau ac ati a bennwyd ac adolygwyd
  - Proffiliau Un Tudalen, gan gynnwys rhai sydd wedi'u hadolygu
  - A oes angen Cynllun Datblygu Unigol gan Dîm y Blynyddoedd Cynnar er mwyn pennu strategaethau wedi'u haddasu i gefnogi'r plentyn ag anghenion lefel uchel, gan ddefnyddio cyngor arbenigol i gynorthwyo'r plentyn a'r teulu.
  - Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol, dylid darparu tystiolaeth o'r cynlluniau a'r ymyriadau yng nghyswllt y canlyniadau a bennir yn y cynllun ynghyd â'r cynnydd a welwyd wrth fonitro.
  - Tystiolaeth gynhwysfawr o fonitro'r hyn mae'r lleoliad wedi'i wneud i fodloni anghenion y plentyn a'r canlyniadau
  - Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn



## Y Blynyddoedd Cynnar

## Darpariaeth Gyffredinol

## Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth o rywfaith o oedi wrth gyraedd cerrig milltir disgwylidig</li> <li>Anhawster mwy na'u cyfoedion wrth wahanu o riant neu ofalwr</li> <li>Achosion byrhoedlog o ymddygiad annisgwyl lle mae angen i oedolyn ymyrryd.</li> <li>Ymddygiad byrbwyll sy'n dangos diffyg ataliaeth</li> <li>Rhai mathau o ymddygiad sy'n peri pryder</li> <li>Yn ei chael yn anodd ymateb i ffiniau priodol pan roddir anogaeth a chefnogaeth</li> <li>Angen anogaeth/cefnogaeth gan oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp</li> <li>Rhai anawsterau wrth reoli eu hemosiynau a chydabod emosiynau eraill, a allai ddod i'r amlwg ar ffurf anawsterau arwyddocaol wrth aros eu tro, rhannu a rhyngweithio'n gymdeithasol (gan ystyried oedran)</li> <li>Tynnu'n ôl o weithgareddau am gyfnodau byr a/neu newid mewn ymddygiad ac arddull chwarae a/neu gynnydd mewn gorbryder</li> <li>Yn ceisio cysur yn aml gan oedolion</li> <li>Yn gyndyn o archwilio gweithgareddau neu roi cynnig ar syniadau newydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cofnodi'r pryderon a'r dyddiad y'u codwyd.</li> <li>Dylid cadw cofnod o bob digwyddiad o bwys fel dyddiad cofrestru â'r lleoliad, atgyfeiriadau at asiantaethau allanol ac yn y blaen.</li> <li>Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynnydd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad.</li> <li>Dylai Cydlynnydd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol, ymyriadau a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>Os erys pryderon, dylai'r Cydlynnydd ADY/unigolyn dynodedig drafod a oes angen cefnogaeth benodol ar y plentyn a rhannu'r wybodaeth â'r rhieni/gofalwyr. Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd</li> <li>Dal i olrhain a monitro cynnydd y plentyn</li> <li>Trafod datblygiad y plentyn â'r rhieni</li> <li>Dylai'r lleoliad feithrin cyswllt agos â'r gweithwyr proffesiynol Iechyd cysylltiedig</li> <li>Dylid ystyried cyfleoedd hyfforddiant i'r staff</li> <li>Cefnogi plant a theuluoedd i gael mynediad at wasanaeth cyffredinol a rhai wedi'u targedu fel y bo'n briodol:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid ystyried sut mae'r plentyn yn chwarae ac archwilio, beth sy'n eu cymell i ddysgu a meddwl yn feirniadol ac yn y blaen.</li> <li>Meddyliwch am yr amgylchedd a darparwch amgylchedd y mae'r plentyn yn teimlo'n ddiogel ynddo; cynhaliwch Archwiliad o'r Amgylchedd.</li> <li>Meddyliwch am gynllun y safle, lefelau sŵn ac ati</li> <li>Sicrhewch fod yno fan tawel ar gael bob amser i'r plentyn fynd iddo; lle clyd â phethau fel clustogau mawr</li> <li>Meddyliwch am eich trefn feunyddiol ac a oes unrhyw adegau lle gallai fod angen cefnogaeth ychwanegol ar y plentyn, fel amser cyfarch, er enghraifft</li> <li>Arsylwch ar eich rhyngweithiadau chi a'r staff â'r plentyn. Ydi'r rhain o ansawdd uchel yn eich barn chi?</li> <li>Anogwch y plentyn i ddod â rhywbeth o gartref wrth setlo yn y lleoliad, fel hoff degan.</li> <li>Meddyliwch am ddefnyddio cymhorthion gweledol i helpu'r plentyn i ddeall y drefn feunyddiol, fel gwrthrychau i ddangos i'r plentyn beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf, fel clwt os yw'n amser newid clwt.</li> <li>Darparwch adnoddau, deunyddiau a gweithgareddau y mae'r plant yn eu mwynhau ac yn rhoi sylw iddynt. Seiliwch eich cynlluniau ar gyfer y plentyn ar hyn.</li> </ul>

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<p><b>Yng Nghonwy</b>, cysylltu â'r Ganolfan Deuluoedd leol neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy: <a href="mailto:Plantconwy@conwy.gov.uk">Plantconwy@conwy.gov.uk</a></p> <p><b>Yn Sir y Fflint</b>, cysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint: <a href="mailto:fisf@flintshire.gov.uk">fisf@flintshire.gov.uk</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogwch y plentyn i chwarae â phlant eraill drwy fodelu sefyllfaoedd syml ac iaith y gellir ei ddefnyddio wrth chwarae</li> <li>• Dechreuwch dreulio amser mewn grwpiau bach yn raddol, gan ddechrau â dau o blant ac ychwanegu mwy fesul dipyn</li> <li>• Hyrwyddwch ymddygiad cadarnhaol. Sefwch yn ôl i arsylwi'r plentyn er mwyn meithrin dealltwriaeth dda o'r hyn sy'n digwydd a pham.</li> <li>• Rhowch gyfarwyddyd pendant gan sicrhau eich bod yn cyfleu negeseuon cyson.</li> </ul>

**Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig**  
*Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*

- Cofnod o'r pryderon a godwyd gyntaf, digwyddiadau o bwys ar arsylwadau
- Cofnodion cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
- Archwiliad Amgylcheddol
- Cymhorthion gweledol ar gyfer y drefn feunyddiol

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**

## Y Blynyddoedd Cynnar

### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)

## Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol


Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>Anawsterau arwyddocaol a pharhaus ag ymdopi â gwahanu</li> <li>Bod yn gyndyn cymryd rhan mewn gweithgareddau a dangos hynny drwy dynnu'n ôl neu ymddwyn yn heriol</li> <li>Ymddygiad anarferol mynych ac arwyddocaol sy'n gofyn i oedolyn ymyrryd</li> <li>Anawsterau arwyddocaol wrth reoli eu hemosiynau a chynabod emosiynau eraill, a allai ddod i'r amlwg ar ffurf anawsterau arwyddocaol wrth aros eu tro, rhannu a rhyngweithio'n gymdeithasol</li> <li>Yn aml yn tynnu'n ôl a ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Newidiadau arwyddocaol mewn ymddygiad a/neu chwarae a chynnydd mewn gorbryder yn aml</li> <li>Ymlyniad â phrif ofalwyr heb sefydlu'n iawn</li> <li>Pryderon arwyddocaol ynglŷn â diffyg tyfiant, colli/magu pwysau ac/neu iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol sy'n gofyn am gyngor arbenigol gan asiantaethau allanol (fel gweithiwr proffesiynol Iechyd) ac yn effeithio ar ddatblygiad y plentyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad a'r rhieni er mwyn rhannu pryderon</li> <li>Dal i feithrin cyswllt â'r gweithwyr proffesiynol Iechyd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y bo'n briodol</li> <li>Llunio Proffil Un Tudalen â'r rhieni, y plentyn a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol (dylai hwn gynnwys y strategaethau y bwriedir eu defnyddio).</li> <li>Dylai Cydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol, ymyriadau a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>Dylid sicrhau y caiff unrhyw argymhellion gan arbenigwyr eu cynnwys ym Mhroffil Un Tudalen y plentyn.</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu Proffiliau Un Tudalen yn ogystal â strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheolaidd</li> <li>Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r Ddarpariaeth Gyffredinol, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu 'sylw ar y cyd' drwy ddilyn diddordebau'r plentyn, ymuno wrth iddynt chwarae, a modelu ieithwedd sy'n addas i lefel datblygiad y plentyn</li> <li>Annog y plant i wneud dewisiadau a chwarae'n annibynnol</li> <li>Modelu ymddygiad cyfeillgar a gofalgwr wrth chwarae er mwyn hybu rhyngweithio llwyddiannus, fel drwy ofyn 'Alla i gael cynnig arni?', 'Hoffet ti ryw faint o glai?', er enghraifft' .</li> <li>Defnyddiwch iaith gryno a chliwr a rhoi amser i'r plentyn brosesu pethau</li> <li>Sicrhewch fod rhywle tawel yn y lleoliad i'r plentyn gael mynediad at weithgareddau dan arweiniad oedolyn heb bethau i dynnu eu sylw</li> <li>Cefnogwch rannu a chymryd tro. Dylid dechrau drwy aros tro gydag oedolyn a phan mae'r plentyn yn barod dylid mynd ati'n raddol i chwarae ag un plentyn arall</li> <li>Dylid sicrhau fod yno ddigonedd o gyfleoedd i ailadrodd gweithgareddau</li> <li>Dylid sicrhau fod digon o amser di-dor i'r plentyn archwilio pethau wrth eu pwysau mewn awyrgylch sy'n gyfforddus iddynt</li> </ul>



<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<p>Cefnogi plant a theuluoedd i gael mynediad at wasanaeth cyffredinol fel y bo'n briodol:</p> <p><b>Yng Nghonwy</b>, cysylltu â'r Ganolfan Deuluoedd leol neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy: <a href="mailto:Plantconwy@conwy.gov.uk">Plantconwy@conwy.gov.uk</a></p> <p><b>Yn Sir y Fflint</b>, cysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint: <a href="mailto:fisf@flintshire.gov.uk">fisf@flintshire.gov.uk</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol</li> <li>• Os bydd datblygiad y plentyn yn dal i beri pryder ar ôl cyfnod rhesymol o amser a bod cynnydd yn dal yn araf, dylai Cydlynnydd ADY / unigolyn dynodedig y lleoliad drafod y sefyllfa â'r rhieni, yr asiantaethau allanol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar, ac ystyried a oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar y plentyn er mwyn bodloni unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).</li> <li>• Os yw'r lleoliad wedi defnyddio'i holl adnoddau a bod angen ychwaneg o gymorth ariannol i sicrhau Darpariaeth Gyffredinol wedi'i Thargedu ar gyfer y plentyn, dylai <b>lleoliadau nas cynhelir a lleoliadau a gynhelir sy'n darparu Cyfle Cynnar</b> gysylltu â Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar am gymorth</li> </ul> <p>Conwy: <a href="mailto:aln@conwy.gov.uk">aln@conwy.gov.uk</a></p> <p>Sir y Fflint: <a href="mailto:aln@flintshire.gov.uk">aln@flintshire.gov.uk</a></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhowch gyfleoedd i blant siarad am eu teimladau a'u hanghenion yn aml, gan ddefnyddio profiadau'r plant eu hunain</li> <li>• Cefnogwch blant wrth iddynt gyfathrebu ac wrth gydnabod ac ymateb i deimladau eraill</li> <li>• Cefnogwch blant wrth iddynt wneud ffrindiau a magu hyder wrth ryngweithio'n gymdeithasol, a rhowch lawer o ganmoliaeth benodol a chadarnhaol yn llawn mynegiant, fel "Fe welais iti'n rhoi'r car i gadw"</li> <li>• Os oes modd, ceisiwch beidio ag ymateb i ymddygiad nas dymunir sydd â'r nod o ennill sylw oedolyn, oni bai fod hynny'n peri niwed i'r plentyn neu eraill</li> <li>• Datblygwch chwilfrydedd y plentyn drwy guddio gwrthrychau, defnyddio blychau trysor ac yn y blaen</li> <li>• Helpwch y plentyn i fagu ymddiriedaeth, hyder ac annibyniaeth, er enghraifft drwy alluogi hunanreolaeth. Pan gyfyd gwrthdaro, anogwch blant i ddatrys problemau gyda'i gilydd</li> </ul> <p>Rhagor o wybodaeth:</p> <p><i>'May I join you'</i> llyfryn/CD ac ar-lein.</p> <p>Gwybodaeth am Ymddygiad Cadarnhaol rhwng Rhieni a Phlant.</p> <p><a href="http://Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)">Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)</a></p> <p><a href="http://Positive Behaviour Support - Public Health Wales (nhs.wales)">Positive Behaviour Support - Public Health Wales (nhs.wales)</a></p>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:
  - Cofnodion cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn rheolaidd, gan gynnwys llunio Proffil Un Tudalen
  - Cyngor gan arbenigwyr, cofnod o'r gefnogaeth a chyfarwyddyd a thystiolaeth o gynnwys hynny mewn cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)**



## Y Blynyddoedd Cynnar

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)


## Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Anawsterau cyson ac arwyddocaol</b> wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>• Anawsterau difrifol ag ymlyniad yn effeithio ar ddatblygiad.</li> <li>• Methu â chynnal gweithgareddau heb sylw ac ymyrraeth arwyddocaol a chyson gan oedolyn.</li> <li>• Ymddygiad eithafol, anrhagweladwy yn gyson, sy'n effeithio ar ddiogelwch y plentyn ac eraill.</li> <li>• Yn gyson yn peri perygl arwyddocaol i'w hun a eraill ac yn difrodi offer neu ddeunyddiau</li> <li>• Yn tynnu'n ôl yn llwyr o weithgareddau dros gyfnod o amser ac yn dangos newidiadau difrifol mewn ymddygiad a gorbryder mawr yn aml</li> <li>• Anawsterau difrifol a chyson wrth reoli eu hemosiynau a chydabod emosiynau eraill, a allai ddod i'r amlwg ar ffurf anawsterau difrifol â rhyngweithio'n gymdeithasol sy'n eu hatal rhag dysgu</li> <li>• Efallai bod y plentyn wedi dioddef trawma difrifol neu gamdriniaeth sy'n eu gwneud yn eithriadol o agored i niwed, a bod hynny'n effeithio ar ddatblygiad y plentyn.</li> <li>• Angen darpariaeth amlasiantaethol lefel uchel dros gyfnod estynedig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad.</li> <li>• Dylai Cydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</li> <li>• Monitro ac adolygu'r Proffil Un Tudalen gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd. Dylid gwneud hynny bob hanner tymor o leaf fel rhan o'r drefn gynllunio ac adolygu.</li> <li>• Dylid sicrhau y caiff unrhyw argymhellion gan arbenigwyr eu cynnwys ym Mhroffil Un Tudalen y plentyn.</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae asiantaethau allanol yn eu rhoi.</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu Proffiliau Un Tudalen yn ogystal â strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Dylid cynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd a gwahodd ymwelydd iechyd y plentyn.</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel Cyffredinol wedi'i Dargedu, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu.</li> <li>• Dylid sicrhau y sefydlir cynllun ymdriniaeth gadarnhaol os oes angen un</li> <li>• Dylid cynnal asesiadau risg yn rheolaidd a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau</li> <li>• Dylid ystyried a oes angen cefnogaeth ar gyfer sgaffaldio/hybu rhyngweithio cymdeithasol wrth chwarae</li> <li>• Dylid ystyried a oes angen cefnogaeth wedi'i thargedu i gynorthwyo'r plentyn â'r drefn feunyddiol</li> <li>• Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir yn y Cynllun Gofal Iechyd neu'r CDU.</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw anghenion y plentyn yn arwyddocaol a bod pryderon yn parhau, dylid ystyried darpariaeth Iechyd arbenigol fel rhan o'r cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.</li> <li>• Dylid sicrhau fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ADY i gefnogi'r plentyn yn y lleoliad</li> <li>• Cefnogi plant a theuluoedd i gael mynediad at wasanaeth cyffredinol fel y bo'n briodol:</li> </ul> <p><b>Yng Nghonwy</b>, cysylltu â'r Ganolfan Deuluoedd leol neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Conwy: <a href="mailto:Plantconwy@conwy.gov.uk">Plantconwy@conwy.gov.uk</a></p> <p><b>Yn Sir y Fflint</b>, cysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint: <a href="mailto:fisf@flintshire.gov.uk">fisf@flintshire.gov.uk</a></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol</li> </ul>	<p><a href="#">Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)</a></p> <p><a href="#">Positive Behaviour Support - Public Health Wales (nhs.wales)</a></p>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/cyfnod-sylfaen-arsylwi-yn-erbyn-y-proffil-cryno/?lang=cy>

- Tystiolaeth flaenorol: Dyddiadau'r pryderon cyntaf a digwyddiadau o bwys fel atgyfeiriadau at asiantaethau allanol/canlyniadau asesiadau, diagnosis ac yn y blaen.
  - Arsyllwadau a chanlyniadau
  - Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnwys barn rhieni, y plentyn ac asiantaethau allanol
  - Presenoldeb
  - Adroddiadau iechyd a thargedau wedi'u pennu a'u hadolygu, ac yn y blaen
  - Rhestr Sgiliau Tyfu / Proffilio Blynyddoedd Cynnar / asesiadau datblygiadol
  - Monitro ac Adolygu Proffiliau Un Tudalen
- 
- Dylid hefyd:
    - Casglu tystiolaeth gynhwysfawr o fonitro'r hyn mae'r lleoliad wedi'i wneud i fodloni anghenion y plentyn a'r canlyniadau
    - Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
    - Cofnodi cyfarfodydd.
    - Cynllun Ymdriniaeth Gadarnhaol ac Aseidiadau Risg - eu hadolygu'n gyson a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau





## Y Blynyddoedd Cynnar


## Darpariaeth Gyffredinol

## Anghenion Synhwyrdd - Nam ar y Golwg

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth o rywfaifnt o oedi wrth gyrraedd cerrig milltir disgwylidig</li> <li>• Efallai 1 band datblygiadol islaw'r oedran cronolegol</li> <li>• Pryderon yn datblygu ynglŷn â golwg y plentyn</li> <li>• Efallai bod angen anogaeth i wisgo sbectol</li> <li>• Efallai bod angen gwisgo clwtyn llygad</li> <li>• Efallai bod y plentyn yn ei chael yn anodd ymdrin â rhwystrau a/neu wneud eu ffordd o amgylch y lleoliad ac yn y blaen</li> <li>• Efallai bod y plentyn yn craffu'n agos ar wrthrychau</li> <li>• Efallai bod ganddynt lai o ddiddordeb mewn gweithgareddau na'u cyfoedion</li> <li>• Efallai eu bod yn cwyno am gur pen a/neu'n rhwbio eu llygaid</li> <li>• Efallai bod y plentyn yn blino'n gynt na'u cyfoedion ac yn methu â chanolbwyntio</li> <li>• Rhai anawsterau â sgiliau hunan-gymorth, fel gwisgo, bwyta ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid gwirio fod y plentyn wedi cael prawf llygaid diweddar</li> <li>• Dylai'r unigolyn allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY y lleoliad</li> <li>• Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Dal i olrhain a monitro cynnydd y plentyn</li> <li>• Cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd Lleol.</li> <li>• Dylid cynghori rhieni i drafod y pryderon â'r Ymwelydd Iechyd a/neu'r meddyg teulu a/neu optegydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os yw'r plentyn yn gwisgo sbectol, anogwch y plentyn i ddod â nhw a'u gwisgo ar adegau priodol</li> <li>• Dylid addasu'r amgylchedd er mwyn sicrhau y gall y plentyn fynd o le i le'n ddiogel, er enghraifft, drwy glirio llwybrau rhwng gwahanol fannau a marcio'r gwahanol lefelau yn y lleoliad.</li> <li>• Dylid ystyried y goleuadau</li> <li>• Dylid sicrhau y cefnogir y plentyn i ddilyn trefn gyson</li> <li>• Dylid sicrhau fod yr holl blant yn gwerthfawrogi mor bwysig yw twtio ar ôl eu hunain, fel gosod cadeiriau'n ôl o dan y bwrdd, rhoi clustogau'n ôl yn eu lle ac yn y blaen.</li> <li>• Sicrhewch eich bod yn dweud enw'r plentyn cyn siarad â hwy ac yn sicrhau eich bod ar yr un lefel â'r plentyn ac wyneb yn wyneb</li> <li>• Sicrhewch fod y plentyn yn agos at yr ymarferydd ymhob gweithgaredd a defnyddiwch offer gweledol fel celfi a phypedau ac ati.</li> <li>• Wrth baratoi gweithgareddau defnyddiwch hambyrddau, matiau atal llithro a chynwysyddion addas fel bod y plentyn yn medru cael mynediad at yr adnoddau o'u dewis yn ddiogel</li> <li>• Darparwch amrywiaeth o weithgareddau synhwyrdd. Anogwch y plentyn i archwilio gwahanol weadau, synau, arogleuon, blasau a golygfeydd</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Cofnodion yn dangos y gwaith olrhain a monitro, gan gynnwys arsylwadau
- Cofnodion apwyntiadau
- Archwilio: yr ystafell ddosbarth a'r drefn feunyddiol

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**



## Y Blynyddoedd Cynnar

### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)


## Anghenion Synhwyrdd - Nam ar y Golwg

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n rhaid bod gan y plentyn nam ar y golwg sydd wedi'i gydnabod a/neu ddiffyg gweledol a aseswyd a bod lensys neu sbectol ddim yn cywiro hynny'n llwyr</li> <li>Plentyn wedi cofrestru â Nam ar y Golwg</li> <li>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>Gallai fod 2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> <li>Nam amlsynhwyrdd cymedrol yn golygu fod angen cefnogaeth gan oedolyn o asiantaeth allanol i addysgu a rheoli'r dysgu.</li> <li>Anawsterau corfforol/meddygol sy'n golygu fod angen amrywiaeth helaeth o gyfarpar, addasu adnoddau a chefnogaeth gyson.</li> <li>Amhariad ar annibyniaeth gorfforol sy'n golygu fod angen cyfraniad neu raglenni gan weithwyr proffesiynol perthnasol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid gwirio fod y plentyn wedi cael prawf llygaid diweddar</li> <li>Dylid canfod a yw'r plentyn yn gweld Orthoptydd/ Offthalmolegydd</li> <li>Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad a'r rhieni er mwyn rhannu pryderon.</li> <li>Dal i feithrin cyswllt â'r gweithwyr proffesiynol Iechyd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y bo'n briodol</li> <li>Cysylltu â'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd i gael rhagor o gyngor neu wybodaeth</li> <li>Efallai y bydd gofyn i'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd gynnal archwiliad o'r amgylchedd, yn enwedig ar gyfnodau pontio allweddol</li> <li>Dylai'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd ddarparu cyngor, ymweliadau cyson ac asesiadau arbenigol, gan gynnwys asesu'r angen am offer arbenigol yn unol â meini prawf y gwasanaeth (Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrdd)</li> <li>Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn</li> <li>Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd.</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel Cyffredinol, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dilynwch gyngor a chyfarwyddyd penodol y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd, gan gynnwys defnyddio unrhyw offer arbenigol a roddir ar fenthylg i'r lleoliad</li> <li>Trafodwch â'r rhieni ac arsylwch sut mae'r plentyn yn gwneud y gorau o'r golwg sydd ganddynt. Er enghraifft, a ydynt yn plygu eu pen, yn canolbwyntio ar liwiau llachar a drychau, yn syllu ar olau'r haul neu olau artiffisial, yn symud yn fwy hyderus mewn golau llachar neu fannau mwy tywyll, a ydynt yn edrych ar wrthrychau ac wynebau? Bydd hynny'n eich helpu i wybod mwy am olwg y plentyn ac o fudd wrth ddarparu'r dulliau ac adnoddau priodol i gefnogi'r plentyn</li> <li>Ewch ati i greu man tawel a diogel i'r plentyn y gallant ddychwelyd iddo pan mae angen</li> <li>Pan mae'r plentyn yn teimlo'n hyderus am yr amgylchedd, anogwch nhw i ddod o hyd i'r ffordd i wahanol rannau o'r lleoliad</li> <li>Ceiswch gael cymaint o gysondeb â phosib yn yr amgylchedd corfforol</li> <li>Anogwch y plentyn i gyffwrdd ac archwilio gwahanol elfennau o'r amgylchedd, esbonio'r hyn y maent yn ei archwilio a siarad am beth sydd ymhob gwahanol ran o'r lleoliad</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau fod Cynllun Cymorth ADY y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr, yn enwedig felly'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrâu</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae Tîm Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar yn eu rhoi</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu cynlluniau cymorth ADY a strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheolaidd</li> <li>• Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff</li> <li>• Cefnogi plant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Plant Lleol.</li> <li>• Os erys pryderon ynghylch datblygiad y plentyn a bod cynnydd yn araf, dylai Cydlynedd ADY y lleoliad siarad â'r gweithiwr proffesiynol perthnasol i drafod a oes angen cefnogaeth gan Dîm Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>• Os yw anghenion y plentyn yn arwyddocaol a bod pryderon yn parhau, dylid ystyried cais i hysbysu'r Awdurdod Lleol yn unol â'r CDU.</li> <li>• Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol (a'i ychwanegu yma yn ogystal â Chynllun Datblygu Unigol yr Awdurdod Lleol)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparwch amrywiaeth o brofiadau amlsynhwyrdaidd sy'n annog y plentyn i archwilio gwahanol weadau, synau, arogleuon, blasau a golygfeydd. Gallai hynny lethu rhai plant a bydd angen cyflwyno pethau'n bwyllog.</li> <li>• Anogwch y plentyn i ddefnyddio'r ystafelloedd synhwyrdaidd yn eu Canolfan Blant leol ac ati.</li> <li>• Helpwch y plentyn i ddeall yr hyn y maent yn ei glywed mewn sefyllfaoedd swmllyd, fel dweud 'Mae Arna'n curo'r sosban â llwy i wneud y sŵn yna, hoffet ti roi cynnig arni?'</li> <li>• Rhowch ddigon o gyfleoedd i ganu caneuon ac adrodd rhigymau a helpwch y plentyn i wneud pethau drwy roi cyfarwyddyd corfforol yn ôl yr angen</li> <li>• Defnyddiwch lyfrau â lluniau sydd â chyferbyniad da rhwng lliwiau a nodweddion a gwadau diddorol i'w harchwilio</li> <li>• Defnyddiwch blatiau a dysglau heb luniau na phatrymau fel bod cyferbyniad clir â'r bwyd a'r byrbrydau a gynigir.</li> <li>• Wrth adrodd stori gyda grŵp, sicrhewch fod y plentyn yn medru gweld y lluniau'n iawn a defnyddiwch lyfrau mawr a chelfi y gall y plant afael ynddynt</li> <li>• Chwyddwch luniau a thestun os oes angen</li> <li>• Dylid dilyn a gweithredu argymhellion y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrâu yn glŷn â strategaethau ac addasiadau ar sail unrhyw archwiliadau amgylcheddol arbenigol</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:
  - Cofnodion cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
  - Archwiliadau a gwblhawyd
  - Dyddiadau a chofnodion profion llygaid
  - Cofnod o apwyntiadau â'r orthoptydd/offthalmolegydd
  - Cofnod o gyfraniadau'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrâu gan gynnwys unrhyw gyngor a gwybodaeth

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)**





## Y Blynyddoedd Cynnar

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)


## Anghenion Synhwyrdd - Nam ar y Golwg

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Anawsterau cyson ac arwyddocaol</b> wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>• Gallai fod 2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> <li>• Nam difrifol ar y golwg sy'n golygu fod angen cefnogaeth barhaus ar gyfer symudedd, hunan-ofal a chael mynediad at brofiadau dysgu</li> <li>• Cyfyngu'n arwyddocaol ar fynediad at ddeunyddiau gweledol</li> <li>• Cyfyngu'n ddifrifol ar gyfleoedd ar gyfer dysgu anfwriadol</li> <li>• Llai o allu i weld gweithredoedd a symudiadau plant eraill ac oedolion a'u hefelychu</li> <li>• Effaith ar ddatblygiad chwarae.</li> <li>• Effaith ar sgiliau cymdeithasol oherwydd methu â gweld ystumiau ar wyneb neu gyrff pobl.</li> <li>• Llai o allu i adnabod wyneb.</li> <li>• Efallai y bydd angen cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer y plentyn er mwyn eu diogelwch a'u lles.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r unigolyn allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY y lleoliad</li> <li>• Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn</li> <li>• Monitro ac adolygu strategaethau'n gyson gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ar ddysg y plentyn.</li> <li>• Dal i feithrin cyswllt â'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd a fydd yn cynnal rhagor o asesiadau arbenigol ac yn llunio adroddiadau yn ôl y gofyn</li> <li>• Sicrhau fod Cynllun Cymorth ADY y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr, yn enwedig felly'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae gweithiwr proffesiynol perthnasol y Blynyddoedd Cynnar yn eu rhoi</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu cynlluniau cymorth ADY a strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>• Dylid cynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd a gwahodd ymwelydd iechyd y plentyn.</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel <b>Cyffredinol a/neu Cyffredinol wedi'i Dargedu</b>, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu yn ogystal â Thîm Anghenion Cymhleth y Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Dylid sicrhau y sefydlir cynllun ymdriniaeth gadarnhaol os oes angen un</li> <li>• Dylid cynnal asesiadau risg yn rheolaidd a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau</li> <li>• Dylid ystyried a oes angen cefnogaeth wedi'i thargedu i gynorthwyo'r plentyn â'r drefn feunyddiol</li> <li>• Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol yr Awdurdod Lleol dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir yn y CDU.</li> <li>• Dylid dilyn a gweithredu argymhellion y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd yn glŷn â strategaethau ac addasiadau ar sail unrhyw archwiliadau amgylcheddol arbenigol</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylid sicrhau fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ADY i gefnogi'r plentyn yn y lleoliad, gan gynnwys:               <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Llunio adnoddau cyffyrddadwy i blant neu'u haddasu</li> <li>○ Hybu sgiliau cyn Braille</li> <li>○ Meithrin annibyniaeth plant â nam difrifol ar y golwg</li> </ul> </li> <li>• Cefnogi plant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Plant Lleol.</li> <li>• Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallai'r ymyriadau wedi'u targedu y mae'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrâu'n eu hargymell gynnwys:               <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Datblygu sgiliau gweledol</li> <li>○ Sgiliau cyn Braille</li> <li>○ Sgiliau cymdeithasol</li> <li>○ Sgiliau byw'n annibynnol</li> <li>○ Symudedd</li> </ul> </li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol:
  - Cofnodion yn dangos y gwaith olrhain a monitro, gan gynnwys arsylwadau
  - Cofnodion apwyntiadau
  - Archwilio: yr ystafell ddosbarth a'r drefn feunyddiol
  - Cofnodion cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
  - Archwiliadau a gwblhawyd (dyddiadau a chofnodion profion llygaid, cofnod o apwyntiadau â'r orthoptydd/offthalmolegydd a chofnod o gyfraniad y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrâu, gan gynnwys unrhyw gyngor a gwybodaeth a ddarparwyd)
- Dylid hefyd:
  - Cynnal cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
  - Ystyried CDU yr Awdurdod Lleol
  - Monitro ac adolygu strategaethau'n gyson
  - Sicrhau fod y cynlluniau ar gyfer y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr
  - Cynllun ymdriniaeth gadarnhaol
  - Cynnal asesiadau risg a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau



## Y Blynyddoedd Cynnar


## Darpariaeth Gyffredinol

## Anghenion Synhwyrdd – Nam ar y Clyw

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth o rywfaent o oedi wrth gyrraedd cerrig milltir disgwylidig.</li> <li>Efallai 1 band datblygiadol islaw'r oedran cronolegol</li> <li>Hanes o gael pyliau o golli clyw</li> <li>Nam ysgafn ar y clyw (gyda chymorth clyw neu beidio)</li> <li>Nam ar y clyw yn un glust; hynny yw, mae'r plentyn yn clywed yn iawn drwy un glust ond gyda nam ar y clyw yn y llall</li> <li>Hanes o fyddardod dargludol/nam ysgafn ar y clyw</li> <li>Efallai bod gan y plentyn beswch ac annwyd yn aml</li> <li>Efallai bod y plentyn yn methu ag ymateb pan ddywedir eu henw</li> <li>Efallai bod y plentyn yn ei chael yn anodd dilyn cyfarwyddiadau syml</li> <li>Efallai bod lleferydd y plentyn yn aneglur</li> <li>Efallai bod y plentyn yn cadw golwg ar blant eraill i wybod beth sy'n digwydd, fel pan mae pawb yn symud i'r bwrdd byrbrydau, er enghraifft</li> <li>Efallai bod y plentyn yn ei chael yn anodd canolbwyntio, yn ystod amser stori, er enghraifft</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadarnhewch a oes gan y plentyn nam ar y clyw</li> <li>Dylai staff godi pryderon â Chydlynnydd ADY y lleoliad a dechrau monitro arsylwadau.</li> <li>Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad fynd ati i gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Dal i olrhain a monitro cynnydd y plentyn</li> <li>Dylid trafod datblygiad y plentyn fel y'i cofnodir yn y Llyfr Coch a/neu yn ystod yr Adolygiad Integredig pan mae'r plentyn yn ddwy oed</li> <li>Dylai'r lleoliad feithrin cyswllt agos â'r Ymwelydd Iechyd cysylltiedig</li> <li>Dylid annod y rhieni i geisio cyngor yr Ymwelydd Iechyd a/neu'r meddyg teulu</li> <li>Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff Hefyd, dylid trefnu hyfforddiant priodol gan y Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>Cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu <b>Canolfannau Teuluoedd</b> lleol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r plentyn yn defnyddio technoleg fel cymorth clyw, dylid sicrhau eu bod yn ei wisgo, ei fod yn lân a bod y batris wedi'u gwefru.</li> <li>Defnyddiwch enw'r plentyn i gael eu sylw</li> <li>Sicrhewch eu bod yn gwranddo cyn dechrau siarad â hwy</li> <li>Sicrhewch y gall y plentyn weld eich wyneb wrth ichi siarad a bod dim cysgod ar eich wyneb</li> <li>Cadwch gyswllt llygaid a chofiwch y bydd y plentyn yn ymateb i'ch ystumiau</li> <li>Siaradwch yn glir â'r plentyn gan sicrhau nad ydych yn siarad yn rhy gyflym a bod mynegiant yn eich llais</li> <li>Meddyliwch am amgylchedd y lleoliad ac addaswch fel y bo'n briodol</li> <li>Meddyliwch am acwsteg y lleoliad ac unrhyw sŵn cefndir ac ati</li> <li>Galluogwch y plentyn i fynd i fannau tawel ar gyfer gweithgareddau/ymyriadau penodol</li> <li>Defnyddiwch offer gweledol fel gwrthrychau, lluniau, ffotograffau ac amserlenni gweledol i ategu'r hyn a ddywedir a chynorthwyo plant i ymglyfarwyddo â threfnau beunyddiol</li> <li>Meddyliwch ble mae'r plentyn yn rhoi ei hun yn ystod y dydd a rhowch gefnogaeth iddynt fod yn agos iawn at yr ymarferydd ar adegau priodol, fel mewn grwpiau mawr, er enghraifft.</li> <li>Gweithredwch ar sail unrhyw gyngor gan y Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd, os oes angen</li> </ul>

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os erys pryderon, dylai'r Cydlynnydd ADY drafod â gweithwyr proffesiynol cyswllt y Blynnyddoedd Cynnar a oes angen cefnogaeth fwy penodol ar y plentyn a rhannu'r wybodaeth â'r rhieni/gofalwyr.</li> </ul>	

**Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig**  
***Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?***



- Cofnodion blaenorol, gan ddangos hanes o byliau o golli clyw/nam ysgafn ar y clyw/byddardod dargludol a chyflyrau meddygol fel peswch ac annwyd yn aml
- Cofnodion yn dangos gwaith olrhain a monitro, gan gynnwys y pryderon fel y'u nodwyd gyntaf, arsylwadau ar ddyddiadau penodol o fethu â dilyn cyfarwyddiadau syml/siarad yn aneglur/diffyg canolbwyntio
- Cynlluniau sy'n dangos addasiadau yn yr amgylchedd a'r strategaethau a ddefnyddiwyd, fel cymhorthion gweledol, er enghraifft
- Cofnodion apwyntiadau
- Archwilio: yr ystafell ddosbarth a'r drefn feunyddiol, a chwrrd â'r rhieni i gynllunio ar gyfer cysondeb rhwng y cartref a'r ysgol

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**





## Y Blynyddoedd Cynnar


### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)

## Anghenion Synhwyraidd – Nam ar y Clyw

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>• Gallai fod 2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy</li> <li>• Mae'r plentyn wedi cael diagnosis o nam ar y clyw</li> <li>• Mae gan y plentyn gymorth clyw neu fewnblaniad yn y cochlea</li> <li>• Yn ogystal â hynny, gallai fod gan y plentyn un neu fwy o'r canlynol:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Diagnosis hwyr</li> <li>○ Nam cynyddol ar y clyw</li> <li>○ Nam cymedrol i ddifrifol ar y clyw</li> <li>○ Anhwylder clywedol yn y sbectrwm niwropatheg</li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad a'r rhieni er mwyn rhannu pryderon.</li> <li>• Llundio Proffil Un Tudalen i gofnodi barn y rhieni a phennu cynlluniau ar gyfer y dulliau gorau i fodloni anghenion y plentyn.</li> <li>• Dal i feithrin cyswllt â'r gweithwyr proffesiynol Iechyd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y bo'n briodol</li> <li>• Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad fynd ati i gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn. Gellid ceisio cyngor gan weithwyr proffesiynol y Blynyddoedd Cynnar ac yna Tim Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>• Monitro ac adolygu cynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd.</li> <li>• Ffonio llinell gymorth brysbennu'r gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd i drafod y pryderon. Rhif ffôn:</li> </ul> <p><b>Linell Gymorth Ganolog</b>            Dydd Llun 3pm – 4pm 03000 850095            Dydd Iau 12.30pm – 13.30pm 03000 850095            BCU.SALThelpineCentral@wales.nhs.uk</p> <p><b>Linell Gymorth y Dwyrain</b>            Rhif Ffôn: 01978 727071            Dydd Mawrth 9-10am a dydd Iau 3:30 – 4:30</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r adeg y codwyd pryderon gyntaf, a hefyd:</li> <li>• Sicrhau bod goleuadau'r lleoliad yn ddigon da fel bod plant sy'n darllen gwefusau neu'n dibynnu ar ystumiau wyneb yn medru'ch gweld chi</li> <li>• Gwnewch yn siŵr bob tro fod y plentyn wedi dilyn yr hyn a ddywedoch chi a deall unrhyw gyfarwyddiadau</li> <li>• Ceiswch gael cyn lleied â phosib o sŵn yn y cefndir</li> <li>• Rhowch amser i'r plentyn weithio ag oedolion ar eu pennau'u hunain neu mewn grwpiau bach</li> <li>• Galluogwch blant i fynd i fannau tawel ar gyfer gweithgareddau penodol, lle bo modd</li> <li>• Os yw'r plentyn yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, dysgwch arwyddion allweddol. Fel arall, gallai'r plentyn elwa ar Makaton/Singalong i ategu cyfathrebu ar lafar</li> <li>• Darparwch amrywiaeth o brofiadau amsynhwyraidd sy'n annog y plentyn i archwilio â gwahanol synhwyrau</li> <li>• Defnyddiwch iaith ochr yn ochr â phob gweithgaredd a sicrhau bod y plentyn mewn amgylchedd sy'n gyforiog o iaith</li> <li>• Gellir defnyddio rhigymau ailadroddus, canu caneuon ac offerynnau cerddorol i roi profiadau clywedol gwerthfawr i rai plant gan fod yn ofalus i beidio â'u llethu â sŵn</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu â'r Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd i gael cyngor a gwybodaeth</li> <li>• Bydd y Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd yn cynnal asesiadau arbenigol o sgiliau gwranddo ac iaith gan ddilyn meini prawf y gwasanaeth</li> <li>• Os oes angen, bydd y Gwasanaeth yn darparu offer ategol arbenigol gan ddilyn meini prawf y gwasanaeth</li> <li>• Sicrhau fod Cynllun Cymorth ADY y plentyn yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr, yn enwedig felly'r Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae gweithiwr proffesiynol perthnasol y Blynyddoedd Cynnar yn eu rhoi</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu cynlluniau cymorth yn ogystal â strategaethau ac ymyriadau i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd</li> <li>• Cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn yn rheolaidd a gwahodd yr Athro Plant Byddar Arbenigol</li> <li>• Ystyried cyfleoedd am hyfforddiant ADY perthnasol i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant gan yr Athro Plant Byddar Arbenigol (fel hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o fyddardod neu hyfforddiant ar ddefnyddio a rheoli offer arbenigol) ynghyd ag unrhyw hyfforddiant perthnasol gan y Therapydd Iaith a Lleferydd.</li> <li>• Cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu <b>Canolfannau Teuluoedd</b> lleol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilynwch argymhellion weithiwr proffesiynol perthnasol (<b>Athro Arbenigol i Blant Byddar</b>, er enghraifft) ynghyd â sgiliau gwranddo a gweithgareddau datblygu iaith</li> <li>• Gallai ymyriadau unigol mewn grwpiau bach ar sail cyngor y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd ganolbwyntio ar:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Ddatblygu sgiliau gwranddo</li> <li>○ Datblygu iaith, gan gynnwys geirfa</li> <li>○ Trafodaeth estynedig a phrofiadau yng nghyd-destun straeon a meysydd o ddi-ddordeb i'r plentyn</li> <li>○ Rhyngweithio cymdeithasol</li> </ul> </li> <li>• Defnyddio offer arbenigol ar sail cyngor y Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd</li> <li>• Os oes modd, darparu lle addas ar gyfer ymweliadau gan yr Athro Plant Byddar Arbenigol</li> <li>• Os oes angen:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Gweithredwch ar sail unrhyw gyngor gan y Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>○ Gweithredwch Gynllun Cyfathrebu Gofal y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>○ Meithrin cyswllt â'r Therapydd Iaith a Lleferydd</li> </ul> </li> </ul> <p>Rhagor o Wybodaeth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau arferion gorau - dulliau o fodloni anghenion clyw.</li> <li>• <a href="https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/integrated-framework-of-care-and-support-for-people-who-are-d-deaf-or-living-with-hearing-loss.pdf">https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/integrated-framework-of-care-and-support-for-people-who-are-d-deaf-or-living-with-hearing-loss.pdf</a></li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Os erys pryderon ynghylch datblygiad y plentyn a bod cynnydd yn araf, dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad siarad â'r gweithiwr proffesiynol perthnasol i drafod a oes angen cefnogaeth gan Dîm Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Os yw anghenion y plentyn yn arwyddocaol a bod pryderon yn parhau, dylid ystyried yn y Cyfarfod Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn a ddylid gwneud cais i gychwyn trefn asesu'r Awdurdod Lleol ar gyfer ADY.</li> </ul>	



<b>Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig</b> <i>Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:</li> <li>• Cofnod o atgyfeiriadau a chefnogaeth gan asiantaethau allanol, hynny yw, y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>• Cyfarfodydd â'r plentyn a'r rhieni</li> <li>• Datblygu Proffil Un Tudalen</li> <li>• Dylai'r gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, yr Athro Plant Byddar Arbenigol a'r Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd roi gwybod am ganlyniadau, eu gweithredu a'u monitro (Cynllun Gofal Unigol/Cynllun Cyfathrebu), gan gynnwys defnyddio cyfarpar arbenigol.</li> </ul>

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)**



## Y Blynyddoedd Cynnar

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)


## Anghenion Synhwyrdd – Nam ar y Clyw

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Anawsterau cyson ac arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>• Gallai fod 2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> <li>• Mae'r plentyn wedi cael diagnosis o fyddardod parhaol yn y ddwy glust</li> <li>• Mae'r plentyn hefyd yn amlwg yn cael trafferth arwyddocaol a mynych gydag un neu fwy o'r canlynol:             <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Oedi mewn datblygiad iaith</li> <li>○ Cymryd rhan mewn gweithgareddau heb eu gwahaniaethu</li> <li>○ Cymryd rhan mewn gweithgareddau/darpariaeth heb lefel uchel o gefnogaeth gan oedolyn</li> <li>○ Cymryd rhan mewn gweithgareddau mewn grwpiau mawr</li> <li>○ Datblygu sgiliau lleferydd</li> <li>○ Cyfathrebu â staff a phlant eraill</li> </ul> </li> <li>• Efallai hefyd bod gan y plentyn anawsterau ac/neu anabledau dysgu eraill</li> <li>• Lefelau uchel o gefnogaeth gan oedolyn ag anghenion hunan-ofal</li> <li>• Gallai fod perygl i ddiogelwch a lles y plentyn a gallai fod gofyn am lefel uchel o gefnogaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad feithrin cyswllt â Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn</li> <li>• Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd.</li> <li>• Cynnal mwy o asesiadau a'u hadolygu yn ôl y gofyn</li> <li>• Diwygio unrhyw gofnodion arsylwi ac adroddiadau yn barod i'w cyflwyno'n dystiolaeth i Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>• Dylech sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr yn eich tystiolaeth ar gyfer darpar Gynllun Datblygu Unigol y plentyn, yn enwedig felly'r Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd, a dal i roi'r rheiny ar waith yn y lleoliad.</li> <li>• Dylid sicrhau y sefydlir CDU yr Awdurdod Lleol a bod y lleoliad yn gweithredu'r canlyniadau a'r ddarpariaeth</li> <li>• Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu'r CDU</li> <li>• Dylid sicrhau fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ADY perthnasol i gynorthwyo â gweithredu CDU y plentyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol ac addasiadau rhesymol o'r lefelau Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu), a hefyd:</li> <li>• Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu yn ogystal â Thîm Anghenion Cymhleth y Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Efallai bod angen adsefydlu dwys ar y plentyn â'u clyw, lleferydd ac iaith ar ôl cael gosod cymorth clyw neu gael llawdriniaeth i roi mewnblaniad yn y cochlea</li> <li>• Efallai y bydd angen cefnogaeth ar y plentyn wrth ddatblygu trefn wahanol ar gyfer cyfathrebu/cyfathrebu â'r dwylo</li> <li>• Dylid sicrhau y sefydlir cynllun ymdriniaeth gadarnhaol yn ôl y gofyn, fel yr esbonnir ym mholisi'r lleoliad</li> <li>• Dylid cynnal asesiadau risg yn rheolaidd a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau</li> <li>• Dylid ystyried a oes angen cefnogaeth wedi'i targedu i gynorthwyo'r plentyn â'r drefn feunyddiol</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Wrth fonitro, efallai y bydd angen hyfforddiant arbenigol ar oedolion i fodloni anghenion corfforol/meddygol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Swyddog Arweiniol ADY feithrin cyswllt â'r lleoliad wrth adolygu canlyniadau a'r ddarpariaeth a bennir yn y CDU gyda'r plentyn, rhieni ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill.</li> <li>Dylid cynnal cyfarfod adolygu'r CDU pan mae'r plentyn yn pontio i leoliad neu ysgol newydd er mwyn sicrhau bod y canlyniadau a'r ddarpariaeth a nodir yn y CDU yn briodol yn y lleoliad newydd.</li> <li>Mae'n rhaid adolygu'r CDU bob blwyddyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir yn y CDU.</li> <li>Dylid galluogi cyswllt â'r Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd yn aml er mwyn trefnu unrhyw gefnogaeth sydd ei angen</li> <li>Os oes angen:             <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredwch ar sail unrhyw gyngor gan y Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>Gweithredwch y Cynllun Gofal Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>Meithrin cyswllt â'r Therapydd Iaith a Lleferydd</li> </ul> </li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol:
  - Cofnodion blaenorol, gan ddangos hanes o byliau o golli clyw/nam ysgafn ar y clyw/byddardod dargludol a chyflyrau meddygol fel peswch ac annwyd yn aml
  - Cofnodion yn dangos gwaith olrhain a monitro, gan gynnwys y pryderon fel y'u nodwyd gyntaf, arsylwadau ar ddyddiadau penodol o fethu â dilyn cyfarwyddiadau syml/siarad yn aneglur/diffyg canolbwyntio
  - Cynlluniau sy'n dangos addasiadau yn yr amgylchedd a'r strategaethau a ddefnyddiwyd, fel cymhorthion gweledol, er enghraifft
  - Cofnodion apwyntiadau
  - Archwilio: yr ystafell ddisbarth a'r drefn feunyddiol, a chwrrd â'r rhieni i gynllunio ar gyfer cysondeb rhwng y cartref a'r ysgol
  - Cofnod o atgyfeiriadau a chefnogaeth gan asiantaethau allanol, hynny yw, Y gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd
  - Cyfarfodydd â'r plentyn a'r rhieni
  - Datblygu Proffil Un Tudalen
  - Dylai'r gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd, yr Athro Plant Byddar Arbenigol a'r Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd roi gwybod am ganlyniadau, eu gweithredu a'u monitro (Cynllun Gofal Unigol/Cynllun Cyfathrebu), gan gynnwys defnyddio cyfarpar arbenigol.
- Dylid hefyd:
  - Cynnal mwy o asesiadau a'u hadolygu
  - Os na wnaed yn barod, dylid cynnwys cyngor arbenigol yn y dystiolaeth ar gyfer CDU yr Awdurdod Lleol, gan gyfeirio'n benodol at y Gwasanaeth Ymgynnwys Synhwyrdd
  - Gweithredu'r CDU yn y lleoliad gan sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a'r ddarpariaeth a monitro'r cynnydd





## Y Blynyddoedd Cynnar

## Darpariaeth Gyffredinol


## Corfforol (Maes Angen)

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Tystiolaeth o rywfaent o oedi wrth gyrraedd cerrig milltir disgwylidig</li> <li>1 band datblygiadol islaw'r oedran cronolegol</li> <li>Anawsterau corfforol/oedi a allai olygu bod angen rhywfaint o gymorth gan oedolyn</li> <li>Oedi wrth ddysgu sut i fynd i'r toiled (gan ystyried oedran)</li> <li>Diffyg cydlyniant sgiliau corfforol o gymharu â'u cyfoedion, fel bod y plentyn yn taro i mewn i bethau, er enghraifft, neu'n syrthio'n hawdd.</li> <li>Efallai bod y plentyn yn ei chael yn anodd dal i fyny â'u cyfoedion yn ystod chwarae corfforol a gallai hynny effeithio ar eu hunanhyder a'u gallu i wneud ffrindiau</li> <li>Efallai nad yw'r plentyn wedi datblygu un llaw sy'n gryfach na'r llall</li> <li>Efallai bod y plentyn yn cael trafferthion â sgiliau echddygol manwl fel dal pensel, er enghraifft.</li> <li>Efallai bod y plentyn yn osgoi gweithgareddau y mae angen rheolaeth echddygol manwl ar eu cyfer, fel defnyddio plyciwr a phegiau bach ac ati</li> <li>Efallai yr ymddengys bod cyhyrau dwylo'r plentyn yn wan a bod oedi mewn ennill rheolaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r unigolyn allweddol feithrin cyswllt â Chydlynnydd ADY y lleoliad</li> <li>Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau ar gyfer y plentyn</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gynllunio ar gyfer y plentyn yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Dal i olrhain a monitro cynnydd y plentyn</li> <li>Dylid trafod datblygiad y plentyn fel y'i cofnodir yn y Llyfr Coch ac/neu yn y cyfarfod sgrinio pan mae'r plentyn yn 15 mis oed a 27 mis oed (Rhaglen Plant Iach Cymru)</li> <li>Dylai'r lleoliad feithrin cyswllt agos â'r Ymwelydd Iechyd cysylltiedig</li> <li>Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff</li> <li>Yng Nghonwy, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd Lleol <a href="mailto:plant.children@conwy.gov.uk">plant.children@conwy.gov.uk</a> 01492 577850 / 577788</li> <li>Yn Sir y Fflint, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu drwy eu cyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint <a href="mailto:FISF@flintshire.gov.uk">FISF@flintshire.gov.uk</a></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid sicrhau bod gan y lleoliad Bolisi Gofal Personol a bod yr holl staff yn ei ddilyn</li> <li>Dylid darparu offer addas dan do ac yn yr awyr agored fel bod plant yn cael digon o gefnogaeth, risg a her gan ganolbwyntio ar sgiliau echddygol manwl a bras.</li> <li>Dylai staff y Blynyddoedd Cynnar oruchwylio er mwyn sicrhau diogelwch yn ystod symudiadau/caneuon actol/amser stori.</li> <li>Dylid bod yn ymwybyddiaeth o osgo da a lefelau datblygiadol.</li> </ul> <p><b>Sgiliau Echddygol Manwl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau fod yno digon o le ar y llawr a rhowch ddigon o gyfleoedd i'r plentyn gerdded, rhedeg a chropian ar wahanol arwynebau - gwair, carped, finyl.</li> <li>Darparwch offer yn yr awyr agored sy'n annog plant i gydbwyso, dringo, neidio, llithro, codi, tynnu, gwthio, hongian, troelli a siglo; er enghraifft, grisiau, boncyffion, stanciau, berfâu, teiars, twnelau, peli mawr, blociau mawr ac yn y blaen.</li> <li>Gwnewch lwybr â phethau y gellir camu arnynt (matiau, neu flocliau/boncyffion i amrywio'r uchder) a llwybrau â rhannau diffiniedig y gellir camu iddynt (cylchoedd, ysgol ar y llawr, teils)</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai bod diffyg cydlyniant gan y plentyn wrth wneud gweithgareddau lle mae angen y ddwy law</li> <li>Mae'r plentyn yn colli sgiliau'r oedd eisoes wedi'u meistroli</li> <li>Rhai anawsterau â sgiliau hunan-gymorth, fel gwisgo, amser bwyd ac yn y blaen.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol</li> <li>Dylid ystyried iaith a siaredir ar aelwyd y plentyn os yw honno'n wahanol i iaith y lleoliad</li> </ul> <p><b><i>Sylwer: Os yw'r plentyn yn colli sgiliau'r oedd eisoes wedi'u meistroli, dylid cynghori'r rhieni i gysylltu â'r Ymwelydd Iechyd neu'r meddyg teulu</i></b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dechreuwch ddefnyddio cwrs rhwystrau ag eitemau o wahanol uchder ac anogwch amrywiaeth o symudiadau fel dringo, cropian, siglo bol, rholio a llithro.</li> <li>Rhowch gyfleoedd i ddefnyddio beics. Wrth i'r plentyn fagu sgiliau a hyder ar gefn beic, dechreuwch osod rhwystrau iddynt fynd o'u cwmpas a goleuadau traffig i'w hannog i ddod i stop ac ailgychwyn</li> <li>Chwaraewch gemau parasiwt a gemau erlid fel chwarae delwau a 'Faint o'r Gloch ydi hi, Mistar Blaidd?'</li> </ul> <p><b>Sgiliau Echddygol Manwl</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Paratowch hambyrddau adeiladu gydag amryw gyfleoedd chwarae blêr ac arwynebau mawr i'w marcio â phaent, dŵr ac ewyn eillio gyda brwsh neu'u dwylo</li> <li>Darparwch amrywiaeth o adnoddau i ddatblygu cydlyniant dwylo, rheolaeth a medrusrwydd fel clai, <i>play-doh</i>, paentio â brwsh neu'r bysedd, tâp, rhubanau, llinyn, rhaff a phwli, offer chwarae â dŵr, pegiau, edau, offer adeiladu ac adnoddau byd bychan.</li> <li>Dechreuwch chwarae gemau 'Stopio a Dechrau' i ddatblygu sgiliau echddygol manwl ag offerynnau cerdd (cyflym/araf, swnllyd/tawel): curo drwm â dwy law a bob yn ail, defnyddio llwyau a ffyn i daro potiau.</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Dyddiadau y codwyd pryderon gyntaf ac arsylwadau o anawsterau corfforol ac oedi sy'n gofyn am gefnogaeth gan oedolyn
- Dyddiadau digwyddiadau o bwys fel megis atgyfeiriadau at asiantaethau allanol/canlyniadau asesiadau ac ati
- Cofnodion cyfarfodydd yn cyfleu barn y plentyn a'r rhieni
- Adroddiadau iechyd a thargedau wedi'u pennu a'u hadolygu, ac yn y blaen
- Rhestr Sgiliau Tyfu / Proffilio Blynyddoedd Cynnar / asesiadau datblygiadol
- Cynllun Gofal Personol
- Archwiliad o'r amgylchedd (dan do a'r awyr agored) gan gynnwys offer ar gyfer sgiliau echddygol manwl a bras

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

**→ Mynd ymlaen i Gyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)**



## Y Blynyddoedd Cynnar

### Cyffredinol (ymyriadau wedi'u targedu)


## Corfforol (Maes Angen)

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Oedi arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> <li>Anawsterau corfforol y mae angen offer ac addasu adnoddau ar eu cyfer, yn ogystal â lefel uchel o gefnogaeth</li> <li>Amhariad ar annibyniaeth gorfforol sy'n golygu fod angen cyfraniad a/neu raglenni gan weithwyr proffesiynol perthnasol.</li> <li>Anawsterau corfforol sy'n golygu bod angen monitron agos i sicrhau diogelwch a lles</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Unigolyn Allweddol feithrin cyswllt â Chydlynedd ADY/unigolyn dynodedig y lleoliad a'r rhieni er mwyn rhannu pryderon.</li> <li>Dal i feithrin cyswllt â'r Ymwelydd Iechyd sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y bo'n briodol</li> <li>Dylai Cydlynedd ADY y lleoliad gynorthwyo'r unigolyn allweddol wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</li> <li>Monitro ac adolygu gan ganolbwyntio ar gynnydd y plentyn ac effaith y strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd.</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu'r strategaethau ac ymyriadau yn y Cynllun Datblygu Unigol i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Cynnal Cyfarfodydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn rheolaidd Creu Proffil Un Tudalen i'r plentyn os na wnaed hynny eisoes, gan gynnwys strategaethau i fodloni anghenion y plentyn.</li> <li>Ystyried cyfleoedd hyfforddiant ADY i'r staff</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel <b>Cyffredinol</b>, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dilynwch y strategaethau a gynigir gan Ffisiotherapydd a/neu Therapydd Galwedigaethol y plentyn Darparwch amgylchedd sy'n cynnal annibyniaeth y plentyn, fel gosod dodrefn mewn ffordd sy'n galluogi plant i nôl adnoddau a chymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn y blaen</li> <li>Dylid sicrhau bod y lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn medru dangos y gallant ddarparu ar gyfer pob dull o hybu symudedd/mynd o le i le yn y lleoliad.</li> <li>Mae angen i'r plentyn fedru defnyddio'u cymhorthion symudedd i gael mynediad i'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar a mynd o le i le</li> <li>Mae angen i'r plentyn wisgo orthosis arbenigol fel ategion ar y traed neu'r dwylo, a bod aelod o staff y lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn medru ei osod.</li> <li>Asesiadau risg wedi'u haddasu'n fwy penodol ar gyfer y lleoliad Blynyddoedd Cynnar. Cynllun Gofal Iechyd ar gyfer unrhyw anghenion gofal iechyd.</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng Nghonwy, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd Lleol <a href="mailto:plant.children@conwy.gov.uk">plant.children@conwy.gov.uk</a> 01492 577850 / 577788</li> <li>• Yn Sir y Fflint, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu drwy eu cyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint <a href="mailto:FISF@flintshire.gov.uk">FISF@flintshire.gov.uk</a></li> <li>• Os yw datblygiad y plentyn yn dal i beri pryderon a bod cynnydd yn araf, dylai Cydlynedd ADY y lleoliad drafod â Thîm y Blynyddoedd Cynnar a oes ar y lleoliad angen cefnogaeth gan yr <b>Awdurdod Lleol</b>.</li> <li>• Dylid sicrhau y caiff unrhyw argymhellion gan arbenigwyr eu cynnwys ym Mhroffil Un Tudalen y plentyn.</li> <li>• Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gyngor, cefnogaeth a chyfarwyddyd y mae Tîm Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar yn eu rhoi</li> </ul>	<p><b>Hygyrchedd corfforol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Addasiadau yn y lleoliad Blynyddoedd Cynnar</li> <li>• Symud dodrefn ar gyfer y plentyn yn y blynyddoedd cynnar</li> <li>• Gosod yr ystafell gan ystyried anghenion y plentyn</li> </ul> <p>Mwy o oruchwyliaeth gan staff Blynyddoedd Cynnar at ddibenion diogelwch - wedi'i dargedu.</p>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol, a chynnwys:
  - Dylai'r cynlluniau ddangos gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau, gan gynnwys arsylwadau, gwaith monitro a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd
  - Lluniwch Broffil Un Tudalen i'r plentyn os nad oes ganddynt un yn barod, gan gynnwys strategaethau i fodloni anghenion y plentyn a nodi a oes angen iddynt wisgo unrhyw fath o orthosis ar eu traed neu'u dwylo
  - Dylai dogfennau hyfforddi staff ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant i fedru bodloni anghenion corfforol, defnyddio offer codi a chario ac orthosis
  - Cofnodion yn dangos strategaethau penodol a argymhellwyd gan Ffisiotherapydd a/neu Therapydd Galwedigaethol y plentyn
  - Adolygu'r archwiliad er mwyn sicrhau bod y lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn medru dangos y gallant ddarparu ar gyfer pob dull o hybu symudedd/mynd o le i le yn y lleoliad.
  - Aseidiadau risg wedi'u haddasu'n fwy penodol ar gyfer y lleoliad Blynyddoedd Cynnar.
  - Cynllun Gofal Personol ar gyfer unrhyw anghenion gofal personol.

*Os erys pryderon a/neu bod cynnydd heb ei gyflawni*

→ Mynd ymlaen i Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)





## Y Blynyddoedd Cynnar

### Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (CDU ALI)

## Corfforol (Maes Angen)

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Anawsterau cyson ac arwyddocaol wrth gyrraedd cerrig milltir</li> <li>2 fand datblygu neu fwy islaw'r oedran cronolegol mewn dwy agwedd ar y prif feysydd neu fwy.</li> <li>Anawsterau corfforol y mae angen offer arbenigol ar eu cyfer yn ogystal ag addasu adnoddau, newid ystum a lefel uchel o gefnogaeth gan oedolyn.</li> <li>Lefelau uchel o gefnogaeth gan oedolyn ag anghenion hunan-ofal</li> <li>Anawsterau corfforol sy'n peri risg arwyddocaol i ddiogelwch a lles y plentyn ac yn gofyn am gefnogaeth ddwys</li> <li>Colli sgiliau corfforol yn gyson</li> <li>Anawsterau meddygol arwyddocaol y mae angen meddyginiaeth reoledig ac ymyrraeth ddwys ar eu cyfer gydol y dydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r unigolyn allweddol feithrin cyswllt â Chydlynnydd ADY y lleoliad.</li> <li>Dylai Cydlynnydd ADY y lleoliad gynorthwyo wrth adnabod gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau i gefnogi'r plentyn.</li> <li>Dylai Cynllun Datblygu Unigol y plentyn gynnwys unrhyw argymhellion gan arbenigwyr (hynny yw, Ffisiotherapydd/Therapydd Galwedigaethol)</li> <li>Dylai'ch cynlluniau ar gyfer y plentyn gynnwys unrhyw gefnogaeth a chyfarwyddyd y mae Tîm Ymgynnwys y Blynyddoedd Cynnar yn eu rhoi</li> <li>Dylid gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni. Mae hynny'n cynnwys rhannu'r strategaethau ac ymyriadau yn y Cynllun Datblygu Unigol i'w defnyddio yn y lleoliad ac ar yr aelwyd.</li> <li>Dylid cynnal cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd a gwahodd ymwelydd iechyd a therapyddion y plentyn.</li> <li>Dylid ystyried defnyddio deunyddiau Cefnogi Cynnar</li> <li>Dylid sicrhau fod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ADY i gefnogi'r plentyn yn y lleoliad</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefel <b>Cyffredinol a/neu Cyffredinol wedi'i Dargedu</b>, a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid addasu'r strategaethau a ddefnyddir wrth gefnogi plant ag anghenion lefel uchel ar gyfer pob unigolyn a disgwylir eu bod yn seiliedig ar gyngor gan y gwasanaethau arbenigol sy'n cefnogi'r plentyn a'r teulu yn ogystal â Thîm ADY y Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>Os oes gan y plentyn Gynllun Datblygu Unigol dylid sicrhau fod y cynlluniau a'r ymyriadau'n berthnasol i'r canlyniadau a bennir yn y CDU. Dylid monitro'r cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau a bennir yn y CDU.</li> <li>Dylai'r cynlluniau roi sylw i weithdrefnau symud a chario sy'n seiliedig ar gyngor proffesiynol</li> <li>Dylid sicrhau y sefydlir cynllun ymdriniaeth gadarnhaol yn ôl y gofyn, fel yr esbonnir ym mholisi'r lleoliad.</li> <li>Dylid cynnal asesiadau risg yn rheolaidd a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau.</li> <li>Asesu risg gydag ymgynghorwyr yr Awdurdod Lleol ar gyfer symud a chario yn y blynyddoedd cynnar - dylai'r lleoliad gwblhau'r asesiad risg gyda chymorth y Gwasanaeth Arbenigol. Cynlluniau Gofal Iechyd a chyfraniad gan y gwasanaeth arbenigol.</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yng Nghonwy, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu yn eu Canolfannau Teuluoedd lleol <a href="mailto:plant.children@conwy.gov.uk">plant.children@conwy.gov.uk</a> 01492 577850 / 577788</li> <li>• Yn Sir y Fflint, cefnogwch blant a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cyffredinol a rhai wedi'u targedu drwy eu cyfeirio at Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint <a href="mailto:FISF@flintshire.gov.uk">FISF@flintshire.gov.uk</a></li> <li>• Os yw'r plentyn newydd gofrestru â'r lleoliad, dylid ystyried trefniadau ar gyfer pontio o gartref y plentyn/lleoliad blaenorol (gweler y Broses Sefydlu).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hygyrchedd – Rheiliau/rampiau/allanfeydd tân/lifftiau ac ati, gan gael cyngor gan Arbenigwr. Mae angen i'r plentyn gael mynediad at eu cadair olwyn i fynd o le i le/cael mynediad i'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar.</li> <li>• Targedau yn y CDU yng nghyswllt Ffisiotherapi/Therapi Galwedigaethol/Therapi Iaith a Lleferydd</li> <li>• Ar sail hyfforddiant gan y Ffisiotherapydd Arbenigol, dylai'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar ddilyn rhaglen ddirprwyedig - sblintiau, ymestyn, gosod offer arbenigol fel cadair/ffrâm gerdded/ffrâm sefyll, er enghraifft.</li> <li>• Mae'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn 'rheoli' offer fel hyn drwy lanhau/tynhau bolltau ac ati.</li> <li>• Mae'r Ffisiotherapydd arbenigol yn rhoi cyngor penodol i'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar ynglŷn ag ystumiau chwarae'r plentyn.</li> <li>• Mae'r Ffisiotherapydd Arbenigol yn addasu offer wrth i'r plentyn dyfu ac wrth i anghenion newid. Dylai'r lleoliad Blynyddoedd Cynnar roi gwybod i'r gwasanaeth arbenigol am unrhyw newidiadau yng nghyflwr y plentyn, yn enwedig felly gan fod plant yn tyfu'n gyflym yn y Blynyddoedd Cynnar.</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Tystiolaeth flaenorol:
  - Dyddiadau y codwyd pryderon gyntaf ac arsylwadau o anawsterau corfforol ac oedi sy'n gofyn am gefnogaeth gan oedolyn
  - Dyddiadau digwyddiadau o bwys fel megis atgyfeiriadau at asiantaethau allanol/canlyniadau asesiadau ac ati
  - Cofnodion cyfarfodydd yn cyfleu barn y plentyn a'r rhieni
  - Adroddiadau iechyd a thargedau wedi'u pennu a'u hadolygu ac ati
  - Rhestr Sgiliau Tyfu / Proffilio Blynyddoedd Cynnar / asesiadau datblygiadol
  - Cynllun ar gyfer Gofal Personol
  - Archwilio'r amgylchedd (dan do ac yn yr awyr agored) gan gynnwys offer ar gyfer sgiliau echddygol manwl a bras Cofnodion o'r drefn o ffurfio a chynnal partneriaethau agos â rhieni, ymwelwyr iechyd ac asiantaethau arbenigol – cynnal cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rheolaidd
  - Dylai'r cynlluniau ddangos gweithgareddau gwahaniaethol a strategaethau, gan gynnwys arsylwadau, gwaith monitro a'r ymyriadau a ddefnyddiwyd
  - Lluniwch Broffil Un Tudalen i'r plentyn os nad oes ganddynt un yn barod, gan gynnwys strategaethau i fodloni anghenion y plentyn a nodi a oes angen iddynt wisgo unrhyw fath o orsosis ar eu traed neu'u dwylo
  - Dylai dogfennau hyfforddi staff ddangos eu bod wedi cael hyfforddiant i fedru bodloni anghenion corfforol, defnyddio offer codi a chario ac orthosis
  - Cofnodion yn dangos strategaethau penodol a argymhellwyd gan Ffisiotherapydd a/neu Therapydd Galwedigaethol y plentyn
  - Adolygu'r archwiliad er mwyn sicrhau bod y lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn medru dangos y gallant ddarparu ar gyfer pob dull o hybu symudedd/mynd o le i le yn y lleoliad.
  - Asesiadau risg wedi'u haddasu'n fwy penodol ar gyfer y lleoliad Blynyddoedd Cynnar.
  - Cynllun Gofal Personol ar gyfer unrhyw anghenion gofal personol.
- Dylid hefyd:
  - Adolygu Proffiliau Un Tudalen
  - Monitro tystiolaeth o'r hyn mae'r lleoliad wedi'i wneud i fodloni anghenion y plentyn a'r canlyniadau
  - Defnyddio offer Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
  - Defnyddio'r Cynllun Datblygu Unigol i ddangos y strategaethau penodol sydd eu hangen i fodloni anghenion lefel uchel, gan gynnwys y cyngor y mae gwasanaethau arbenigol wedi'i roi
  - Sicrhau bod y dystiolaeth o gynlluniau ac ymyriadau yn berthnasol i'r canlyniadau a bennwyd yn y CDU a monitro'r cynnydd
  - Sefydlu cynlluniau codi a chario a chynlluniau gofal a'u cynnwys yn y cynlluniau cyffredinol
  - Sicrhau y sefydlir cynllun ymdriniaeth gadarnhaol yn ôl y gofyn, fel yr esbonnir ym mholisi'r lleoliad.
  - Cynnal asesiadau risg yn rheolaidd a chynnwys unrhyw gamau gweithredu a strategaethau mewn cynlluniau.

## 8. Yr Ymateb Graddedig yn yr ysgol

### 8.1. Rhagarweiniad

Dylai staff ysgol sy'n cefnogi plant sy'n gweithio tuag at gyfnodau allweddol 1 - 4 ddefnyddio'r adran hon. Dylai ysgolion sy'n derbyn plant iau hefyd ddefnyddio'r adran Blynnyddoedd Cynnar. Oherwydd trefniadau cyllid a meini prawf cymhwyso ar gyfer nifer o wasanaethau, dylid defnyddio'r adran ysgol hon ar gyfer pobl ifanc chweched dosbarth mewn ysgolion hefyd (er y dylid hefyd rhoi ystyriaeth i adran 'Paratoi ar gyfer bod yn Oedolyn' ôl-16 i'r bobl ifanc hyn hefyd).

Mae defnyddio'r Ymateb Graddedig yn golygu cydnabod bod yna gontinwmm o angen a bod anghenion yn cael eu bodloni drwy ychwanegu mwy o ymyrraeth arbenigol wrth i'r lefel o angen gynyddu. Yn unol â *Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru (2021)*, mae'n rhaid i ysgolion prif ffrwd ddynodi athro i fod yn gyfrifol am gydlynu darpariaeth ADY (y Cydlynnydd ADY neu CADY) ac mae'n rhaid iddynt hysbysu rhieni pan maent yn gwneud Darpariaeth Dysgu Ychwanegol (DDY) i blentyn.

### 8.2. Beth yw Addysgu a Dysgu Cyffredinol o Ansawdd Da?

Mae cefnogaeth i holl blant a phobl ifanc mewn ysgolion yn dechrau gydag addysgu a dysgu cyffredinol o ansawdd da. Mae hyn yn gallu cael ei grynhoi fel a ganlyn:

Mae addysgu a dysgu cyffredinol o ansawdd da yn disgrifio beth ddylai fod ar gael i holl blant e.e. cynhwysiant effeithiol holl ddisgyblion mewn dysgu personol, o ansawdd uchel, bob dydd.

Bydd addysgu o'r fath, er enghraifft, yn seiliedig ar:

- amcanion clir a rennir gyda'r plant
- eglurhad gofalus o eirfa newydd
- arddull addysgu rhyngweithiol bywiog

Dulliau fel hyn yw'r ffordd orau i leihau, o'r dechrau, y nifer o blant sydd angen cymorth ychwanegol gyda dysgu ac ymddygiad.

### Sut mae addysgu a dysgu cyffredinol o ansawdd da yn edrych?

Fel gorolwg syml, mae addysgu a dysgu cyffredinol o ansawdd da yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell ddosbarth drefnus gyda labeli a symbolau llun
- Strwythur gwersi clir gydag amcanion yn cael eu cyflwyno ar lafar ac yn weledol
- Cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi mewn rhannau bach gyda chliwiau gweledol
- Gwirio dealltwriaeth drwy ofyn i blant a phobl ifanc egluro beth maent yn gorfod ei wneud
- Mae dealltwriaeth yn cael ei harddangos mewn amryw o ffyrdd
- Ystod o grwpiau gan gynnwys rhai gweithgareddau ar hap mewn pâr
- Gweithgareddau a gwrando wedi eu rhannu i ganiatáu ar gyfer mwy o weithgareddau 'clywedol'
- Mae canmoliaeth yn benodol ac yn enwi
- Cefnogi'r cof drwy arddangos a modelu amlwg
- Cynllunio ar gyfer cymorth yn yr ystafell ddosbarth a defnyddir i fwyhau dysgu
- Mae plant a phobl ifanc yn glir beth a ddisgwylir a defnyddir enghreifftiau da pan fydd angen.

Mae mwy o enghreifftiau manwl a gwybodaeth am sut mae addysgu a dysgu cyffredinol o ansawdd da yn edrych ar gyfer gwahanol feysydd o angen yn yr atodiad.




## Ysgol


### Cyffredinol (yn cynnwys ymyriadau wedi'u targedu)

## Gwybyddiaeth a Dysgu

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<p><b>Anawsterau ac anghysondeb a arsylwyd gyda:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deall cysyniadau crynodeb a chymhwyso cyn dysgu</li> <li>• Lleferydd ac Iaith</li> <li>• Sylw a chanolbwyntio e.e. meddwl yn crwydro neu gyfnod canolbwyntio byr</li> <li>• Llythrennedd e.e. cyndyn i ddarllen neu eirfa golwg gwael</li> <li>• Rhifedd</li> <li>• Llawysgrifen</li> <li>• Trefnu</li> <li>• Dilyn cyfarwyddiadau</li> <li>• Hunan-barch a rhwystredigaeth. Achos i anawsterau cymdeithasol ac ymddygiad.</li> <li>• Cof tymor byr / gweithiol</li> <li>• Gwahaniaeth rhwng gwaith ysgrifenedig ac ar lafar</li> <li>• Blinder oherwydd yr angen am lefelau canolbwyntio.</li> <li>• Cyrhaeddiad a chynnydd isel yn gyffredinol a/neu fwllch yn dechrau ehangu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafod pryderon/arsylwadau gyda'r sawl â chyfrifoldeb rhiant a chofnodi deilliant y sgwrs</li> <li>• Trafod pryderon/arsylwadau gyda'r plentyn neu'r person ifanc a chofnodi deilliant y sgwrs.</li> <li>• Os yw'n briodol, trafod pryderon/arsylwadau gyda'r Cydlynnydd ADY / Pennaeth a/neu'r nyrs ysgol</li> <li>• Edrych ar wybodaeth addysgol a meddygol hanesyddol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>• Trafod pryderon/arsylwadau gydag athrawon/lleoliad blaenorol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>• Edrych ar yr ystod o asesiadau ansoddol, mesurol a chrynodol i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>• Arsylwi'r rhwystrau posibl i ddysgu a brofir ar draws ystod o gysyniadau</li> <li>• Gweithredu ar gyngor allanol gan asiantaethau addysg ac iechyd.</li> <li>• Cynnal asesiadau pellach fel bo'r angen</li> <li>• Sicrhau bod athro dosbarth a chymhorthydd addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) e.e. codi a symud yn gorfforol ac ati.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi bylchau mewn dysgu a darparu addysg benodol</li> <li>• Rhowch eich hun yn rhywle lle mae'r plant yn medru gweld eich wyneb yn glir a chithau'n gallu eu gweld hwythau.</li> <li>• Sicrhau bod testun a phrint yn cael ei arddangos yn defnyddio ffont a/neu gefndir lliw priodol.</li> <li>• Cyfyngwch ar bethau sy'n tynnu sylw</li> <li>• Mini prawf llwyddiant gwahaniaethol clir</li> <li>• Neilltuwch amser ychwanegol ar gyfer prosesu gwybodaeth, rhoi atebion a chwblhau tasgau</li> <li>• Rhowch gyfle i ymarfer yn rheolaidd drwy gofio ac ailadrodd</li> <li>• Defnyddiwch amryw o strategaethau ar gyfer cofnodi</li> <li>• Cyflwynwch wybodaeth newydd mewn darnau bach gan gadw'r iaith yn syml</li> <li>• Sicrhewch eich bod yn gosod targedau CAMPUS a chyflawnadwy</li> <li>• Rhowch bethau ar y wal fel ffordd weledol o brocio'r cof</li> <li>• Defnyddiwch liw ar gyfer patrymau geiriau, rhagddodiadau, olddodiadau ac ati</li> <li>• Cyflwynwch ddeunydd newydd mewn dull amlsynhwyrol - ei ddangos, gwranddo arno, edrych arno, ei glywed, ei weld, ei ysgrifennu</li> <li>• Defnyddiwch dechnoleg i gefnogi dysgu</li> <li>• Annog cefnogaeth gan gymheiriaid</li> </ul>



<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu adnoddau gweledol ac ymarferol i gyflwyno gwybodaeth allweddol</li> <li>• Annog y defnydd o strategaethau sillafu, er enghraifft: cofeiriau, geiriau o fewn geiriau, geiriau sylfaen ac olddodiadau ac ati.</li> <li>• Defnyddio sgaffaldiau ysgrifennu i gefnogi cynllunio</li> <li>• Defnyddio mapiau cysyniad i gynllunio a nodi themâu cyffredinol a'r berthynas rhwng syniadau</li> <li>• Defnyddio'r meini prawf marcio fel ysgogiad wrth ailddrafftio gwaith</li> <li>• Darparu cyfleoedd achlysurol i weithio gyda chopiwr - efallai o fewn grŵp bach i lunio darn o ysgrifen i'w 'gyhoeddi'.</li> <li>• Ystyried a yw'r plentyn yn profi anawsterau yn eu hail iaith neu ym mhob iaith</li> </ul>

<b>Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig</b> <i>Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llenwch yr holl ffurflenni cyffredinol ar Eclipse</li> <li>• Cofnodi barn y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni.</li> <li>• Cofnodi barn plentyn neu berson ifanc</li> <li>• Data asesiad cyfunedig</li> <li>• Cofnod o unrhyw arsylwadau a gwblhawyd neu dystiolaeth sy'n cefnogi effaith a arsylwir ar ddysgu (e.e. gwaith dosbarth, lluniau ac ati)</li> <li>• Cofnod o unrhyw gefnogaeth neu gyswllt allanol (e.e. cofnod o sgysiau ffôn neu e-bost)</li> <li>• Proffil Un Dudalen</li> </ul>

**Os yw dangosyddion "Effaith ar Ddysgu" yn parhau a/neu na wnaed cynnydd**

**→ Parhau i DDARPARIAETH DDYSGU YCHWANEGOL**






## Ysgol

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

## Gwybyddiaeth a Dysgu

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p>Anawsterau <b>cyson</b> a <b>sylweddol</b> a sylwir arnynt gyda'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caffael sgiliau darllen, ysgrifennu, ar lafar neu rifau priodol i oedran, sydd angen lefelau uchel o gefnogaeth wedi'i theilwra.</li> <li>• Y gallu i ganolbwyntio hyd yn oed gyda chefnogaeth neu adnoddau a dargedwyd yn arwain at gymhelliant gwael ac ymwrthod dysgu</li> <li>• Gallu cael mynediad at ddysgu gan arwain at ddatgysylltu llwyr gyda dysgu neu ymddygiad problemus</li> <li>• Sgiliau cymdeithasol, emosiynol a rhyngbersonol, angen lefel uchel o gefnogaeth wedi'i theilwra</li> <li>• Dilyniant, cysyniad gweledol a/neu glywedol, cydlynu, trefnu, canolbwyntio neu gof gwaith tymor byr</li> <li>• Y bwlbch rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i g/chyfoedion yn gallu bod yn sylweddol ehangach na ddisgwylir i blant neu bobl ifanc o'i h/oedran.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Athro dosbarth, Cydlynnydd ADY rhieni a phlentyn/person ifanc yn parhau i gysylltu yn rheolaidd.</li> <li>• Edrych ar wybodaeth addysgol a meddygol hanesyddol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>• Trafod pryderon/arsylwadau gydag athrawon/lleoliad blaenorol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>• Edrych ar yr ystod o asesiadau ansoddol, mesurol a chrynodol i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>• Paratoi a chynnal CDU i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>• Nodi ar restr ADY fod gan blentyn neu berson ifanc CDU</li> <li>• Parhau i gynllunio, gwneud, adolygu yn erbyn y deilliannau a darpariaeth penodol.</li> <li>• Parhau i weithredu ar gyngor allanol gan asiantaethau addysgol ac iechyd, gan gynnwys cadw at gynlluniau gofal fel bo'r angen</li> <li>• Cynnal ac adolygu asesiadau pellach fel y cynghorir gan asiantaethau allanol</li> <li>• Sicrhau bod athro dosbarth a chymhorthydd addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol ac addasiadau rhesymol o'r lefelau Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu), a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu cynllun gofal iechyd unigol</li> <li>• Gweithredu'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol a amlinellir yn y CDU</li> <li>• Darparu ymyrraeth grŵp bach priodol ac adnoddau penodol i'r angen gyda thargedau CAMPUS mesuradwy</li> <li>• Darparu addysg reolaidd, benodol sy'n gynyddol unigol gan athro neu gymhorthydd addysgu</li> <li>• Sicrhau bod cyn ac ôl-asesiadau yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ymyrraeth</li> <li>• Gweithredu, monitro ac adolygu cyngor gan asiantaethau allanol</li> <li>• Defnyddio calendrau, amserlenni gweledol, cynllunwyr tasg a rhestrau gwirio i drefnu tasgau ystafell ddosbarth/gwaith cartref a galluogi plentyn neu berson ifanc i gwrdd â dyddiadau cau.</li> <li>• Ystyried a yw'r plentyn yn profi anawsterau yn eu hail iaith neu ym mhob iaith</li> </ul>

Yr Effaith ar Ddysgu <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	Ymateb <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	Strategaethau <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu â swyddog awdurdod lleol a enwir ar gyfer plentyn neu berson ifanc os bydd angen yn newid ac ati</li> </ul>	

<b>Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig</b> <i>Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?</i>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llenwch yr holl ffurflenni cyffredinol ar Eclipse</li> <li>• CDU (adolygu yn flynyddol a diweddar os yn briodol).</li> <li>• Cofnod o farn rhiant.</li> <li>• Cofnod o farn plentyn neu berson ifanc.</li> <li>• Parhaus, data asesiad cyfunedig o ystod o adnoddau (e.e. athro dosbarth a Chydlynnydd ADY).</li> <li>• Targedau llai, CAMPUS i blentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ddeilliannau a ddisgrifir mewn CDU</li> <li>• Cofnod o adnoddau a strategaethau a weithredwyd ac adolygwyd - gan gynnwys canlyniad effaith a chynnydd (cynllunio, gwneud, adolygu cylchoedd)</li> <li>• Cofnod o gyfarfodydd gyda rhieni i gefnogi, asesu, cynllunio, gwneud a chylch adolygu.</li> <li>• Cofnod o unrhyw gefnogaeth allanol, cyswllt neu gyngor a weithredwyd ac adolygwyd.</li> <li>• Cofnod o unrhyw arsylwadau a gwblhawyd neu dystiolaeth sy'n cefnogi effaith a arsylwir ar ddysgu (e.e. gwaith dosbarth, lluniau ac ati)</li> <li>• Proffil Un Dudalen</li> </ul>

**Os yw dangosyddion "Effaith ar Ddysgu" yn parhau ac na wnaed cynnydd**

**→ Parhau i DDARPARIAETH DDYSGU YCHWANEGOL (ARBENIGOL)**




## Ysgol

### DARPARIAETH DDYSGU YCHWANEGOL

## Gwybyddiaeth a Dysgu

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim yn cwrdd â holl ddisgwyliadau cysylltiedig i oed ym mhob maes dysgu drwy eu haddysg ac ni ddisgwylir i ragori ar holl feysydd dysgu drwy eu haddysg ac ni ddisgwylir i ragori ar lefelau-P erbyn Blwyddyn 11 mewn addysg prif ffrwd a/neu angen mynediad i achrediad amgen a/neu TGAU lefel is</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Athro dosbarth, Cydlynnydd ADY rhieni a phlentyn/person ifanc yn parhau i gysylltu yn rheolaidd.</li> <li>Edrych ar wybodaeth addysgol a meddygol hanesyddol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Trafod pryderon/arsylwadau gydag athrawon/lleoliad blaenorol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Edrych ar yr ystod o asesiadau ansoddol, mesurol a chrynodol i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>Paratoi a chynnal CDU i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>Nodi ar restr ADY fod gan blentyn neu berson ifanc CDU</li> <li>Parhau i gynllunio, gwneud, adolygu yn erbyn y deilliannau a darpariaeth benodol</li> <li>Ceisio cyngor allanol gan weithwyr proffesiynol iechyd fel: Nyrs Ysgol, Therapydd Iaith a Lleferydd; Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) neu Anabledd Dysgu (AD) CAMHS, Peditrydd</li> <li>Parhau i weithredu ar gyngor allanol gan asiantaethau addysg ac iechyd.</li> <li>Cynnal ac adolygu asesiadau pellach fel y cyngorir gan asiantaethau allanol</li> </ul>	<p>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol ac addasiadau rhesymol o'r lefelau Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu), a hefyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i nodi bylchau mewn dysgu. Gweler CDU ar gyfer deilliannau penodol a rhannu deilliannau yn dargedau llai, CAMPUS ac adolygu'n rheolaidd</li> <li>Creu cwricwlwm personol wedi'i deilwra i anghenion y plentyn neu'r person ifanc (mae'n bosibl y bydd hyn angen ymgynghoriad gyda holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc)</li> <li>Cynnwys cyngor allanol</li> <li>Cysylltu â chefnogaeth i sicrhau bod deilliannau dysgu yn cael eu hwyluso a bod adnoddau ar gael yn hawdd</li> <li>Rhoi rhaglen rheoli ymddygiad ar waith, os yn briodol</li> <li>Cyfradd uchel o staff i ddisgyblion (Adnoddau)</li> <li>Staff addysgu a chymorthyddion addysgu wedi eu hyfforddi'n benodol</li> <li>Meintiau dosbarth bach</li> <li>Ymyrraeth Tim Aml-ddisgyblaeth ar neu oddi ar safle</li> <li>Addysgu amlsynhwyraidd</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i>	<b>Ymateb</b> <i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i>	<b>Strategaethau</b> <i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod athro dosbarth a chymhorthydd addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefel uchel o ymyrraeth briodol ar waith i geisio a chyflymu cynnydd</li> </ul>
<b>Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig</b> <i>Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?</i>		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llenwch yr holl ffurflenni cyffredinol ar Eclipse</li> <li>CDU (adolygu yn flynyddol a diweddar os yn briodol).</li> <li>Cofnod o farn rhiant.</li> <li>Cofnod o farn plentyn neu berson ifanc.</li> <li>Parhaus, data asesiad cyfunedig o ystod o adnoddau (e.e. athro dosbarth a Chydlynnydd ADY).</li> <li>Targedau llai, CAMPUS i blentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ddeilliannau a ddisgrifir mewn CDU</li> <li>Cofnod o adnoddau a strategaethau a weithredwyd ac adolygwyd - gan gynnwys canlyniad effaith a chynnydd (cynllunio, gwneud, adolygu cylchoedd)</li> <li>Cofnod o gyfarfodydd gyda rhieni i gefnogi, asesu, cynllunio, gwneud a chylch adolygu.</li> <li>Cofnod o unrhyw gefnogaeth allanol, cyswllt neu gyngor a weithredwyd ac adolygwyd.</li> <li>Cofnod o unrhyw arsylwadau a gwblhawyd neu dystiolaeth sy'n cefnogi effaith a arsylwir ar ddysgu (e.e. gwaith dosbarth, lluniau ac ati)</li> <li>Proffil Un Dudalen</li> </ul>	



## Ysgol

### Cyffredinol gan gynnwys wedi'i dargedu

## Cyfathrebu a Rhyngweithio


<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p>Mae'r rhain yn ddangosyddion arwyddion posibl o anawsterau a all ymddangos fel angen Cyfathrebu a Rhyngweithio. Fodd bynnag, dylech nodi bod plant a phobl ifanc i gyd yn unigryw ac mae gan bob un broffil gwahanol. e.e. mae'n bosibl fod gan blant ag Awtistiaeth iaith fynegiannol eithriadol. Mae'n bosibl y bydd gan blentyn ag anawsterau lleferydd sgiliau cyfathrebu eithriadol a geirfa ardderchog.</p> <p><b>Anawsterau ac anghysondeb a arsylwyd gyda'r canlynol:</b></p> <p><b>Cysylltu ag eraill / creu a chynnal perthnasoedd.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i ddehongli negeseuon cymdeithasol yn gywir</li> <li>• Amseru cymdeithasol</li> <li>• Empathi cymdeithasol</li> <li>• Yr ymwybyddiaeth o ofod personol</li> <li>• Cynnal cyswllt llygad priodol</li> <li>• Sgiliau sgwrsio cymdeithasol priodol</li> <li>• Dehongli iaith sydd ddim yn llythrennol</li> <li>• Gweld safbwynt pobl eraill</li> <li>• Addasu i newid a throsglwyddo</li> <li>• Goddef rhai amgylcheddau</li> <li>• Chwarae gyda chyfoedion a chael ystod o ddiddordebau</li> <li>• Cynnal a chymryd rhan mewn sgwrs</li> <li>• Defnydd priodol o fynegiant wyneb</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafod pryderon/arsylwadau gyda rhiant/rhieni</li> <li>• Derbyn a chofnodi gwybodaeth a barn rhiant. Barn ac adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gael eu hystyried. (CCU)</li> <li>• Derbyn a chofnodi barn plentyn neu berson ifanc</li> </ul> <p>Os yw ar gael a/neu yn briodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio data Cwricwlwm Cenedlaethol. (Data Blynyddoedd Cynnar a chofnodion cyn ysgol/ysgol blaenorol).</li> <li>• Edrych ar wybodaeth addysgol a meddygol hanesyddol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>• Ystyried arsylwadau a barn athrawon blaenorol</li> <li>• Edrych ar yr ystod o asesiadau ansoddol, mesurol a chrynodol i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>• Ystyried unrhyw gofnodion iechyd perthnasol a rannwyd/darparwyd (e.e. iechyd ysgol)</li> <li>• Arsylwi ac yna cymharu rhwystrau posibl i ddysgu a chyfranogi ar draws ystod o gyd-destun. Nodi strategaethau/cyd-destun sy'n cefnogi dysgu/cyfranogi a gweithredu.</li> <li>• Cynnal asesiadau pellach fel bo'r angen e.e. BPVS, Ravens.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhowch eich hun yn rhywle lle mae'r plant yn medru gweld eich wyneb yn glir a chithau'n gallu eu gweld hwythau.</li> <li>• Cyfyngwch ar bethau sy'n tynnu sylw</li> <li>• Arddangos awgrymiadau gweledol (i gadarnhau rheolau gwrando da, eistedd yn dda a chymryd tro)</li> <li>• Ystyried ble mae plant a phobl ifanc yn eistedd o fewn yr amgylchedd dysgu i'w galluogi i weld anogwyr gweledol ac ati.</li> <li>• Cwricwlwm, adnoddau a meini prawf llwyddiant gwahanol</li> <li>• Neilltuwch amser ychwanegol ar gyfer prosesu gwybodaeth, rhoi atebion a chwblhau tasgau</li> <li>• Rhowch gyfle i ymarfer yn rheolaidd drwy gofio ac ailadrodd</li> <li>• Defnyddio amrywiaeth o strategaethau ar gyfer cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cefnogaeth weledol a/neu annog y plentyn neu'r person ifanc i ddweud mewn ffordd wahanol neu ddangos</li> <li>• Annog plentyn neu berson ifanc i ddefnyddio arwyddion i gefnogi lleferydd</li> <li>• Annog y plentyn neu'r person ifanc i ddweud os nad ydynt wedi deall rhywbeth</li> <li>• Creu amgylchedd cyson a dibynadwy a sicrhau y dilynir arferion</li> <li>• Cadw iaith yn glir, cyson a diamwys</li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <small>©Cheshire East Borough Council 2017 - all rights reserved</small> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p><b>Iaith</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth eirfa, dysgu a defnyddio geiriau newydd</li> <li>Deall geiriau a ddywedir wrthynt neu gyfarwyddiadau ar lafar</li> <li>Sgiliau sylw a chanolbwyntio</li> <li>Defnyddio iaith briodol i'w hoed</li> <li>Trefn a dilyniant</li> <li>Ecolalia (ailadrodd synau neu eiriau a siaredir gan rywun arall)</li> <li>Deall cysyniadau crynodeb a chymhwyso cyn dysgu</li> <li>Iaith dderbyngar a mynegiannol</li> </ul> <p><b>Lleferydd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lleferydd clir</li> <li>Atal dweud a/neu gael geiriau allan</li> <li>Cyndyn i siarad yn gyffredinol neu gyda phobl benodol / mudandod dewisol</li> <li>Deall lleferydd/brawddegau cysylltiedig</li> <li>Lleferydd monoton</li> <li>Anawsterau addasu sain. Rhy swnllyd neu'n rhy dawel.</li> <li>Ansawdd trwynol lleferydd yn absenoldeb annwyd.</li> <li>Acen anghyffredin heb ei chysylltu â'r amgylchedd</li> </ul> <p><b>Synhwyrdd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Profi anawsterau prosesu synhwyrdd, y gellir sylwi drwy'r canlynol (e.e. nid yw hon yn rhestr lawn):</li> <li>Camau fel rocio, anwesu, fflapio a/neu ddwylo dros y clustiau</li> <li>Deiet hunan-gyfyngedig</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Os yw'n briodol, trafod pryderon/arsylwadau gyda'r Cydlynnydd ADY / Pennaeth a/neu'r nyrs ysgol</li> <li>Sicrhau bod athro dosbarth a chymhorthydd addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).</li> <li>Gweithredu ar gyngor allanol gan asiantaethau addysgol ac iechyd, gan gynnwys cadw at gynlluniau gofal fel bo'r angen</li> <li>Ar gyfer disgyblion Cyfnod Sylfaen, ystyried ymgeisio am y Prosiect Datblygu Iaith a dyrannu cymhorthydd Iaith i'r plentyn.</li> <li>Cwblhau'r adnodd Arsylwi Cyfathrebu ar gyfer Dysgu (Ymddiriedolaeth Gyfathrebu). Mae'r adnodd wedi'i ddylunio i broffilio amgylchedd iaith lafar yr ystafell ddosbarth. <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/classroom-supporting-tool/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/classroom-supporting-tool/</a></li> <li>Sicrhau bod Map Darpariaeth yn cynnwys strategaethau yn cael eu defnyddio gyda disgyblion ar lefel gyffredinol.</li> <li>Cwblhau'r Rhestr Wirio Cyfathrebu Cyfeillgar: <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-friendly-checklists/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-friendly-checklists/</a></li> <li>Rhestr Wirio 1 <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-friendly-checklists/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-friendly-checklists/</a></li> <li>Rhestr Wirio 2 <a href="https://ican.org.uk/media/3246/making_your_place_great_for_communication_final_update.pdf">https://ican.org.uk/media/3246/making_your_place_great_for_communication_final_update.pdf</a></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio enw'r plentyn neu'r person ifanc ar ddechrau unrhyw gyfarwyddyd neu wrth roi gwybodaeth</li> <li>Cyflwyno gwybodaeth newydd mewn rhannau bach, yn defnyddio iaith syml sy'n berthnasol i'r plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Sicrhau targedau CAMPUS a chyflawnadwy</li> <li>Cyflwyno deunydd newydd mewn dull aml-synhwyrol - ei ddangos, gwranddo arno, edrych arno, ei glywed, ei weld, ei ysgrifennu</li> <li>Defnyddio technoleg i gefnogi dysgu</li> <li>Annog cefnogaeth gan gymheiriaid</li> <li>Defnyddio mapiau cysyniad i gynllunio a nodi themâu cyffredinol a'r berthynas rhwng syniadau</li> <li>Dysgu geirfa newydd</li> <li>Adolygu geirfa berthnasol. Sicrhau gwybodaeth am eirfa cyn cyflwyno testun newydd</li> <li>Defnyddio modelau oedolyn clir o iaith a lleferydd ac ailadrodd, pwysleisio ac ehangu fel bo'r angen</li> <li>Defnyddio modelu oedolyn o frawddegau cymdeithasol priodol mewn cyd-destun</li> <li>Gwneud defnydd o gyfleoedd addysg DPCh/dysgu Gemau ar y Cae Chwarae yn uniongyrchol</li> <li>Cynllunio cyfleoedd dyddiol i addysgu sgiliau penodol fel rhannu ac ati</li> <li>Gwneud defnydd o doriadau symud a theganau ffidlan</li> <li>Egluro geiriau a brawddegau sydd â mwy nag un ystyr neu wedi'i gamddehongli e.e. coda dy sanau</li> <li>Annog trafodaeth a phroffwydoliaeth am straeon.</li> </ul>



<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <small>©Cheshire East Borough Council 2017 - all rights reserved</small> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Anhawster rheoli tymheredd y corff e.e. côt ymlaen a gwisgo cwfl ar ddiwrnod poeth neu grys-t heb siwmpwr na chot ar ddiwrnod oer</li> </ul> <p><b>Arall</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hunan-barch</li> <li>Rhwystredig/pryderus oherwydd anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu</li> <li>Hunan-barch isel, rhwystredig neu anawsterau cyfathrebu yn achosi anawsterau cymdeithasol a/neu ymddygiad</li> <li>Anawsterau bwydo</li> </ul> <p><b>Sylwer: I ddisgyblion gyda Saesneg iaith gyntaf mewn ysgol cyfrwng Cymraeg a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol.</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fydd y mwyafrif helaeth o ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg a/neu Saesneg fel iaith ychwanegol yn profi anhawster cyfathrebu a rhyngweithio. Felly, ni fyddant yn cael eu hystyried ag ADY.</li> <li>I deuluoedd, ble nad yw Saesneg yn iaith gyntaf, dylid eu hannog i ddefnyddio eu hiaith gyntaf yn unig yn y cartref. Disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol sydd â bylchau sylweddol neu anawsterau yn iaith y cartref ac/neu ddim yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn Saesneg, dylid ymgynghori â'r gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol am gefnogaeth a chynghor pellach.</li> <li>Bydd y strategaethau a'r argymhellion a amlinellir yn y ddogfen hon yn berthnasol i anghenion dysgwyr Saesneg fel Iaith Ychwanegol ag ADY.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried dull ysgol gyfan i Ysgolion sy'n Croesawu Cyfathrebu drwy weithio drwy'r Pecyn Ymrwymiad Cyfathrebu <a href="https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-commitment/">https://ican.org.uk/i-cans-talking-point/professionals/tct-resources/more-resources/communication-commitment/</a></li> <li><b>Conwy:</b> Ffonio llinell gymorth brysbennu'r gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd i drafod y pryderon. Llinell gymorth ar gael ar ddydd Llun 9.30-10.30 03000855968 ar ddydd Iau 12.30-1.30 03000855478. Neu e-bost <a href="mailto:BCU.SALThelplineCentral@wales.nhs.uk">BCU.SALThelplineCentral@wales.nhs.uk</a>. Os ydych chi'n anfon e-bost dylech gynnwys enw cyntaf y plentyn, eu hoedran, eich perthynas â'r plentyn a rhif ffôn. Mae'n rhaid cael caniatâd y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant cyn cysylltu â'r llinell gymorth dros y ffôn neu drwy e-bost.</li> <li><b>Sir y Fflint:</b> Gwybodaeth Llinell Gymorth Therapi Iaith a Lleferydd 01978 727071</li> <li>Siarad yn uniongyrchol gyda Therapydd Iaith a Lleferydd am gyngor.</li> <li>Trafod unrhyw bryderon cyfathrebu.</li> <li>Ymholiadau am wasanaeth therapi iaith a lleferydd wedi eu hateb.</li> <li>Ar gael ar: Ddydd Mawrth 9.00-10.00 a dydd Iau 3.30-4.30</li> <li>Cael rhagor o wybodaeth am anghenion disgyblion ag anghenion cyfathrebu a rhyngweithio.</li> </ul> <p>Ffynonellau o Wybodaeth: Rhestrau Gwirio Afasic. Fframwaith Cymhwysedd Lleferydd ac Iaith / adnoddau hyfforddiant</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymateb i beth mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei ddweud, nid pa mor glir maent yn siarad</li> <li>Peidio honni eich bod yn deall</li> <li>Cynhyrchu geiriau yn glir</li> <li>Aildrefnu, ailstrwythuro neu ailadrodd brawddeg i blentyn neu berson ifanc i helpu dealltwriaeth a datblygu iaith fynegiadol - nid cywiro ond modelu</li> <li>Defnyddio amserlenni gweledol unigol, byrddau nawr a nesaf, calendrau a rhestrau tasg i strwythuro gweithgareddau.</li> <li>Defnyddio sgysiau strip comig™ a Straeon Cymdeithasol™ i helpu dealltwriaeth o sefyllfaoedd cymdeithasol.</li> <li>Ystyried ymyrraeth grŵp bach penodol, er enghraifft Amser Naratif Dafad Ddu ar gyfer Sŵn / Amser Rhigwm TalkBoost Cynnar / TalkBoost CA1 Adnoddau ELKLAN mewn Datblygwyr Iaith</li> <li>Ystyried mynediad i orsaf waith a/neu sefydlu gorsaf waith symbyliad isel, bwrdd preifatrwydd ar fwrdd grŵp neu fwrdd personol gydag ambell amhariad ond gwybodaeth a chefnogaeth weledol llawn gwybodaeth</li> <li>Archwilio'r amgylchedd ystafell ddosbarth i wirio ei bod yn croesawu Cyfathrebu. <a href="https://www.youtube.com/watch?v=r1ZbRpU9jak">https://www.youtube.com/watch?v=r1ZbRpU9jak</a></li> <li>Darparu Cefnogaeth Weledol i ddisgyblion: Gwylwch gliciad byr am syniadau ar weithredu cefnogaeth weledol. <a href="https://www.youtube.com/watch?v=Xh_ooF8PDhM">https://www.youtube.com/watch?v=Xh_ooF8PDhM</a></li> <li>Defnyddio technegau sgaffold ar gyfer datblygu iaith. <a href="https://www.youtube.com/watch?v=55-SIwjXngI">https://www.youtube.com/watch?v=55-SIwjXngI</a></li> </ul>

<b>Yr Effaith ar Ddysgu</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <small>©Cheshire East Borough Council 2017 - all rights reserved</small> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
<p>gan olygu lefelau uchel o gymorth gan oedolyn i ail-ymgysylltu a chael mynediad at ddysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddygiad cymryd risg gyda'r posibilrwydd o niwed. Angen delio'n gadarnhaol er mwyn diogelu'r plentyn/unigolyn ifanc ac eraill</li> <li>• Gallu cyfyngedig i gydnabod neu dderbyn cyfrifoldeb am ei g/weithredoedd ei hun mewn cyflwr emosiynol uwch</li> <li>• Lefel cynyddol o ymyrraeth/cefnogaeth staff ei angen er mwyn lleihau lefelau uwch o darfu</li> <li>• Ymddygiad gwrth-awdurdodol</li> <li>• Gorbryder a/neu hwyliau isel yn effeithio'n niweidiol ar gyfranogiad, ymgysylltiad, cynhwysiant a lefelau canolbwyntio ym mwyafrif sefyllfaoedd gan olygu fod angen ymyrraethau penodol ac wedi'u targedu. Gallent eisoes fod ag atgyfeiriad at wasanaeth iechyd meddwl / niwroddatblygiadol</li> <li>• Ymddygiad osgoi'r ysgol</li> <li>• Hunan-barch gwael iawn a/neu gadernid treiddiol (sy'n effeithio pob agwedd o'u bywydau)</li> <li>• Gweithredu emosiynol wedi'i effeithio i lefelau lle mae hunan-niweidio rheolaidd yn digwydd gan olygu bod angen gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol.</li> </ul> <p>Anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau cleifion mewnol sy'n golygu bod angen cydweithio rhwng gweithiwr iechyd ac addysg broffesiynol yr ALL er mwyn cytuno ar becynnau pwrpasol i gael eu darparu drwy leoliad prif ffrwd ar ôl cael eu rhyddhau.</p>	<p>addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) perthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Os oes angen, atgyfeirio at Un Pwynt Mynediad CAMHS i gael cyngor ar gyfer staff.</li> <li>• Os oes angen, atgyfeirio at wasanaeth cwnsela yn yr ysgol (ar gyfer disgyblion CA2 ac uwch)</li> <li>• Os oes angen, atgyfeirio at y gwasanaethau perthnasol</li> <li>• Os yw dangosyddion "Effaith ar Ddysgu" yn parhau a/neu na wnaed cynnydd, cysylltu â swyddog ALL.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cylchoedd datrys</li> <li>• Rhaglen cysgu</li> <li>• Cefnogaeth cyswllt i deuluoedd</li> </ul> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu cwricwlwm wedi'i wahaniaethu'n briodol; gall hyn gynnwys cwricwlwm a/neu amserlen wedi'i bersonoli/amgen (gan hwylyso datblygiad sgil SEMH)</li> <li>• Defnyddio ymarferion myfyriol i gefnogi agweddau cadarnhaol a llwyddiannau</li> <li>• Darparu mynediad ar gymorth allweddol a phriodol gan oedolion.</li> <li>• Defnyddio modelu, hyfforddiant emosiynol, sylwadau disgrifiadol, chwarae rôl, ymarfer cyn gweithgareddau.</li> <li>• Trafod ffiniau cymdeithasol ar gyfer gweithgareddau sydd ar y gweill yn arbennig i gefnogi anawsterau cyfathrebu cymdeithasol</li> <li>• Defnyddio straeon cymdeithasol i archwilio newid cadarnhaol mewn un agwedd ar y tro</li> <li>• Straeon Therapiwtig e.e. cyfres Margot Sunderland</li> <li>• Mynychu grŵp meithrin o fewn yr ysgol</li> <li>• Gweithredu gwers benodol mewn rhyngweithio cymdeithasol sy'n cynnwys sgwrsio, arferion amser bwyta, diogelwch personol, cwrteisi ac ati. (Efallai bydd angen adolygu mynegiant y wyneb ac iaith y corff fel rhan o hyn). Dylai hyn gynnwys rhoi a derbyn canmoliaeth.</li> <li>• Sicrhau fod siliau cyfathrebu a disgwyliadau ymddygiadol yn ganolbwynt craidd - dylai hyn gynnwys ffyrdd i ddangos eich bod yn gwrando ac ati.</li> <li>• Addysgu strategaethau hunangymorth er mwyn lleihau gwyliadwriaeth, megis peidio ag eistedd ger neu'n wynebu drysau neu ffenestri, defnyddio clustffonau canslo sŵn i atal sŵn ac ati.</li> </ul>

<b>Effaith ar Ddysgu a Lles</b> <b><i>Beth ydyn ni'n ei weld?</i></b>	<b>Ymateb</b> <small>©Cheshire East Borough Council 2017 - all rights reserved</small> <b><i>Beth ddylem ei wneud nesaf?</i></b>	<b>Strategaethau</b> <b><i>Beth allwn ni ei roi ar waith?</i></b>
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi cynnal canolbwynt mewn ffordd heb wrthdaro yn rheolaidd, gan ddefnyddio strategaethau megis defnyddio enw'r plentyn neu berson ifanc, cyffwrdd y ddesg o'u blaenau neu eu llyfr, pasio 'post-it' gyda chyfarwyddiadau, defnyddio system gardiau cytunedig megis goleuadau traffig.</li> <li>• Monitro eich iaith corff, mynegiant y wyneb a thôn eich hunain er mwyn cyflwyno'n dawel ac ystyriol, gan osgoi ymagwedd ymosodol neu aflonyddwch mewn cysylltiad â rhwystredigaeth.</li> <li>• Addysgu strategaethau iechyd meddwl da unai trwy agweddau cymdeithasol ac emosïynol ar ddysgu (SEAL), ymwybyddiaeth ofalgar neu weithgareddau therapiwtig tebyg er mwyn tawelu a chlirio'r meddwl</li> <li>• Defnyddio ethos a strategaethau grŵp meithrin Darparu ardal ddiogel gyda goruchwyliaeth ar gyfer tawelu ac amser i ffwrdd o sbardunau</li> </ul>



## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig

### Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?



- CDU (adolygu yn flynyddol a diweddarau os yn briodol).
- Cofnod o farn rhiant.
- Cofnod o farn plentyn neu berson ifanc.
- Parhaus, data asesiad cyfunedig o ystod o ffynonellau (e.e. athro dosbarth a Chydlynnydd ADY).
- Targedau llai, CAMPUS i blentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ddeilliannau a ddisgrifir mewn CDU
- Cofnod o adnoddau a strategaethau a weithredwyd ac adolygwyd - gan gynnwys canlyniad effaith a chynnydd (cynllunio, gwneud, adolygu cylchoedd)
- Cofnod o gyfarfodydd gyda rhieni i gefnogi, asesu, cynllunio, gwneud a chylch adolygu.
- Cofnod o unrhyw gefnogaeth allanol, cyswllt neu gyngor a weithredwyd ac adolygwyd.
- Cofnod o unrhyw arsylwadau a gwblhawyd neu dystiolaeth sy'n cefnogi effaith a arsylwir ar ddysgu (e.e. gwaith dosbarth, lluniau ac ati)
- Proffil Un Tudalen

Dogfennau ychwanegol (os yn berthnasol/priodol i unigolyn):

- Proffiliau Boxall
- Cofnodion ymddygiad
- Cwblhau holiadur cryfderau ac anawsterau
- Graddfa Gorbryder Spence
- ELSA
- Manylion o lwyddiannau a chyflawniadau'r plentyn
- Ysgol/dosbarth delfrydol
- PGG (asesiad Proffil Galluoedd Gwybyddol )

**Os yw dangosyddion "Effaith ar Ddysgu" yn parhau a/neu na wnaed cynnydd**

**→ Parhau i DDARPARIAETH DDYSGU YCHWANEGOL (ARBENIGOL)**



## Ysgol

### Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (Arbenigol)

## Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol

<b>Effaith ar Ddysgu a Lles</b> <b>Beth ydyn ni'n ei weld?</b>	<b>Ymateb</b> <b>Beth ddylem ei wneud nesaf?</b>	<b>Strategaethau</b> <b>Beth allwn ni ei roi ar waith?</b>
<p><b>Arsylwi anawsterau gyda'r angen am lefelau uchel a chyson o ymyraethau arbenigol gyda'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Methu cymryd rhan mewn unrhyw ryngweithiadau heb raddfa arbenigol o gymorth gan oedolyn o fewn a thu allan i gyd-destun y dosbarth. e.e. cwricwlwm pwrpasol, wedi'i wahaniaethu'n briodol, i gynnwys strategaethau cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal â strategaethau academaidd</li> <li>Anawsterau eithafol o ran ffurfio a chynnal perthnasau cyfoedion ac oedolion dwyochrog, gan arwain at arwahanrwydd cymdeithasol sylweddol ac ymddieithrio neu ddifaterwch llwyr</li> <li>Methu adnabod a chyfathrebu teimladau'n briodol, gan arwain at ymddygiadau negyddol megis ymddygiad ymosodol llafar a chorfforol, sydd angen technegau tawelu arbenigol a thechnegau cadarnhaol</li> <li>Ymatebion emosiynol anghyson ac anniogel o bosibl, gan arwain at anallu i ymgysylltu gyda sefyllfaoedd dysgu ffurfiol a chymryd amser a chymorth sylweddol i dawelu</li> <li>Ymddieithriad ac enciliad llwyr sy'n golygu bod angen cymorth cyson ac arbenigol gan</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Athro dosbarth, Cydlynnydd ADY rhieni a phlentyn/person ifanc yn parhau i gysylltu yn rheolaidd.</li> <li>Edrych ar wybodaeth addysgol a meddygol hanesyddol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Trafod pryderon/arsylwadau gydag athrawon/lleoliad blaenorol y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Edrych ar yr ystod o asesiadau ansoddol, mesurol a chrynodol i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>Paratoi a chynnal CDU i'r plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>Nodi ar restr ADY fod gan blentyn neu berson ifanc CDU</li> <li>Parhau i gynllunio, gwneud, adolygu yn erbyn y deilliannau a darpariaeth benodol.</li> <li>Parhau i weithredu ar gyngor allanol gan asiantaethau addysgol ac iechyd, gan gynnwys cadw at gynlluniau gofal fel bo'r angen</li> <li>Cynnal ac adolygu asesiadau pellach fel y cyngorir gan asiantaethau allanol Sicrhau bod athro dosbarth a chymhorthydd addysgu yn derbyn Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)</li> </ul>	<p><b>Dal ati ag unrhyw strategaethau perthnasol o'r lefelau Cyffredinol (gan gynnwys ymyriadau wedi'u targedu), a Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, hefyd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr er mwyn deall iechyd meddwl ac arweiniad ar y technegau a sgiliau priodol i'w defnyddio</li> <li>Cyfeirio rhieni/gofalwyr at gymorth</li> <li>Ymyraethau arbenigol yn seiliedig ar y synhwyrâu</li> <li>Ymyraethau therapiwtig unigol arbenigol</li> <li>Gwaith ysgol gyda staff meddygol er mwyn darparu pecyn holistaidd o ofal ac ymyrraeth</li> <li>Rhaglenni addasu ymddygiadol arbenigol wedi'i dargedu, gyda chymorth teuluol a hyfforddiant.</li> <li>Amgylchedd/cymorth SEMH arbenigol a chwricwlwm wedi'i addasu ar lefel unigol gyda chymorth teuluol</li> <li>Ymyraethau therapiwtig arbenigol e.e. therapi chwarae, therapi celf, gweithgareddau yn seiliedig ar</li> </ul>

<b>Effaith ar Ddysgu a Lles</b> <b>Beth ydyn ni'n ei weld?</b>	<b>Ymateb</b> <b>Beth ddylem ei wneud nesaf?</b>	<b>Strategaethau</b> <b>Beth allwn ni ei roi ar waith?</b>
<p>oedolyn er mwyn mynychu, cymryd rhan neu ymgysylltu gydag, a chael mynediad at ddysgu.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddygiad cymryd risg rheolaidd a/neu wedi'i dargedu, sy'n debygol o niweidio heb ymyrraeth arbenigol. Angen cynllun delio'n gadarnhaol er mwyn diogelu'r plentyn/unigolyn ifanc ac eraill</li> <li>• Mae'r plentyn neu unigolyn ifanc yn dangos difaterwch llwyr neu ddadsensiteiddio tuag at holl sefyllfaoedd</li> <li>• Anallu i gydnabod neu dderbyn cyfrifoldeb am ei g/weithredoedd ei hun</li> <li>• Ymddygiad gwrth-awdurdodol ymhob amgylchedd</li> <li>• Gorbryder a/neu hwyliau isel yn effeithio'n niweidiol ar gyfranogiad, ymgysylltiad, cynhwysiant a lefelau canolbwyntio ym mwyafrif sefyllfaoedd gan olygu fod angen ymyraethau penodol ac wedi'u targedu. Gallent eisoes fod ag atgyfeiriad at wasanaeth iechyd meddwl</li> <li>• Hunan-barch gwael iawn a/neu gadernid treiddiol (sy'n effeithio ar bob agwedd o fywyd), gan achosi lefelau uchel o drallod ac anallu i ymgysylltu gyda dysgeidiaeth heb becyn pwrpasol sy'n cynnwys amgylchedd a gwasanaethau arbenigol</li> <li>• Anawsterau o ran cael mynediad at wasanaethau cleifion mewnol y mae gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol yr ALI yn cytuno fod angen gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyraethau arbenigol</li> </ul>	<p>perthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysylltu â swyddog awdurdod lleol a enwir ar gyfer plentyn neu berson ifanc os bydd angen yn newid ac ati</li> <li>• Os oes angen, atgyfeirio'r plentyn neu berson ifanc ar gyfer ymyrraeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (CAMHS)</li> <li>• Os oes angen mynediad at uned cleifion mewnol CAMHS, cynnal cyfathrebiad gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a chyfrannu tuag at gynlluniau rhyddhau</li> </ul>	<p>ddiddordeb sy'n hwyluso ymarfer myfyriol ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyfforddiant emosiwn gan staff wedi'u hyfforddi</li> <li>• Ymyraethau trawma a galar</li> <li>• Cymorth unigol a fydd yn cynnwys cynnwys cwricwlwm, hyd y diwrnod, deinamig grŵp, mynediad â chymorth at apwyntiadau meddygol ychwanegol</li> </ul>

## Tystiolaeth o'r Ymateb Graddedig *Sut ydyn ni'n olrhain a chofnodi cynnydd a chanlyniadau?*



- Cwblhau holl ffurflenni cyffredinol ar Eclipse
- CDU (adolygu yn flynyddol a diweddarau os yn briodol).
- Cofnod o farn rhiant.
- Cofnod o farn plentyn neu berson ifanc.
- Parhaus, data asesiad cyfunedig o ystod o ffynonellau (e.e. athro dosbarth a Chydlynnydd ADY).
- Targedau llai, CAMPUS i blentyn neu berson ifanc yn seiliedig ar ddeilliannau a ddisgrifir mewn CDU
- Cofnod o adnoddau a strategaethau a weithredwyd ac adolygwyd - gan gynnwys canlyniad effaith a chynnydd (cynllunio, gwneud, adolygu cylchoedd)
- Cofnod o gyfarfodydd gyda rhieni i gefnogi, asesu, cynllunio, gwneud a chylch adolygu.
- Cofnod o unrhyw gefnogaeth allanol, cyswllt neu gyngor a weithredwyd ac adolygwyd.
- Cofnod o unrhyw arsylwadau a gwblhawyd neu dystiolaeth sy'n cefnogi effaith a arsylwir ar ddysgu (e.e. gwaith dosbarth, lluniau ac ati)
- Proffil Un Tudalen

Dogfennau ychwanegol (os yn berthnasol/priodol i unigolyn):

- Proffiliau Boxall
- Cofnod ymddygiad e.e. siart arsylwi ABS / taflenni rhifo
- Cwblhau holiadur cryfderau ac anawsterau
- Graddfa Gorbryder Spence
- Manylion o lwyddiannau a chyflawniadau'r plentyn
- Ysgol/dosbarth delfrydol
- PGG (asesiad Proffil Galluoedd Gwybyddol )

## 9. Pontio rhwng lleoliadau addysgol

### 9.1. Rôl y lleoliad addysg

Disgwylir rhai camau cyffredin gan bob lleoliad addysgol, pan fydd plentyn neu berson ifanc ag ADY yn nesáu at gyfnod pontio allweddol rhwng lleoliadau addysgol, pa un bynnag a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gadael lleoliad blynyddoedd cynnar, ysgol gynradd neu uwchradd.

Ble bydd plentyn neu berson ifanc ag ADY yn **ymuno** gyda lleoliad newydd, disgwylir ble bynnag bo hynny'n bosibl, y bydd y lleoliad yn:

- Cynnig taith anffurfiol a/neu ymweliad i'r lleoliad i'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni
- I blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac arbenigol, cynnig cyfarfod pontio rhwng y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni a'r Cydlynnydd ADY. Dylai hyn gynnwys y Cydlynnydd ADY o leoliad blaenorol y plentyn neu'r person ifanc (os bydd angen/yn briodol)
- Sicrhau fod gennych unrhyw waith papur ADY i'r plentyn neu'r person ifanc o leoliad arall (os yw'n angenrheidiol/priodol)

Ble bydd plentyn neu berson ifanc gydag ADY yn gadael lleoliad, disgwylir ble bo hynny'n bosibl y bydd y lleoliad yn:

- I blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth ac arbenigol, cysylltu â'r Cydlynnydd ADY yn y lleoliad newydd. Gall hyn gynnwys mynychu cyfarfod pontio gyda staff o'r lleoliad newydd a'r plant neu'r bobl ifanc a'u rhieni.
- Trosglwyddo holl waith papur plentyn neu berson ifanc cysylltiedig ag ADY i'r lleoliad nesaf (gan gynnwys cofnod electronig disgybl, byddai hyn angen cydsyniad gan y person ifanc yn y lleoliadau ôl-16.
- Galluogi ymweliadau pontio i'r lleoliad newydd ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

### 9.2. Rôl yr Awdurdod Lleol a'r gwaith amlasiantaethol

#### a) Pontio yn y blynyddoedd cynnar (gan gynnwys pontio i leoliad)

*Mae cynllunio ymlaen yn gallu helpu i ddarparu trosglwyddiad llyfn sy'n bwysig i holl blant a phobl ifanc o ran eu lles a'u deilliannau addysgol a chymdeithasol. Mae cynllunio pontio fel arfer yn fwy effeithiol pan mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu, gan alluogi i'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc i leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'u pontio nesaf.*

*Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, Pennod 27*

Mae yna nifer o amseroedd pontio allweddol ar gyfer plant o gartref i leoliad blynyddoedd cynnar, gan symud rhwng ystafelloedd, newid darparwyr neu symud o leoliad i ysgol. Mae'n bwysig i'r plentyn gael ei gefnogi drwy gydol yr amser hwn os ydynt am gael trosglwyddiad llyfn.

Mae elfen hanfodol ar gyfer trosglwyddiad llyfn yn cynnwys paratoi a chynllunio ymlaen llaw yn ogystal â'r setlo i mewn neu ddilyniant wedyn. Mae plant ag anghenion ychwanegol yn debyg o fod angen lefel mwy manwl o gynllunio a mwy o amser i ganiatáu i roi pethau ar waith. Mae'n hanfodol bod y broses yn dechrau'n fuan. I blant ag anghenion cymhleth ac anghenion arbenigol, bydd y Swyddog Arweiniol ADY Blynyddoedd Cynnar yn cyfrannu.

Dylai plant a'u rhieni gael eu cefnogi drwy'r broses pontio. Fel lleoliad, mae'n bosibl y byddwch hefyd angen cefnogaeth i ddechrau cyfarfod, cofnodi'r wybodaeth a drafodwyd a rhoi camau y cytunwyd arnynt ar waith cyn i'r newid ddigwydd i'r plentyn. Dylid cofnodi gwybodaeth bwysig am y plentyn, eu diddordebau, sut maent yn cyfathrebu, sut i'w cefnogi a manylion unrhyw un arall sy'n eu cefnogi.



Mae cynllunio a pharatoi ar gyfer trosglwyddo i leoliad yn gallu cynnwys ystod o wahanol elfennau, er nid yw'r rhain yn angenrheidiol yn weithgareddau ar wahân. Maent yn debygol o gynnwys:

- Sefydlu perthnasoedd
- Rhannu Gwybodaeth
- Ymweliadau a drefnwyd
- Creu parhad
- Paratoi yn y lleoliad
- Hyfforddiant a chymorth
- Setlo i mewn a dilyniant

Nodyn: Mae'r lleoliad angen gwybodaeth am anghenion iechyd y plentyn ac sydd gyda'r plentyn.

### **b) Blynyddoedd Cynnar i'r Ysgol Gynradd**

Ble bynnag bo'n bosibl dylai cyfarfod gael ei drefnu rhwng y lleoliad blynyddoedd cynnar a'r ysgol, gyda'r rhieni a'r plentyn os yw'n briodol. Byddai cyfleoedd i ysgolion ymweld â'r lleoliadau ac i'r gwrthwyneb yn cefnogi'r plentyn yn ystod y broses pontio hwn a byddai'n galluogi'r ysgol i weld sut mae'r plentyn yn dysgu a datblygu yn y lleoliad. Mae hefyd yn gyfle i'r staff ysgol gyfarfod y plentyn a'u rhieni a gall fod yn ddechrau i ddatblygu perthnasoedd newydd. Os oes gan y plentyn anghenion cymhleth/arbenigol, gall Swyddog Arwain ADY Blynyddoedd Cynnar chwarae rhan yn y broses hon.

### **c) Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd**

I blant gyda CDU, mae trafodaeth o amgylch y broses trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r uwchradd yn dechrau yn adolygiad CDU blwyddyn 5. Dylai'r CDU hwn ystyried beth fydd ei angen ar drosglwyddiad uwchradd. Bydd Swyddog Awdurdod Lleol yn cysylltu â'r ysgolion cyswllt ac mae'n bosibl yn mynychu cyfarfodydd adolygu CDU os bydd yr ysgol a'r Swyddog ALL yn cytuno bod angen bod yn bresennol.

*Mae cynllunio pontio fel arfer yn fwy effeithiol pan mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei fabwysiadu, gan alluogi i'r plentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc i leisio unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'u pontio nesaf...*

*...Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer paratoi ac adolygu CDU. Mae cyfuno cynllunio pontio gydag adolygiadau CDU felly yn gallu bod yn ffordd effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc wrth iddynt wynebu cyfnod o drawsnewid*

*Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, Pennod 27*

Wrth benderfynu ar ysgol, dylai rhieni yn gyntaf roi ystyriaeth i'w plentyn fynychu eu hysgol prif ffrwd ardal flaenoriaeth, leol. Mae Conwy a Sir y Fflint wedi ymrwmo i ystyried pa Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol y gellir ei gynnig i ysgolion prif ffrwd i fodloni ADY plant a phobl ifanc sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth i sicrhau nad yw plant ag ADY yn ddifreintiedig, a bydd hyn yn cael ei ystyried cyn unrhyw drefniant ar gyfer lleoliad mwy arbenigol. Mae ymchwil yn awgrymu bod plant mewn sefyllfa well i ddysgu pan nad ydynt yn treulio llawer o amser yn teithio i'r ysgol. Bydd rhieni/gofalwyr gyda phlant sy'n gymwys ar gyfer cludiant hefyd angen bod yn ymwybodol, os byddant yn dymuno i'w mab neu ferch fynychu ysgol nad yw'r un agosaf i'w cartref, ni ddarperir cludiant yn unol â pholisi cludiant y Cyngor.

### **Gwybodaeth allweddol ar gyfer trosglwyddo pob cyfnod i blant a phobl ifanc gyda CDU (gan gynnwys blynyddoedd cynnar i ysgol gynradd, ysgol gynradd i uwchradd ac uwchradd i ôl-16):**

Mae'n ddefnyddiol i bobl ifanc, rhieni a gofalwyr i fod wedi meddwl am y trosglwyddiad maent wedi'i wneud ac wedi gwneud unrhyw ymweliadau gofynnol cyn cyfarfod adolygu CDU a gynhelir yn y flwyddyn academaidd cyn trosglwyddo (e.e. dyma fyddai'r flwyddyn adolygu 5 CDU i blentyn sydd ar fin trosglwyddo i ysgol). Dylent hysbysu'r plentyn neu leoliad addysg presennol y person ifanc am eu dymuniadau cyn yr adolygiad hwn hefyd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn gallu trefnu presenoldeb priodol yn y cyfarfod adolygu CDU ar gyfer plentyn sydd ar fin trosglwyddo i'r lleoliad addysgol nesaf, felly yn hwyluso trosglwyddiad wedi'i gynllunio'n



dda, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gofynnir i rieni gadarnhau'r hyn a ffeffrir ganddynt ac anogir i gwblhau'r ffurflen gais ar-lein gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lleoliadau addysgol yn cael eu nodi mewn modd amserol.

Mae pob awdurdod lleol yn derbyn y dasg i ddefnyddio adnoddau (gan gynnwys ariannol) mor effeithiol â phosibl ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu nad yw ysgol yn y sir yn ddewis sydd ar gael, gan gynnwys adnodd a/neu ysgolion arbennig, yna cysylltir ag awdurdodau lleol eraill gydag ysgolion arbennig priodol cyn ystyried darpariaeth arbennig annibynnol. Bydd pellter o gyfeiriad cartref y plentyn a chostau cludiant cysylltiol yn cael ei ystyried hefyd. Bydd pellter o gyfeiriad cartref y plentyn a chostau cludiant cysylltiol hefyd yn cael ei ystyried.



## 10. Gorolwg o Gyllid ADY

### 10.1. Cyllid mewn darpariaeth prif ffwrdd

#### Ysgolion

<p><b>Targed a Chyffredinol</b></p>	<p><b><u>Conwy</u></b> Roedd Conwy wedi dirprwyo cyfaddawd cyllidebau ysgol o nifer o elfennau fformiwla gwahanol sy'n datblygu'r dyraniad cyllideb terfynol.</p> <p>Mae elfennau fformiwla penodol wedi ei dyrannu ar gyfer cefnogaeth a darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn ogystal, disgwylir i ysgolion ddyrannu o leiaf 5% o'u cyllideb graidd i gefnogi disgyblion ag ADY.</p> <p>Dylai cefnogaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu gael ei hariannu o fewn uned disgybl yn ôl oedran, gan adael elfennau ADY penodol i'w defnyddio ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Fodd bynnag, ble bo'n briodol ac y cyfiawnheir, mae cyllid o fewn elfennau ADY penodol yn gallu cael eu defnyddio i ehangu cefnogaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu gyda'r nod o leihau'r angen am DDdY i feisydd angen penodol. Er enghraifft, ble mae yna dystiolaeth glir a rhesymeg y gall gwella dealltwriaeth ac ymarfer ar lefel gyffredinol leihau'r angen am DDdY i ddysgwyr unigol.</p> <p><b><u>Sir y Fflint</u></b> Mae cyllidebau ysgol dirprwyedig Sir y Fflint yn cynnwys nifer o elfennau fformiwla gwahanol sy'n datblygu'r dyraniad cyllideb terfynol. Mae elfen 4 o'r gyllideb yr elfen sy'n seiliedig ar anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob cohort ysgol ac mae'n cynnwys cyllid ysgol craidd ar gyfer ADY a chyllid ychwanegol ar gyfer y sawl ag anghenion sylweddol (gweler adran DDdY). Tra bod y gyllideb yn cynnwys yr elfennau penodol, dylid ei ystyried yn gyffredinol a'i ddyrannu mewn ymateb i anghenion y cohort; ni ddylai gwariant ar bob maes yn angenrheidiol gael ei gyfyngu i'r swm penodol a nodwyd fesul elfen ond mewn ymateb i'r angen.</p> <p>Disgwylir i ysgolion ddyrannu o leiaf 5% o'r gyllideb graidd i gefnogi disgyblion ag ADY</p>
<p>CDY Ysgol</p>	<p><b><u>Conwy</u></b> Mae elfennau fformiwla penodol wedi ei dyrannu ar gyfer cefnogaeth a darpariaeth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghonwy.</p> <p>Dylai'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio gan bob ysgol i sicrhau staffio priodol a darpariaeth yn seiliedig ar dystiolaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Mae dadansoddiad llawn o holl gyllid dirprwyol, gan gynnwys cyllid ADY, wedi'i gynnwys yn nogfen flynyddol Adran 52. Yna mae'r cyllid hwn yn amodol ar adolygiad rheolaidd i sicrhau ei effeithiolrwydd i fodloni anghenion y dysgwyr yng Nghonwy.</p>

	<p>Mae unrhyw newidiadau i'r fformiwla ariannu angen cytundeb gan y Fforwm Cyllideb Ysgol ac ymgynghoriad statudol gyda holl Gyrrff Llywodraethu.</p> <p><b><u>Sir y Fflint</u></b> Mae cyllid ar gyfer DDdY wedi'i ddirprwyo'n llwyr i ysgolion. Mae cyllid ar gyfer cefnogaeth Cymhorthydd Addysgu llawn amser i anghenion corfforol a meddygol sylweddol yn hysbys fel Band C.</p> <p>Mae ceisiadau ar gyfer cyllid Band C yn cael eu cyflwyno i Banel Dirprwyo Ysgolion yr awdurdod lleol sy'n awdurdodi gwariant yn erbyn y cyllidebau dirprwyol ar ran ysgolion.</p> <p>Bydd rhai disgyblion gydag ADY hefyd yn gymwys am gyllid ychwanegol fel Grant Datblygu Disgyblion</p>
<p><b>Arbenigol (DDdY Awdurdod Lleol)</b></p>	<p><b><u>Conwy</u></b> Yng Nghonwy, mae darpariaeth arbenigol yn cael ei hariannu mewn dwy ffordd, naill ai drwy ddirprwyaeth i ysgolion ar gyfer darpariaeth a gydlynir gan ysgol (fel y cytunir mewn ymgynghoriad â nhw), neu drwy gyllid a gynhelir yn ganolog ar gyfer darpariaeth a gyflenwir yn ganolog.</p> <p>Mae Darpariaeth Arbenigol yng Nghonwy yn cynnwys Cefnogaeth Ddysgu Arbenigol (Dyslecsia), Tîm Anhwylder Iaith a Lleferydd Arbenigol (Darpariaeth Estyn Allan ac Adnodd), Darpariaeth Adnodd Dysgu, Darpariaeth Adnodd Awtistiaeth, Unedau Cyfeirio Disgyblion (Canolfannau Addysg) ac Ysgol Arbennig. Mae manylion pob un sy'n cael ei ariannu wedi eu disgrifio yn Adran 12.2.</p> <p><b><u>Sir y Fflint</u></b> Cyfeiriwch at Fframwaith Polisi Cyngor Sir y Fflint ar gyfer plant ag ADY ar gyfer gorolwg o ddarpariaeth adnodd ac ysgolion arbenigol sydd ar gael o fewn Sir y Fflint.</p> <p>Mae Ysgolion Arbenigol a Darpariaeth Adnodd wedi eu hariannu'n wahanol ar gyfer ysgolion prif ffrwd. Gweler isod.</p>

## 10.2. Cyllid mewn darpariaeth arbenigol ac adnodd

### Conwy

Gallwch gyfeirio at wefan Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy a/neu Bolisi ar gyfer gorolwg o ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael yng Nghonwy. Yn ogystal â'r ddarpariaeth arbenigol a ddisgrifir isod, mae ysgolion Conwy hefyd yn cael budd o wasanaethau cynghori arbenigol a ariennir yn ganolog sy'n darparu cyngor ar bob lefel o'r continwrm o gefnogaeth (cyffredinol i arbenigol), er enghraifft, Estyn Allan Awtistiaeth, Cefnogaeth Synhwyrdd, ADY/Athrawon Cynhwysiant a Seicoleg Addysgol.

Math o Ddarpariaeth	Y Sector Cynradd	Y Sector Uwchradd
Cefnogi Dysgu (Dyslecsia)	Mae cyllid yn cael ei gynnal yn ganolog i ddarparu gwasanaeth canolog i holl ysgolion cynradd Conwy ar sail angen.	Mae cyllid yn cael ei ddirprwyo i Ysgolion Uwchradd Conwy i ddarparu gwasanaeth ar sail angen yn 'fewnol'.
Tîm Arbenigol Anhwylder Lleferydd ac Iaith (Estyn Allan)	Mae cyllid yn cael ei gynnal yn ganolog i ddarparu gwasanaeth canolog i holl ysgolion cynradd Conwy ar sail angen. Mae hyn wedi'i gefnogi gan Therapydd Lleferydd ac Iaith a ariannwyd gan BIPBC.	Mae cyllid yn cael ei gynnal yn ganolog i ddarparu gwasanaeth canolog i holl ysgolion cynradd Conwy ar sail angen. Mae hyn wedi'i gefnogi gan Therapydd Lleferydd ac Iaith a ariannwyd gan BIPBC.
Darpariaeth Adnoddau Iaith	Mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan yr ALL ar gyfer lletya ysgol(ion) i gynnal y dosbarth(iadau) adnodd ar gyfer nifer sefydlog o ddisgyblion. Mae hyn wedi'i gefnogi gan Therapydd Lleferydd ac Iaith a ariannwyd gan BIPBC.	Amherthnasol
Darpariaeth Adnoddau Awtistiaeth	Mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan yr ALL ar gyfer lletya ysgol(ion) i gynnal y dosbarth(iadau) adnodd ar gyfer nifer sefydlog o ddisgyblion.	Mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan yr ALL ar gyfer lletya ysgol(ion) i gynnal y dosbarth(iadau) adnodd ar gyfer nifer sefydlog o ddisgyblion.



Darpariaeth Adnoddau Dysgu	Mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan yr ALL ar gyfer lletya ysgol(ion) i gynnal y dosbarth(iadau) adnodd ar gyfer nifer sefydlog o ddisgyblion.	Mae cyllid yn cael ei ddyrannu gan yr ALL ar gyfer lletya ysgol(ion) i gynnal y dosbarth(iadau) adnodd ar gyfer nifer sefydlog o ddisgyblion.
Unedau Cyfeirio Disgyblion	Mae cyllid yn cael ei gynnal yn ganolog i ddarparu gwasanaeth canolog i holl ysgolion Conwy ar sail angen.	Mae cyllid yn cael ei ddirprwyo i Ysgolion Uwchradd Conwy gyda'r dewis i 'brynu i mewn' i wasanaeth a ddarperir yn ganolog gan yr ALL.
Ysgol Arbennig	Mae ysgol arbennig Conwy yn gweithredu o dan drefniadau a ddirprwywyd fel ysgol arbenigol. Fodd bynnag, yr Awdurdod Lleol yw'r corff derbyniadau ac mae plant yn cael eu lleoli gan y Panel Cymedroli ALL yn unol â set o feini prawf mynediad y cytunwyd arno.	

## **Sir y Fflint**

### **Cyllid ar gyfer Darpariaeth Adnoddau**

Mae yna 10 ysgol gyda darpariaeth Adnoddau yn Sir y Fflint ar hyn o bryd. Mae pob un yn arbenigo mewn math arbennig o ADY (neu fathau) er enghraifft: Nam ar y Clyw, Cyfathrebu Cymdeithasol neu Ymddygiad, Anawsterau Emosiynol a Chymdeithasol. Mae gan bob ysgol gyda darpariaeth Adnodd arbenigol Gytundeb Lefel Gwasanaeth sy'n manylu'r nifer o leoliadau, meini prawf ar gyfer mynediad a gadael a'r cyllid a ddyrannwyd i'r ysgol ar gyfer darpariaeth.

Os bydd ysgol darpariaeth adnodd yn mynd dros y nifer o leoliadau a ddyrannwyd sydd ar gael fel y cytunwyd gan yr Awdurdod Lleol a'r ysgol, bydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu i alluogi darpariaeth ychwanegol a bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol. Bydd CLGau yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd; mae'n bosibl y bydd adolygiad yn cael ei ddygwyl ymlaen ble mae angen gwneud newid parhaol i'r ddarpariaeth.

Os bydd gan ysgol yn Sir y Fflint â darpariaeth Adnodd ddisgybl o ardal Awdurdod Lleol arall o fewn y ddarpariaeth, bydd yr Awdurdod Lleol yn hawlio cyllid ar ran yr ysgol ac yn trosglwyddo'r cyllid i gyllideb yr ysgol.



## Cyllid ar gyfer Ysgolion Arbenigol

Mae ysgolion arbenigol yn arbenigo mewn bodloni mathau arbennig o ADY ac yn cael eu hariannu yn flynyddol drwy gyfuniad o anghenion am gefnogaeth unigol a nifer disgyblion. Mae disgyblion yn cael eu dyrannu i un o bump categori band cefnogi ac yn cael eu hadolygu ar y cyd yn flynyddol gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol. Yn debyg i ddarpariaeth Adnodd, os bydd gan ysgol ddisgybl o sir wahanol, bydd yr Awdurdod Lleol yn hawlio cyllid ar ran yr ysgol ac yn trosglwyddo'r cyllid i gyllideb yr ysgol.

## 11. Dyletswyddau i benderfynu a oes gan blentyn ADY

*Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod cysylltiol (2021)* yn gosod rheoliadau ar gyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, Sefydliadau Addysg Bellach ac awdurdodau lleol mewn perthynas â:

- Phenderfyniadau ynglŷn â pha un a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY,
- Paratoi, cynnwys, ffurf, adolygu cynlluniau datblygu unigol (CDU), a rhoi'r gorau i gynnal CDUau.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd y dyletswyddau uchod yn cael eu cynnal gan ysgol a gynhelir neu Sefydliad Addysg Bellach. Ble caiff ei dynnu i'w sylw, neu fel arall yn ymddangos i ysgol neu Sefydliad Addysg Bellach, bod plentyn/person ifanc ag ADY, mae'n **rhaid** i'r ysgol benderfynu pa un a oes ganddynt ADY (eithriadau yn berthnasol: Cod ADY 12.3).

### 11.1. Atgyfeiriadau o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol

Mae yna ddau achos ble mae'n rhaid i ysgol a gynhelir gyfeirio achos plentyn i awdurdod lleol yn hytrach na phenderfynu dros ei hun pa un a oes gan y plentyn ADY:

1) Os yw'r plentyn wedi cofrestru ddwywaith; neu 2) mae'r plentyn yn derbyn gofal.

Mae ysgol a gynhelir hefyd yn gallu cyfeirio achos plentyn i awdurdod lleol os yw'n ystyried fod gan y plentyn ADY sy'n galw am DDdY "na fyddai'n rhesymol i'r ysgol ei sicrhau." Neu, mae'n bosibl na fydd yr ysgol yn gallu penderfynu'n ddigonol ar faint neu natur yr ADY neu'r DDdY. Yn yr amgylchiadau hyn, **dylai** ysgolion gyfeirio at yr awdurdod lleol o fewn 20 diwrnod o pryd y tynnwyd at eu sylw y posibilrwydd fod gan y plentyn ADY.

Mae yna rai amgylchiadau ble gall yr awdurdod lleol 'ailystyried' penderfyniad ysgol ar ADY neu CDU. Mae'n rhaid i ysgol wneud cais i'r awdurdod lleol sy'n cymryd drosodd y cyfrifoldeb am y CDU, neu gall plentyn, eu rhieni neu blentyn ifanc hefyd ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol ar ADY neu CDU yn yr ysgol.

Mae Gwasanaethau Addysg Sir y Fflint a Chonwy, mewn ymgynghoriad â'u hysgolion perthnasol, wedi sefydlu set o egwyddorion a ddefnyddir wrth benderfynu pa un a yw'n rhesymol i ysgol sicrhau'r DDdY neu pa un a ddylai'r awdurdod lleol wneud hynny.

I'r awdurdod lleol benderfynu bod yr awdurdod lleol angen ystyried/ailystyried, mae angen cyngor manwl gan y lleoliad addysgol am:

- Eu camau drwy ddefnyddio cyllideb ddirprwyedig/cyllid ADY tybiannol.
- Cynlluniau Datblygu Unigol Ysgolion (CDU), gan gynnwys eu hadolygiadau.
- Cynnydd ar draws y cwricwlwm dros amser (o leiaf dau dymor) a nodwyd drwy o leiaf 2 gylch o gynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn e.e. "Asesu, Cynllunio, Gwneud, Adolygu" gan gynnwys mewnbwn gan weithwyr proffesiynol perthnasol neu wasanaethau cynghori. Rhagwelir bod y 'dull graddol' a ddefnyddir



ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd dros gyfnod llawer mwy o amser na 2 dymor.

- Cofnodion o adolygiadau rheolaidd a'u canlyniadau.
- Data yn ymwneud â chynnydd a chyrhaeddiad, gan gynnwys cyrhaeddiad mewn llythrennedd a mathemateg a meysydd anhawster eraill.
- Mae asesiadau sy'n ymwneud ag addysg ac asesiadau eraill (e.e. gan Seicolegydd Addysg; athro cefnogaeth arbennig neu gynghori/gwasanaeth; Therapi Lleferydd ac Iaith (ThLlaI), Therapi Galwedigaethol ac ati.). Mae'r rhain yn gorfod cynnwys tystiolaeth bod strategaethau a gynghorir gan y gweithiwr proffesiynol allanol wedi eu gweithredu, adolygwyd, gwerthuswyd ac addaswyd yn unol â hynny, a gofynnir am gyngor arbenigol pellach os nad yw cynnydd yn amlwg. Dylai holl gyngor ac argymhellion newydd gael eu cynnwys mewn CDU Ysgol a chynnwys o leiaf tymor ble mae budd yr wybodaeth ychwanegol wedi'i asesu o ran eu cyfraniad i fodloni'r angen.
- Barn a dyheadau'r plentyn/person ifanc a'u rhieni/gofalwyr.
- Iechyd y plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys hanes meddygol ble bo'n berthnasol.
- Cynnwys gweithwyr proffesiynol eraill e.e. cynnwys gofal cymdeithasol neu wasanaeth iechyd hyd yma.

Dylai CDUau a ffurflenni cyffredinol ysgol yn Eclipse a gwblheir yn ddigon manwl ac adolygir yn rheolaidd gynnwys llawer o'r wybodaeth ofynnol a restrir uchod. O ganlyniad, gofynnir i leoliadau addysgol gyflwyno'r dogfennau canlynol wrth wneud atgyfeiriad i'r Awdurdod Lleol:

### **Crynodeb Dysgwr**

Mae'r ffurflen hon yn cynnwys trosolwg o'r dysgwr gan gynnwys: unrhyw wybodaeth gefndirol sy'n ymwneud ag amgylchiadau teulu neu gymdeithasol, cryfderau'r dysgwr, prif feysydd pryder, cyfraniad rhiant a manylion athro / ymarferwr.

### **Cyngor Tîm ALI**

Ffurflen yn cofnodi cyngor gan Dîm Awdurdod Lleol.

### **Gwybodaeth Plant sy'n Derbyn Gofal**

Bydd y ffurflen hon yn Gynllun Addysg Personol i Blant mewn Gofal, pa un a oes ganddynt CDU ai peidio. Os oes ganddynt CDU, bydd hwn yn rhan o'u CAP.

### **Cerrig Milltir/Targedau Tymor Byr**

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r targedau tymor byr mewn lle ar gyfer plentyn neu berson ifanc.

### **Adnoddau Meddwl sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Mae'r ffurflen hon yn cynnwys ystod o adnoddau meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gofnodi gwybodaeth am y plentyn neu'r person ifanc sy'n bwydo i adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a pharatoi ar gyfer CDU.

### **Proffil Un Tudalen**

Mae'r Proffil Un Tudalen yn nodi'r holl wybodaeth bwysig am blentyn neu berson ifanc ar un dalen o bapur o dan tri pennawd: beth mae pobl yn ei werthfawrogi amdanaf, beth sy'n bwysig i mi a'r ffordd orau i fy nghefnogi.

### **Proffil Asesiad**

Mae'r ffurflen hon yn cynnwys holl wybodaeth asesiad sy'n ymwneud ag addysg y plentyn neu'r person ifanc.

### **Strategaeth Cymorth ac Ymyrraeth (ymyrraeth gynhwysol)**

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i olrhain cynnydd a gwerthuso unrhyw gefnogaeth neu ymyrraeth a dargedwyd sydd ar waith i'r plentyn neu'r person ifanc.

### **Barn y rhieni**

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gael barn rhiant / gofalwr am anghenion eu plentyn. Gellir ei ddefnyddio yn gyffredinol neu'n fwy penodol wrth baratoi adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### **Barn y dysgwr**

Gellir defnyddio'r ffurflen hon i gofnodi barn y dysgwr. Gellir ei ddefnyddio yn gyffredinol neu'n fwy penodol wrth baratoi adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### **Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Gellir defnyddio'r ffurflen adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gofnodi barn, syniadau, deilliannau a chamau a rennir mewn cyfarfod adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Gellir cael mynediad i dempledi gwag ar gyfer y dogfennau uchod o fewn system Eclipse.

## **11.2. Pwy fydd yn cymryd rhan yn yr asesiad?**

Mae yna sawl asiantaeth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried gofyn am wybodaeth ganddynt i gyfrannu at ystyriaeth/ail ystyriaeth awdurdod lleol. Mae'n bosibl na fydd awdurdodau lleol yn gofyn am gyngor pellach os yw wedi'i darparu eisoes (ac mae pawb yn fodlon ei fod yn ddigonol ar gyfer y broses asesu). Bydd y cydlynnydd penodedig awdurdod lleol a enwir yn trafod hyn gyda phawb dan sylw.

Mae rhieni/gofalwyr yn gallu gofyn i ymgynghori ag unrhyw unigolyn arall am wybodaeth ble mae'r awdurdod lleol yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny. Mae enghreifftiau o hyn yn gallu cynnwys sefydliad arall sydd wedi cael profiad diweddar o'r plentyn neu'r person ifanc yn y 12 mis diwethaf. Ni fyddai'r awdurdod lleol fel arfer yn ceisio comisiynu asesiadau newydd gan weithwyr proffesiynol (e.e. Therapydd Galwedigaethol, nad yw'r plentyn/person ifanc yn gweithio gyda nhw ar hyn o bryd).

Ar ôl derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani fel rhan o'r ystyriaeth/ail ystyriaeth, bydd y cydlynnydd penodedig yn cyfarfod gyda'r rhieni/gofalwyr a'r plentyn neu'r person ifanc i gyd gynhyrchu dogfen sy'n adlewyrchu'r cyngor. Os gwneir penderfyniad bod angen ALP, bydd y ddogfen a gyd-gynhyrchwyd yn sail i CDU.

Os gwneir y penderfyniad nad yw CDU a baratoir gan awdurdod lleol yn angenrheidiol, bydd y cydlynnydd penodedig yn cwrdd gyda rhieni/gofalwyr a'r lleoliad addysg i drafod hyn a'r camau nesaf.

Anfonwch holl atgyfeiriadau ar gyfer ystyriaeth Awdurdod Lleol yn defnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol i'ch tîm ADY perthnasol (ALN@conwy.gov.uk / aln@flintshire.gov.uk).

Mae holl benderfyniadau sy'n ymwneud ag ystyriaeth/ailystyriaeth ADY yn cael eu gwneud gan baneli aml-asiantaethol sy'n cynnwys cynrychiolwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Timau Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion Cynradd, Uwchradd ac Arbennig, Seicoleg Addysg, Timau Anghenion Dysgu Ychwanegol a SNAP Cymru.

## 12. Iechyd

### 12.1. Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO)

Mae rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) yn rôl sy'n ffactor allweddol i gefnogi'r gwasanaeth iechyd i weithredu'r Ddeddf ALNET.

Mae yna ofynion newydd sylweddol ar Fyrddau Iechyd yng Nghymru yn dilyn Deddf ALNET.

Mae swyddogaethau'r bwrdd iechyd lleol mae DECLO yn gyfrifol am eu cydlynu yn cynnwys:

- (a) Atgyfeiriadau i'r Bwrdd Iechyd Lleol ystyried pa un a oes yna driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debyg o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc. Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol GIG (DDdY)
- (b) sicrhau'r DDdY (sef y driniaeth neu'r gwasanaeth perthnasol a ddisgrifir mewn CDU fel darpariaeth i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys cymryd camau rhesymol i sicrhau ei ddarpariaeth yn y Gymraeg ble mae'r angen).
- (c) Hwyluso cyfranogiad mewn adolygiadau o CDU ble mae triniaeth neu wasanaeth perthnasol wedi'i sefydlu fel DDdY i'w sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol.
- (d) Goruchwyllo ceisiadau gan awdurdodau lleol i'r Bwrdd Iechyd Lleol am wybodaeth neu gymorth arall, mae'r diwethaf ei angen at ddibenion ymarfer ei swyddogaethau ADY.
- (e) Hysbysu rhieni ac awdurdodau lleol am farn y Bwrdd Iechyd Lleol bod plentyn o dan oed ysgol gorfodol yn debyg o fod ag ADY.
- (f) Rhoi tystiolaeth i'r Tribiwnlys mewn apêl mewn perthynas â materion ADY
- (g) Delio gydag argymhellion a wnaed i'r Bwrdd Iechyd Lleol gan y Tribiwnlys am ymarfer swyddogaethau y Bwrdd Iechyd Lleol.

### 12.2. Rôl y DELCO

Mae rôl y DELCO yn un strategol sy'n cynnwys y cyfrifoldebau canlynol:

- (h) cydweithio gydag eraill
- (i) codi ymwybyddiaeth am y system ADY ar draws y Bwrdd Iechyd Lleol
- (j) rheoli systemau effeithiol a chyson o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol i'w alluogi i ymarfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.
- (k) rheoli rhan y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cwynion, dadleuon ac apeliadau i'r Tribiwnlys sy'n ymwneud ag ymarfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf.
- (l) Mesur cydymffurfiaeth a sicrwydd ansawdd gweithgareddau Bwrdd Iechyd Lleol.
- (m) Cyngor sicrwydd ansawdd i leihau amrywiaeth mewn ymarfer a hybu disgwyliadau realistig.

### 12.3. Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y DECLO

**Ar lefel unigol:** ymholiadau neu bryderon pan fydd gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion iechyd cymhleth, sydd/efallai yn effeithio ar ddysgu

**Ar lefel gwasanaeth:** hyfforddiant ar agweddau iechyd o ADY; gwybodaeth bellach mewn perthynas ag agweddau iechyd o'r CDU; canllawiau os nad ydych yn siŵr pa weithwyr proffesiynol i gysylltu â nhw ar gyfer cwynion, cyfryngu a thribiwnlys; cysylltu â gwasanaethau iechyd mewn gwasanaethau troseddwr ifanc

**Ar lefel strategol:** gwybodaeth ar ddatblygu cydgomisiynu ar gyfer ADY ac ymestyn gwasanaethau iechyd hyd at 25 oed; llwybrau iechyd integredig a lleihau dyblygu; strwythur llywodraethu ar gyfer uwchgyfeirio pryderon/cwynion; integreiddio ac ymgorffori ADY ym mhob gwasanaeth ac adran perthnasol o'r bwrdd iechyd. Integreiddio ADY mewn rhaglenni fel "Let Me Flourish", "No Wrong Door". ac ati.

## 12.4. Cefnogi disgyblion yn yr ysgol gyda chyflyrau meddygol

Bydd y DECLO yn gweithio gyda gwasanaethau byrddau iechyd i sicrhau y rhoddir cefnogaeth i gydweithwyr addysgol i weithredu canllawiau Llywodraeth Cymru "Cefnogi Dysgwyr gydag Anghenion Gofal Iechyd" (2017). Mae'r ddogfen hon yn amlinellu canllawiau i'w dilyn ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion gofal iechyd nad yw'n effeithio ar ddysgu.

### a. Therapi Iaith a Lleferydd

Mae Therapyddion Iaith a Lleferydd yn weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd ac wedi cofrestru gyda'r [Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal](#) a'r [Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd](#). Mae'r tîm hefyd yn cynnwys hyfforddwy'r technegol Thil - gweithwyr cefnogi a hyfforddwyd yn arbennig i ddarparu cefnogaeth Thil dirprwyol ar draws ystod o leoliadau. Mae'r tîm Thil yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag ystod o anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu neu anawsterau llyncu (dysffagia), darparu asesiad arbenigol ac ymyrraeth ar sail tystiolaeth. Maent yn gweithio gyda gofaluwr a theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, fel athrawon i ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

### b. Therapi Galwedigaethol

Mae Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol (ThG) Peditrig yn darparu ymyrraeth i fabanod, plant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 oed. Mae'r gwasanaeth yn anelu i gynorthwyo plant i gyflawni eu potensial mwyaf mewn sgiliau ymarferol bob dydd fel mynediad i chwarae, gwisgo, bwyta, llawysgrif, toiledu.

### c. Ffisiotherapi

Mae Gwasanaethau Ffisiotherapi Peditrig yn darparu ymyrraeth i blant a phobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn anelu i gynorthwyo plant i gyflawni eu llawn botensial corfforol ac ymarferol.

### d. Peditregwyr

Mae peditregwyr yn gweithio fel rhan o dîm i ddarparu gofal i holl blant a phobl ifanc gyda chyflyrau meddygol fel asthma, alergedd, diabetes, cardiaidd, coeliag, endocrin, epilepsi, anhwylderau datblygiadol a niwroanableddau. Bydd gan bobl ifanc â chyflyrau iechyd cymhleth parhaus drefniadau trosglwyddo i wasanaethau iechyd oedolion. Ar gyfer llawer, bydd hyn yn cael ei gwblhau o amgylch eu pen-blwydd yn 18 oed, fodd bynnag, mae'n bosibl bydd y sawl mewn sefydliadau addysgol yn parhau o dan ofal peditregydd cymunedol nes byddant yn gadael yr ysgol, fel arfer pan fyddant tua 19 oed.

Manylion Cyswllt

- [BCU.DECLO@wales.nhs.uk](mailto:BCU.DECLO@wales.nhs.uk)
- Ffôn: 03000 846993

## 13. Gwasanaethau Cymorth Buan a Gofal Cymdeithasol

Mae Sir y Fflint a Chonwy wedi ymrwymo i ddarparu'r cymorth cywir i deuluoedd ar yr amser cywir gan y gwasanaeth cywir. Mae hyn yn cael ei ddisgrifio fel "cymorth buan" ac mae'n cynnwys darparu cefnogaeth sydd ei hangen gan deuluoedd ar unrhyw bwynt ym mywyd eu plant.

Cyngor Sir y Fflint	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
<b>Darparu:</b>	
<p><b>Canolfan Cymorth Cynnar</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Un pwynt cyswllt i weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phobl ifanc gael gafael ar gymorth cynnar ledled Sir y Fflint.</li> <li>• Cefnogi teuluoedd Sir y Fflint i gael mynediad i ymyrraeth fuan i atal uwchgyfeirio anghenion.</li> <li>• Asiantaethau partner a gydleolir a 3ydd sector i rannu mwy o wybodaeth i ddarparu cyngor priodol.</li> </ul>	<p><b>Timau Cymorth i Deuluoedd</b></p> <p>Pum tîm a leolir yn y gymuned leol</p> <p>Lleolir mewn Canolfannau i Deuluoedd neu leoliad yn y gymuned</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grwpiau mynediad agored ar gael i unrhyw deuluoedd ymuno i mewn, gwneud ffrindiau a chefnogi'r naill a'r llall</li> <li>• Grwpiau a dargedwyd ar gael i unrhyw deuluoedd a fyddai'n cael budd ohonynt - er enghraifft, cyrsiau rhianta, a grwpiau â themâu</li> <li>• Cefnogaeth un i un gan Weithiwr Teulu - wedi'i deilwra i beth sydd o bwys i'r teulu a'u hanghenion penodol. Mae hyn yn seiliedig ar yr adnodd Proffil Lles Teulu, sy'n sgwrs gyda theuluoedd yn edrych ar holl feysydd bywyd teulu a chydweithio i gyrraedd amcanion y teulu. Mae ein <a href="#">Safonau</a> yn disgrifio'r hyn y gall teulu ei ddisgwyl ar eu siwrnai gyda ni.</li> <li>• Atgyfeiriadau a mynediad i gefnogaeth arbenigol - rydym yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i gael cefnogaeth arbenigol i fodloni anghenion teuluoedd.</li> </ul>
<b>Meini Prawf:</b>	
<p>Teulu gyda 2 neu fwy o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yr ydych yn bryderus amdanynt. Maent yn gallu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cam-drin emosiynol</li> <li>• Esgeulustod plentyndod</li> <li>• Cam-drin corfforol</li> <li>• Cam-drin rhywiol</li> <li>• Teulu yn chwalu/gwahanu</li> <li>• Cam-drin Domestig</li> <li>• Camddefnyddio alcohol a/neu sylweddau</li> <li>• Carchariad Rhiant</li> <li>• Iechyd Meddwl</li> </ul>	



Mae teuluoedd yn gallu gofyn am gymorth ar unrhyw adeg, neu croesewir atgyfeiriadau gan unrhyw un sy'n gweithio gyda theuluoedd. Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Ysgolion, darparwyr addysg bellach a blynyddoedd cynnar
- Gwasanaethau Iechyd
- Yr Heddlu
- Gwasanaethau ieuencid
- Dechrau'n Deg
- Sector Gwirfoddol a Chymunedol

#### Sut i atgyfeirio:

Llenwch ffurflen atgyfeirio gyfunol a'i hanfon at [earlyhelpub.referral@flintshire.gov.uk](mailto:earlyhelpub.referral@flintshire.gov.uk)

1. Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei adolygu gan y Ganolfan Cymorth Buan o fewn 5 diwrnod gwaith
2. Nodwyd cefnogaeth briodol
3. Asiantaeth briodol wedi cysylltu â'r teulu
4. Hysbyswyd atgyfeiriwr am y deilliant

Ewch i dudalennau gwe Bywyd Teulu Conwy

[www.conwy.gov.uk/familylife](http://www.conwy.gov.uk/familylife)

Os meddylir bod angen asesiad neu Gefnogaeth Gofal Cymdeithasol, yna bydd angen atgyfeirio i Dîm Dyletswydd Conwy <https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Children-and-families/Children-and-Families.aspx>. Dyma'r 'drws ffrynt' ar gyfer mynediad i wasanaethau, cefnogaeth a chyngor i blant a'u teuluoedd, o gymorth a chefnogaeth fuan i ddiogelu ac amddiffyn plant.

#### Manylion cyswllt defnyddiol am wybodaeth, cyngor a chefnogaeth:

**fisf@flintshire.gov.uk** neu **01352 703500**

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint yn darparu cyngor arbenigol am ddim a diduedd, gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw beth o ofal plant, iechyd, hamdden, cefnogaeth rhiant a chyllid yn eich ardal a llawer mwy ...

**www.dewis.wales**

Mae Dewis Cymru yn wefan sy'n gallu darparu gwybodaeth am les yng Nghymru. Mae Dewis yn cadw gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol sy'n gallu helpu gweithwyr proffesiynol a theuluoedd i nodi cefnogaeth.

**www.flvc.org.uk**

Mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint yn darparu cyfeirlyfr o wybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau lles cymunedol sydd ar gael i deuluoedd.

**www.publichealthnetwork.cymru**

Mae rhwydwaith iechyd cyhoeddus yn darparu mynediad uniongyrchol i wybodaeth iechyd cyhoeddus cynhwysfawr.

**<https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Im-worried-about-somebody/assets/documents/Referral-Form-Children-and-Families2018.docx>** neu **01492 575 111**

Gellir cysylltu â'r tîm ar ddyletswydd dros y ffôn neu drwy lenwi'r atgyfeiriad yn y ddolen uchod a'i dychwelyd i **[duty@conwy.gov.uk](mailto:duty@conwy.gov.uk)**.

Mae ystod o ddarpariaeth gwasanaeth ar gael gan wasanaethau a gomisiynir gan Gyngor Sir Conwy neu o fewn Cyngor Sir Conwy ei hun, yn dibynnu ar y math a chymhlethdod y mater a'i effaith ar y plentyn neu'r person ifanc. Am fwy o wybodaeth gweler **<https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Social-Care-and-Wellbeing/Social-Care-and-Wellbeing.aspx>** a dewis yr opsiwn Plant a Theuluoedd.



## 14. Geirfa

<b>A, B, C</b>	Blaenorol, Ymddygiad, Canlyniad
<b>ACES</b>	Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod
<b>AD</b>	Anhwylderau ymlyniad
<b>ADD</b>	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio
<b>ADHD</b>	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
<b>ADY</b>	Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>Cydlynnydd ADY</b>	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
<b>ALNET</b>	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlysg Addysg (Cymru) 2018
<b>ALNLO</b>	Swyddog Arwain ADY
<b>DDY</b>	Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol
<b>ASA</b>	Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth
<b>DYEC</b>	Datblygiad Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol
<b>PGG</b>	Proffil Galluoedd Gwybyddol
<b>DPP</b>	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
<b>SACAD</b>	Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig
<b>ELSA</b>	Cymorthyddion Cefnogaeth Llythrennedd Emosiynol
<b>SA</b>	Seicolegydd Addysg
<b>CCU</b>	Cynllun Cyfathrebu Unigol
<b>CDU</b>	Cynllun Datblygu Unigol
<b>SBA</b>	Sgiliau Byw yn Annibynnol
<b>SAU</b>	Strategaeth Adweithiol Unigol
<b>LAC</b>	Plant sy'n Derbyn Gofal
<b>TALI</b>	Tîm Awdurdod Lleol
<b>LDD</b>	Anawsterau ac/neu Anabledau Dysgu
<b>ADC</b>	Anawsterau Dysgu Cymedrol
<b>ThG</b>	Therapi Galwedigaethol
<b>PASS</b>	Agwedd Disgyblion at eu Hunain a'r Ysgol
<b>CAP</b>	Cynllun Addysg Personol
<b>PMLD</b>	Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog
<b>QTVI</b>	Athrawes Gymwysedig unigolion â Nam ar y Golwg
<b>ThIaLI</b>	Therapi Iaith a Lleferydd.

### SEMH

### SEN

### SIS

### SLCN

### SLD

### ThIaLI

### ADP

### SPOA

### GCS

### STOD

### HT

### TOD

### VI

### HI

### MSI

### AC

Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Iechyd Meddwl

Anghenion Addysgol Arbennig

Gwasanaeth Cynhwysiant Synhwyrdd

Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu

Anawsterau Dysgu Difrifol

Therapyddion Iaith a Lleferydd

Anawsterau Dysgu Penodol

Un Pwynt Mynediad

Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrdd

Athro Arbenigol y Byddar

Hyfforddwyr Technegol

Athro y Byddar

Nam ar y golwg

Nam ar y clyw

Nam amlsynhwyrdd (cyfuniad o anawsterau'r golwg a'r clyw)

Anabled Corfforol

## Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau

### Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar)

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i ddyfynnu o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021:

"Mae Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar" neu "Swyddog Arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar" yn golygu swyddog sydd wedi'i ddynodi, yn unol ag adran 62 y Ddeddf, gan yr awdurdod lleol i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan Ran 2 y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod yn gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Ddeddf mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir. Bydd y swyddog dynodedig yn cael eu hadnabod fel 'Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar' ('Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar').

Y swyddogaethau awdurdod lleol y mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn gyfrifol am eu cydlynu cyn belled ag y bônt yn ymwneud â charfan Swyddog Arweiniol ADY yw:

- penderfynu a oes gan blant ADY, paratoi a gofalu am Gynlluniau Datblygu Unigol (gan gynnwys sicrhau'r Darpariaethau Dysgu Ychwanegol a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Unigol) a darparu gwybodaeth am Gynlluniau Datblygu Unigol.
- Adolygu a diwygio Cynlluniau Datblygu Unigol.
- Adolygu trefniadau Darpariaethau Dysgu Ychwanegol
- Gwneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth a chymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau'n hysbys i rieni (ymysg eraill) a chyfeillion achos y plant yn yr ardal; gwneud trefniadau er mwyn osgoi a datrys anghytundeb a hyrwyddo'r defnydd ohonynt.
- Gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol.

Mae Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn rôl strategol a dylai bod dwy agwedd i'r rôl: rôl fewnol a rôl allanol. Diben y rôl fewnol yw bod yn gyfrifol am drefniadau'r awdurdod lleol i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â charfan Swyddog Arweiniol ADY. Er mwyn cefnogi arfer effeithiol y swyddogaethau hynny, mae'r rôl allanol yn ymwneud â datblygu a chynnal perthnasau effeithiol gydag eraill sy'n gweithio yng nghanfan Swyddog Arweiniol ADY yr awdurdod lleol.

## Ysgolion – Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynnydd ADY)

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i thynnu'n uniongyrchol o God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021:

Mae'n rhaid i bob ysgol brif ffrwd a gynhelir a Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru ddynodi unigolyn, neu fwy nag un unigolyn, fydd â chyfrifoldeb dros gydlynu darpariaeth i ddysgwyr ag ADY. Bydd yr unigolyn (neu'r unigolion) yn cael ei adnabod fel y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Gydlynnydd ADY.

O dan eu dyletswydd i ddynodi unigolyn i weithredu fel Cydlynnydd ADY, dylai ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach ystyried sgiliau a phrofiad yr unigolyn i sicrhau y gallant gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd mewn cyfraith. Dylai bod Cydlynnydd ADY yn hynod gymwys a dylent feddu ar arbenigedd o ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolyn a delio gydag ystod eang o ADY. Dylai Cydlynwyr ADY gael hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gallent ddewis arbenigo mewn mathau penodol o ADY a rhannu'r arbenigedd hwn y tu hwnt i'w lleoliad addysg penodol.

Mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY mewn ysgol fod yn athro/athrawes. Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY o mewn Sefydliad Addysg Bellach fod yn athro/athrawes addysg bellach.

Gellir dynodi unigolion yn Gydlynnydd ADY mewn ysgol a gynhelir heb fod yn athro/athrawes ysgol, ond dim ond os oeddent yn gweithredu fel cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (Cydlynnydd AAA) yn yr ysgol cyn 4 Ionawr 2021.

Nid yw dynodi Cydlynnydd ADY yn diddymu cyfrifoldebau'r gweithlu ehangach; bydd gan yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag ADY gyfrifoldeb i sicrhau bod anghenion y dysgwyr yn cael eu nodi ac y darperir ar eu cyfer.

Mae'n hanfodol bod Cydlynnydd ADY yn cael digon o amser ac adnoddau i ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol, gan gynnwys amser penodol lle nad ydynt yn addysgu. Dylai pennaeth y lleoliad addysg sicrhau bod y Cydlynnydd ADY yn derbyn cefnogaeth o ran hyn. Bydd dynodi amser penodol a digonol yn sicrhau y gall y Cydlynnydd ADY ymgymryd â'u dyletswyddau'n effeithiol. Wrth benderfynu ar amser digonol, dylid ystyried y niferoedd ar y gofrestr yn y lleoliad addysg sydd ag ADY a difrifoldeb yr ADY sydd gan y garfan honno o ddysgwyr.

Os yw rôl Cydlynnydd ADY unigol wedi'i chyfuno gyda chyfrifoldebau eraill nad ydynt yn ymwneud ag addysgu, mae'n bwysig bod y cyfrifoldebau eraill hyn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau y disgwylir i'r unigolyn eu cyflawni fel Cydlynnydd ADY, ac nad ydynt yn amharu ar eu gallu i gyflawni rôl Cydlynnydd ADY.

Er bod yr holl athrawon a staff addysg yn addysgwyr plant a phobl ifanc ag ADY, y Cydlynnydd ADY yw'r unigolyn sy'n sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY yn y lleoliad addysg yn cael eu bodloni ar lefel strategol. Mae'r rôl yn un strategol o fewn y lleoliad addysg ac felly, dylai, naill ai ffurfio rhan o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu fod llinell gyfathrebu glir i'r uwch dîm arweinyddiaeth. Bydd hyn yn cefnogi'r lleoliad addysg i gynllunio, rheoli a chyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau i nodi a diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

I gefnogi'r Cydlynnydd ADY, dylai'r uwch dîm arweinyddiaeth gynghori, cefnogi a herio systemau a phrosesau'r lleoliad addysg i nodi a diwallu anghenion y dysgwyr. Gall yr awdurdod lleol gefnogi rôl y Cydlynnydd ADY, gan gynnwys darparu arweiniad lle bo'n briodol.

Bydd angen i'r Cydlynnydd ADY gyfrannu at gydlynu adnoddau ADY yn strategol, megis lleoli a chefnogi staff a gweithio gyda chydweithwyr ar yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gynllunio a phenderfynu ar yr adnoddau priodol sydd eu hangen i gefnogi staff yn y lleoliad. Dylai Cydlynnydd ADY gyfrannu at benderfyniadau o ran y gyllideb ac adnoddau i gynorthwyo i gynllunio darpariaeth briodol.


Ni ddisgwylir i Gydlynnydd ADY ymwneud yn uniongyrchol â'r broses ddyddiol o gefnogi pob dysgwr gydag ADY. Cyfrifoldeb athrawon dosbarth yw hyn, ond gall staff cefnogi dysgu gynorthwyo'r Cydlynnydd ADY i sicrhau bod athrawon yn derbyn cefnogaeth a bod anghenion yr holl ddysgwyr yn cael eu diwallu.

Yn ogystal â'u cyfrifoldeb trosfwaol ar gyfer cydlynu Darpariaethau Dysgu Ychwanegol ar gyfer myfyrwyr neu ddisgyblion gydag ADY, mae'r Cydlynnydd ADY yn gyfrifol am sicrhau bod y tasgau a nodwyd dan y pennawd hwn yn cael eu cyflawni. Gall Cydlynnydd ADY ddewis cyflawni'r tasgau hyn eu hunain neu drefnu bod eraill yn cyflawni'r tasgau hyn:

- Ni fydd gofyn i'r Cydlynnydd ADY ddatblygu pob CDU - ond mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod gan bob dysgwr sydd ag ADY ar draws y lleoliad addysg CDU. Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY nodi ADY disgybl neu fyfyrwr a chydlynu llunio Darpariaeth Dysgu Ychwanegol sy'n diwallu'r anghenion hynny.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY sicrhau gwasanaethau perthnasol a fydd yn cefnogi Darpariaeth Dysgu Ychwanegol disgybl neu fyfyrwr fel bo'r angen.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY gadw cofnodion o benderfyniadau am ADY a CDUau
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY hyrwyddo cynhwysiad y disgybl neu fyfyrwr yng nghymuned yr ysgol/sefydliad addysg bellach a mynediad i'r cwricwlwm, cyfleusterau a gweithgareddau allgyrsiol.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY fonitro effeithiolrwydd unrhyw Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY gynghori athrawon yn yr ysgol neu sefydliad addysg bellach am ddulliau dysgu gwahanol sy'n briodol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr unigol gydag ADY.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY oruchwylio a threfnu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cefnogi dysgu sy'n gweithio gyda disgyblion a myfyrwyr ag ADY.
- Mae'n rhaid i Gydlynnydd ADY gyfrannu at hyfforddiant mewn swydd ar gyfer athrawon.

Yn ogystal â thasgau gorfodol, dylai prif gyfrifoldebau Cydlynnydd ADY gynnwys:

- lle bo gofynion penodol yn nodi bod yn rhaid i ysgolion a gynhelir neu sefydliadau addysg bellach ddarparu dogfennau, hysbysiadau neu wybodaeth i blentyn, rhiant y plentyn neu berson ifanc, dylai'r Cydlynnydd ADY oruchwylio'r ddarpariaeth honno;
- goruchwylio gweithrediad dydd-i-ddydd trefniadau'r lleoliad addysg ar gyfer ADY.
- goruchwylio'r darpariaethau dysgu ychwanegol ar draws y lleoliad addysg i ddiwallu anghenion sy'n cael eu nodi mewn Cynlluniau Datblygu Unigol. Dylai'r Cydlynnydd ADY sicrhau y cynhelir adolygiadau rheolaidd o'r Darpariaethau Dysgu Ychwanegol a wneir ar gyfer dysgwyr yn eu lleoliadau a, lle bo'n briodol, dylid arwain y broses adolygu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i ddiwallu'r anghenion a nodwyd;
- sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu datblygu a'u hadolygu'n briodol;
- cefnogi dysgwyr sydd â Chynllun Datblygu Unigol i bontio rhwng lleoliadau addysg neu i fod yn oedolion, i sefydliadau astudio pellach neu waith.
- goruchwylio trosglwyddiad priodol gwybodaeth rhwng lleoliadau addysg am ADY a DDU y dysgwr;
- cysylltu â swyddogion arholiadau ac athrawon arbenigol wrth geisio addasiadau rhesymol ar gyfer arholiadau;
- cyfrannu at ddatblygu a gweithredu'r gweithdrefnau a'r systemau ADY priodol o fewn yr ysgol, gan gynnwys cynllunio ariannol strategol, darparu adnoddau'n effeithiol a chasglu a dadansoddi data, gyda'r bwriad o gael gwell canlyniadau i ddysgwyr sydd ag ADY;
- dod yn ffynhonnell arbenigedd ar ADY drwy ddatblygu sgiliau a gwybodaeth arbenigol;
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o ran canllawiau a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer ADY;
- gwella eu dysgu proffesiynol eu hunain drwy gysylltu â'r rhwydwaith lleol o Gydlynwyr ADY (y dylai awdurdodau lleol ystyried ei sefydlu a'i hwyluso) a, lle bo'n briodol, ysgolion arbennig i ddatblygu a rhannu profiadau ac arferion gorau;



- sicrhau bod y cofnod o'u rolau a'u dysgu proffesiynol sy'n rhan o'u cofrestrriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg wedi'i ddiweddarau o ran ADY;
- darparu cefnogaeth broffesiynol i'r holl staff er mwyn gallu adnabod, asesu a chynllunio ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY yn gynnar. Gallai hyn gynnwys cefnogi staff i dracio ar lefel ysgol /sefydliad addysg bellach a chefnogi staff i osod targedau'n dda;
- sicrhau bod y trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdod lleol i osgoi a datrys anghydfod yn cael eu defnyddio'n llawn fel sy'n briodol;
- gweithredu fel y pwynt cyswllt allweddol gyda'r gwasanaethau ymgynnwys a chefnogi perthnasol gan yr awdurdod lleol, asiantaethau allanol, sefydliadau annibynnol/gwirfoddol, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, seicolegwyr addysg, ac ati;
- trafod gydag arbenigwyr gyrfaedd i sicrhau bod dysgwyr sydd ag ADY yn derbyn cyngor addas am eu gyrfa;
- gweithio'n strategol gyda'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr i sicrhau bod y lleoliad addysg yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan y Ddeddf, y Cod a'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## Cydlynnydd Dynodedig Awdurdod Lleol

Beth all eich Cydlynnydd Dynodedig ALI ei wneud:

- Bod yn gyswllt a enwyd
- Darparu gwybodaeth / cyngor ar weinyddu prosesau ystyried / ailystyried yr awdurdod lleol a chynnwys adrannau perthnasol y CDUau.
- Ymweld â Chydlynnydd ADY newydd os ceir gwahoddiad ac egluro prosesau ADY, Darpariaethau Dysgu Ychwanegol a CDUau.
- Darparu cyngor a gwybodaeth am y broses adolygu flynyddol
- Cyfeirio a darparu enghreifftiau o arferion da ar gyfer yr holl leoliadau ar gais
- Darparu gwybodaeth am gamau rhesymol, ymdrechion gorau, Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 a Deddf ALNET 2018.
- Gweithio gyda rhieni / gofalwyr mewn amgylchiadau lle bo pryderon am unrhyw agwedd o'r CDUau, gan gynnwys y ddarpariaeth.

Beth na all eich Cydlynnydd Dynodedig ALI ei wneud:

- Darparu cyngor ar leoliadau a darpariaeth, heblaw i egluro canfyddiadau prosesau ystyried / ailystyried yr awdurdod lleol a pha fath o ddarpariaeth / lleoliad y mae'r cyfraniadau yn eu hawgrymu.
- Gwneud penderfyniadau o ran cludiant / cyllid / lleoliad.
- Mynychu cyfarfodydd fel eiriolwr
- Trafod neu fynychu cyfarfodydd ar gyfer plant / pobl ifanc cyn eu bod yn hysbys i'r Tîm ADY.
- Ychwanegu darpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol i'r CDUau.
- Diweddarau CDU ALI heb dderbyn gwybodaeth benodol fel rhan o'r broses adolygu flynyddol o ran y geiriad sydd ei angen a gwybodaeth ysgrifenedig atodol fel y bo'n briodol (e.e. diagnosis ac ati).


## Atodiad 2: Addysgu o Ansawdd Da i Bawb

Mae'r tablau a ganlyn yn rhoi gwybodaeth am sut beth yw Addysgu o Ansawdd Da i Bawb mewn ysgolion dan y pedwar maes ADY:

### Gwybyddiaeth a Dysgu


- Sicrhau eich bod chi'n gwybod pa mor anodd yw unrhyw destun yr ydych chi'n disgwyl i'r disgybl ei ddarllen
- Sicrhau y gellir gweld y testun a'r print i gyd yn eglur a'u bod nhw wedi'u harddangos yn glir yn ogystal â sicrhau y gellir eu gweld yn gyfforddus os ydyn nhw'n cael eu defnyddio'n gymorth wrth addysgu
- Addysgu geirfa pwnc cyn addysgu'r pwnc ei hun
- Pwysleisio geiriau/geirfa allweddol wrth siarad
- Rhannu cyfarwyddiadau'n ddarnau sy'n rhwydd eu deall a'u hegluro yn eu trefn
- Annog disgyblion i egluro'r hyn sy'n rhaid iddyn nhw ei wneud a sut maen nhw'n mynd i fynd ati er mwyn gwirio dealltwriaeth
- Addysgu'r sgil o roi pethau mewn trefn e.e. rhoi straeon mewn trefn, rhoi'r wyddor mewn trefn ac ati
- Sicrhau bod adnoddau, offer a dyddiaduron gwaith cartref yn gwneud defnydd o symbolau cyson a chodau lliw yn unol â pholisi'r ysgol
- Gwneud cysylltiadau clir â dysgu blaenorol
- Adolygu pwyntiau dysgu allweddol ar adegau priodol yn ystod ac ar ddiwedd y wers
- Defnyddio ffyrdd eraill o ddangos dealltwriaeth e.e. diagramau, mapiau meddwl, defnydd o recordydd llais
- Cyflwyno amrywiaeth o fframiau ysgrifennu i gynorthwyo â threfnu gwaith a dysgu sut i'w defnyddio
- Sicrhau bod geiriau allweddol, matiau ffonem a/neu sribedi'r wyddor ar gael
- Ystyried marcio'r gwaith o ran ei gynnwys - annog disgyblion i uwchleuo geiriau eu hunain sydd efallai'n anghywir er mwyn edrych arnyn nhw nes ymlaen
- Defnyddio rhaglenni TG ac apiau i atgyfnerthu ac adolygu'r hyn a ddysgwyd
- Er mwyn cefnogi cof tymor byr, sicrhau bod byrddau gwyn bach a beiros ar gael i wneud nodiadau, rhoi cynnig ar sillafu, cofnodi syniadau ac ati
- Sicrhau bod y testunau'n adlewyrchu diddordebau a'r ystod oedran - mae amrywiaeth dda o destunau o ddiddordeb ag oed darllen isel ar gael
- Sicrhau bod y testun wedi'i gyflwyno'n glir - defnyddio pwyntiau bwled a ffont clir sy'n addas o ran ei faint i oed/gallu'r disgyblion
- Diagramau a lluniau i ychwanegu ystyr ochr yn ochr â'r testun
- Ymarferion llenwi bylchau i amrywio tasgau ysgrifennu a dangos dealltwriaeth
- Peidio â gofyn i ddisgybl ddarllen ar goedd yn y dosbarth oni bai bod y disgybl wedi paratoi ymlaen llaw a'i fod yn gyfforddus â hyn
- Addysgu a modelu technegau cofio
- Defnyddio beiros gwahanol liwiau i gefnogi â dysgu sillafu, nodi gwahanol rannau o destun, un lliw i bob brawddeg a thanlinellu neu mae perygl na fydd modd gwahaniaethu
- Nodi man cychwyn ar gyfer pob llinell
- Lleihau copïo o'r bwrdd - rhoi copïau i ddisgyblion os bydd angen





## Cyfathrebu a Rhyngweithio

- Arddangos, addysgu, modelu ac atgyfnerthu 'rheolau' gwrando da yn rheolaidd
- Sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o sbardunau gwrando'n astud a nodwyd ymlaen llaw (e.e. symbol, cerdyn cymell)
- Sicrhau bod geirfa/geiriau allweddol yn cael eu pwysleisio wrth siarad a'u bod wedi'u harddangos yn weledol drwy sbardunau gweledol
- Amrywiaeth o dulliau amlsynhwyrdd yn cael eu defnyddio i gefnogi iaith lafar e.e. symbolau, lluniau, cyfarpar, arteffactau, chwarae rôl
- Rhannu cyfarwyddiadau'n ddarnau sy'n rhwydd eu deall a'u gosod yn y drefn y mae angen iddyn nhw gael eu gwneud
- Arafu wrth gyflwyno gwybodaeth a rhoi amser er mwyn i ddisgyblion allu ei phrosesu
- Disgyblion yn cael gweld yr hyn y mae disgwyl iddyn nhw ei wneud
- System adborth weledol ar waith i ddangos a yw disgyblion wedi deall
- Disgyblion yn cael gweld sut i ofyn am eglurhad ac yn cael eu hannog i wneud hyn
- Cardiau cymell yn defnyddio fframwaith naratif (pwy, ble, pryd, beth ddigwyddodd ac ati) er mwyn cefnogi dealltwriaeth o'r geiriau dan sylw
- Partneriaid trafod neu rywbeth tebyg yn cael ei ddefnyddio i annog ymatebion
- Egluro'n effeithiol a chefnogi disgyblion i ofyn ac ateb cwestiynau
- Defnyddio waliau geiriau neu rywbeth tebyg i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o eirfa newydd
- Rhieni'n cael gwybod am yr eirfa newydd er mwyn gallu ei hatgyfnerthu gartref
- Lleihau'r defnydd o iaith haniaethol
- Dweud enw'r plentyn yn gyntaf er mwyn mynnu ei sylw
- Dweud wrth y plentyn yr hyn sydd angen iddo wneud yn hytrach na'r hyn na ddylai ei wneud (e.e. "cerdda os gwelwch yn dda" yn hytrach na "paid â rhedeg")



## Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol

- Rhoi amser i ganfod beth yw cryfderau'r plentyn a chanmol y rhain - sicrhau bod y disgybl yn cael cyfleoedd i ddangos ei sgiliau i gynnal ei hunanhyder
- Atgoffa disgyblion yn rheolaidd o god ymddygiad yr ystafell ddosbarth, targedau'r dosbarth cyfan a'u defnyddio'n gyson gan sicrhau bod staff cyflenwi'n defnyddio'r un cysondeb
- Chwarae cerddoriaeth lonyddol pan fo hynny'n briodol
- Sicrhau bod man diogel i ddisgyblion fynd iddo pan fo angen
- Rhoi llawer o gyfleoedd ar gyfer dysgu gweledol e.e. gweithgareddau ymarferol, dysgu arbrofol, adnoddau amlsynhwyrdd
- Defnyddio strategaethau rhyngweithiol e.e. cardiau/byrddau gwyn gan ddisgyblion i ddangos atebion, dod i flaen y dosbarth i ymgymryd â rôl ac ati
- Sicrhau bod disgwyliadau o ran ymddygiad yn eglur drwy dargedau, esboniadau a modelu clir
- Defnyddio amser ydd gweledol i amseru tasgau ac ymestyn yr amser - dechrau â thasg fer a chanmol, canmol, canmol
- Dysgu disgyblion sut i ddefnyddio nodiadau post-it ar gyfer cwestiynau a syniadau yn hytrach na thorri ar draws (pan fo hynny'n briodol)
- Darparu manau eraill i eistedd os yw hyn yn broblem
- Cyfiawnhau'r weithred o symud drwy gael y disgybl i ddanfon neges, casglu eitem, defnyddio tegau synhwyro os oes angen
- Sicrhau bod cyfarpar a/neu offer ar gael i'w defnyddio a'i bod yn rhwydd cael gafael arnynt
- Gosod amser penodol ar gyfer gwaith ysgrifenedig a pheidio â pharhau yn ystod amser egwyl i 'ddal i fyny'
- Rhannu cyfarwyddiadau'n ddarnau a chefnogi'r rhain â sbardunau gweledol
- Defnyddio gwahanol drefniadau eistedd a grwpio ar gyfer gwahanol weithgareddau
- Personoli'r addysgu pan fo hynny'n bosibl er mwyn adlewyrchu diddordebau disgyblion
- Cyfathrebu mewn modd pwyllog a chlr
- Cadw cyfarwyddiadau, gweithdrefnau a rheolau'n fyr, manwl a chadarnhaol
- Gwrando ar y disgybl gan roi cyfle iddo egluro ei ymddygiad
- Cyfathrebu cyflawniadau cadarnhaol waeth pa mor fach ydyn nhw â chartref y disgybl ac annog y cartref i wneud yr un peth
- Caniatáu disgybl i gael man diogel i gadw ei eiddo
- Sicrhau bod grwpiau'n cyflwyno patrwm ymddwyn cadarnhaol
- Sicrhau bod symud o waith dosbarth cyfan i waith grŵp neu waith annibynnol yn cael ei ddysgu, yn cael ei egluro'n glir a'i reoli

## Synhwraidd a/neu Gorfforol

### Anawsterau ar y Golwg

- Rhoi cymaint â phosibl o brofiadau amlsynhwraidd 'real'
- Sicrhau bod lleoliad seddi'n addas o ran y bwrdd, bwrdd gwyn, SmartBoard
- Ystyried golau - naturiol ac artiffisial - pa un sy'n fwyaf cyfforddus?
- Osgoi unrhyw arwynebau sgleiniog a allai adlewyrchu golau a dallu'r disgybl
- Egluro ar lafar bob amser wrth gyflwyno i'r dosbarth cyfan
- Darllen ar goedd wrth i chi ysgrifennu ar y bwrdd
- Cyfeirio at y disgybl gan ddefnyddio ei enw er mwyn cael ei sylw

### Anawsterau Clyw

- Ceisio cael cyn lleied â phosibl o sŵn yn y cefndir
- Siarad yn glir, arafu ychydig ar gyflymder y siarad, gan gadw'r llif naturiol
- Peidio â chyfyngu ar ddefnydd o iaith gyfoethog ac amrywiol, gall geirfa gyfyngedig gyfyngu ar batrymau lleferydd naturiol ac ystyr llawn
- Modelu ac addysgu sut i wrando'n ofalus gydag arwyddion pan fo angen gwrando'n ofalus
- Gwiro'n rheolaidd bod y disgybl wedi deall y cyfarwyddiadau/gwybodaeth ar lafar
- Wynebu'r disgybl wrth siarad
- Rhannu'r amser gwrando'n gyfnodau byr
- Defnyddio ystumiau priodol i gefnogi dysgu

### Cydlynu

- Ystyried cynllun yr ystafell ddosbarth
- Ystyried trefniadau eistedd ar gyfer disgyblion sy'n ysgrifennu â'u llaw chwith a'r rhai sy'n ysgrifennu â'u llaw dde
- Dylai disgyblion fod yn gallu rhoi eu dwy droed ar y llawr wrth eistedd ar eu cadeiriau - gwirio uchder y cadeiriau
- Dylai'r desgiau fod uchder penelinoedd y disgyblion
- Annog ystum da
- Dylai'r ystafell fod wedi'i threfnu fel bod y disgybl yn gallu gweld yr athro o'i flaen heb orfod troi'r corff - yn ddigon agos i weld a chlywed cyfarwyddiadau
- Dylai disgyblion fod yn eistedd mewn man heb lawer o wrthdynciadau e.e. i ffwrdd o'r ffenestri a'r drysau
- Nodi man dechrau pob llinell
- Sicrhau bod cyfarpar wedi'i labelu'n glir ac wedi'i gadw yn yr un man yn y dosbarth
- Caniatáu amser ychwanegol i gwblhau tasgau

## Atodiad 3: Aseidiadau Awgrymedig

Nid yw'r aseidiadau isod wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol, ond maent wedi cael eu hawgrymu gan Gydlynwyr AAA profiadol mewn ysgol leol yn Nwyrain Swydd Gaer a Chydlynwyr ADY yng Nghonwy a Sir y Fflint sydd wedi'u defnyddio. Dylid ystyried sylwadau gan athrawon dosbarth ac ati wrth ddefnyddio'r aseidiadau hyn.

Enw'r Aseiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r aseiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r aseiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Darlennydd Carlam	Gwybyddiaeth a Dysgu	Rhaglen ddarllen sy'n cynnwys aseidiadau	Ydi	Nag oes	Renaissance <a href="http://www.renlea.co.uk/accelerated-reader/">http://www.renlea.co.uk/accelerated-reader/</a>	
Prawf Darllen Mynediad (ART)	Dealltwriaeth wrth ddarllen	Edrych ar gryfderau a gwendidau mewn pedair agwedd o ddeall darllen: Dealltwriaeth lythrennol, geirfa, casgliadau a dadansoddiadau	Ydi	Nag oes	Hodder: <a href="https://www.hoddereducation.co.uk/AccessReadingTest">https://www.hoddereducation.co.uk/AccessReadingTest</a>	
Prawf Darllen Cymru Gyfan (AWRT)	Darllen	Ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 5 oed a 10 mis ac 16 oed a 5 mis	Ydi	Oes	<a href="https://awrt.online/">https://awrt.online/</a>	
Graddfa Geirfa	Rhesymu ar lafar	Deall geirfa -	Ydi, ac oedran	Nag oes	GL assessment	Argymhellir ei

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Lluniau Prydeinig (BPVS)		mae pedwar llun yn cydfynd â gair, a dylid dewis pa lun sy'n cynrychioli ystyr y gair. Mae'n rhoi syniad o ddealltwriaeth gyffredinol o'r byd. Mae'n mesur sgiliau Rhesymu Cyffredinol Ar Lafar. I'w ddefnyddio ochr yn ochr â Rhesymu Dieiriau i gymharu. Ar gyfer plant a phobl ifanc 3-16 oed, Saesneg iaith gyntaf.	cyfatebol		<a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/british-picture-vocabulary-scale-bpvs3/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/british-picture-vocabulary-scale-bpvs3/</a>	ddefnyddio gyda'r sgriniad portffolio dyslecsia
Prawf Gallu Gwybyddol (CAT4)	Prawf Gallu Gwybyddol	Rhesymu gyda geiriau, rhifau, siapiau a dyluniadau. Addas ar gyfer plant a phobl ifanc 6 - 17+ oed.	Ydi	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/cognitive-abilities-test-cat4/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/cognitive-abilities-test-cat4/</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Y Prawf Cynhwysfawr o Brosesu Ffonolegol - Ail Rifyn (CTOPP-2)	Prosesu ffonolegol	Ymwybyddiaeth ffonolegol, cof ffonolegol ac enwi cyflym. Ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 4 oed a 24 oed ac 11 mis.	Ydi	Oes	R Wagner ac eraill (Awduron) Ar gael ar: <a href="http://www.pearsonclinical.co.uk/AlliedHealth/PaediatricAssessments/PhonologicalAwareness/ctopp-2/comprehensive-test-of-phonological-processing-second-edition.aspx">http://www.pearsonclinical.co.uk/AlliedHealth/PaediatricAssessments/PhonologicalAwareness/ctopp-2/comprehensive-test-of-phonological-processing-second-edition.aspx</a>	
Asesiad Darllen Diagnostig	Gwybyddiaeth a Dysgu	Mae Dadansoddiad Darllen Diagnostig yn brawf safonol llafar un i un i asesu eich darllenwyr llai galluog.  <i>Pa ffactorau mae'r Dadansoddiad Darllen Diagnostig yn eu hasesu?</i>	Ydi	Nag oes	<a href="https://www.hoddereducation.co.uk/diagnosticreadinganalysis">https://www.hoddereducation.co.uk/diagnosticreadinganalysis</a>	



Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
		<p>Cywirdeb darllen                      Cyflymder darllen                      Dealltwriaeth wrth ddarllen                      Cyflymder prosesu a deall                      Cywirdeb darllen geiriau unigol                      Oedran darllen                      Oedran deall                      Oedran darllen geiriau unigol</p> <p><i>Ar gyfer beth mae ysgolion yn defnyddio'r Asesiad Darllen Diagnostig?</i>                      I ddarparu mesuryddion safonol o allu darllen disgyblion.                      I fesur cynnydd drwy ail-brofi gyda ffurflen arall yn dilyn y rhaglen ymyrraeth.                      I helpu i greu ysgrif-bortread i ddisgyblion sydd o bosibl angen trefniadau arbennig, megis amser ychwanegol mewn Profion Cenedlaethol.</p>				

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Sgriniad dyslecsia	Asesiad sgrinio cam cyntaf ar gyfer tueddiadau dyslecsig	Nodi tueddiadau dyslecsig mewn disgyblion 5-16+ oed ac argymhell strategaethau ymyrraeth.	Ydi	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/dyslexia-screener-portfolio-and-guidance/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/dyslexia-screener-portfolio-and-guidance/</a>	
Portffolio Dyslecsia	Asesiad dilynol i'r Sgriniad Dyslecsia (gweler uchod) i'r disgyblion hynny lle nodwyd tueddiadau dyslecsig yn eu sgriniad, neu y mae eu perfformiad yn y maes llythrennedd yn peri pryder. Asesu arwyddion unigol o ddyslecsia.	Asesu'r canlynol: Cyflymder Enwi Cyflymder Darllen Dileu Ffonemau Darllen Dieiriau Sillafu Geiriau Unigol Adalw rhifau ymlaen Adalw rhifau yn ôl Darllen Geiriau Unigol Ysgrifennu - cyflymder ysgrifennu rhydd / copio	Ydi, ar gyfer bob maes	Nag oes	GL assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/dyslexia-screener-portfolio-and-guidance/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/dyslexia-screener-portfolio-and-guidance/</a>	Mae angen mesur gallu cyffredinol er mwyn mesur lefel y dyslecsia, a gaiff ei fesur o A (dim) i E (difrifol). Mae offeryn cynhyrchu adroddiadau'n llunio adroddiad i athrawon a rhieni.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Glannau Menai	Darllen a sillafu yn y Gymraeg	Prawf darllen a sillafu safonol i fesur sgiliau. Gellir ei ddefnyddio i nodi'r ymyraethau sydd eu hangen.	Ydi	Oes	Cyhoeddwr: Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd, 1998	
Prawf Sillafu Helen Arkell (HAST-2)	Sillafu	Prawf sillafu geiriau unigol.  Ar gyfer plant 5 oed - oedolion.  Gellir ei weinyddu mewn grŵp neu'n unigol	Ydi	Oes	<a href="https://www.helenarkell.org.uk/shop/helen-arkell-publications/helen-arkell-spelling-test-hast-2.php">https://www.helenarkell.org.uk/shop/helen-arkell-publications/helen-arkell-spelling-test-hast-2.php</a>	
Batri Asesu Amlieithog ar gyfer Llythrennedd Cynnar (MABEL)	Llythrennedd	Batri safonol â 14 prawf sy'n asesu llythrennedd cynnar a sgiliau perthnasol ar draws 5 iaith gan gynnwys Saesneg a Chymraeg.	Ydi	Oes	<a href="https://research.bangor.ac.uk/portal/en/researchoutputs/mabel(b30be62f-5989-44fa-af53-1536f700037a).html">https://research.bangor.ac.uk/portal/en/researchoutputs/mabel(b30be62f-5989-44fa-af53-1536f700037a).html</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Prawf Darllen Grŵp Newydd (NGRT)	Darllen	Prawf darllen safonol grŵp i fesur sgiliau darllen. Gellir ei ddefnyddio i nodi'r ymyraethau sydd eu hangen.	Ydi	Oes	<a href="https://www.gl-assessment.co.uk/assessments/new-group-reading-test/">https://www.gl-assessment.co.uk/assessments/new-group-reading-test/</a>	
Lucid - Gallu	Asesiad cyfrifiadurol o sgiliau llafar ac fel arall	Bydd y prawf sgiliau llafar yn cynnwys cwestiynau i brofi geirfa, cyfatebiaethau llafar, rhesymu ymarferol, trin symbolau ac ati.  Mae'r prawf dieiriau'n cynnwys dychmygu patrymau dilyniant ac ati Mae fformatau papur a digidol ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	Sgoriau safonol, oedranau cyfatebol a chanraddau. Mae'r canlyniadau'n annibynnol ar gyrhaeddiad darllen. Mae Lucid - Gallu hefyd yn rhoi syniad o wybodaeth gyffredinol. intelligence.	Nag oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid-ability/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid-ability/</a>	Gellir defnyddio Lucid - Gallu gyda phlant a phobl ifanc rhwng 4 ac 16 oed, mae'r fformat yn cynnig profiad mwy dymunol a chaiff canlyniadau eu dehongli mewn graff. Goblygiadau o ran costau gan fod angen adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Lucid - Cyflym (rhan o gyfres 'Lucid' o asesiadau ar gyfer anawsterau dysgu arbennig)	Darparu syniad o ddyslecsia	Sgriniad grŵp/dosbarth cyflym ar gyfer dyslecsia mewn disgyblion rhwng 4 a 15 oed. Mae'n cynnwys 4 is-brawf yn ôl oed - Prosesu ffonolegol, Cof gweithredol, Cof integreiddio gweledol-llafar, Sgiliau datrys codau ffonig	Sgoriau safonol, oedrannau cyfatebol a chanraddau.	Mae llawlyfr y gweinyddwr yn egluro sut i ddehongli canlyniadau a'u goblygiadau ar gyfer dysgu.	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid/</a>	Profion cyfrifiadurol, fformat mwy dymunol, canlyniadau cyflym a dadansoddiadau graff. Goblygiadau o ran costau gan fod angen adnewyddu'r drwydded bob blwyddyn.
Lucid - LASS (rhan o gyfres 'Lucid' o asesiadau ar gyfer anawsterau dysgu arbenniga)	Gwybyddiaeth a Dysgu	Amlygu gwahaniaethau rhwng lefelau llythrennedd gwirioneddol a disgwylidig, mae dau fersiwn ar gael: 8-11 oed a 11-15 oed. Aseu meysydd megis: cof gweledol, cof clywedol-llafar, sillafu, rhesymu, a darllen am ystyr, darllen geiriau unigol a phrosesu ffonoleg.	Ydi, ym mhob maes	Nag oes, ond mae'n well gan rai ddarllen y siartiau canlyniadau.	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/lucid/</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Sgriniad Dyslexia Quest - Nessy	Gwybyddiaeth a Dysgu Darparu adroddiad o alluoedd dysgu sy'n gysylltiedig â dyslecsia.	Asesu 6 maes gallu gwybyddol, gan gynnwys: Cyflymder prosesu, ymwybyddiaeth ffonolegol, cof dilyniannol clywedol, cof geiriau gweledol, cof dilyniannol gweledol a chof gweithredol	Ydi, ym mhob maes	Nag oes, mae'n cynhyrchu adroddiad.	Nessy <a href="https://www.nessy.com/uk/product/dyslexia-screening/">https://www.nessy.com/uk/product/dyslexia-screening/</a>	
Prawf Darllen Brawddegau Newydd Salford	Darllen - cywirdeb a mesurydd dewisol ar gyfer gwirio dealltwriaeth	Mae'n darparu oedran darllen ac oedran dealltwriaeth. Mae'n cynnwys 3 cyfres gyfwerth o frawddegau wedi'u graddio. Mae'n addas ar gyfer darllenwyr llai galluog 6+ oed.	Ydi - Sgoriau safonol, oedrannau cyfatebol a chanraddau.	CYDLNYDD AAA: Nag oes, mae'r llawlyfr yn glir ac yn hawdd ei ddilyn.  Cydlynnydd AAA: byddwn yn cynghori i ddefnyddwyr ddarllen y llawlyfr yn ofalus a	Colin McCarty a Marie Lallaway (Awduron) <a href="https://www.hoddereducation.co.uk/New-Salford-Sentence-Reading-Test">https://www.hoddereducation.co.uk/New-Salford-Sentence-Reading-Test</a>	CYDLNYDD AAA: Mae'n hawdd i'w weinyddu a'i sgorio. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer mesur cynnydd fesul tymor.  CYDLNYDD AAA: Rydym yn gwneud hyn gyda phob disgybl blwyddyn 3 ym



Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
				chynnal ymarferion gyda phlant nad ydych yn bryderus amdanynt i ddechrau.		mis Medi a phob tymor yn dilyn hynny gydag unrhyw blant nad ydynt yn perfformio cystal ag y gallent.
Batri Asesu Ffonolegol (PHAB)	Ymwybyddiaeth a phrosesu ffonolegol	Lluniwyd yr offeryn hwn i asesu prosesu ffonolegol mewn plant unigol. Mae'n fesurydd ymarferol sy'n nodi plant rhwng 6 ac 14 oed sydd ag anawsterau ffonolegol sylweddol ac angen cymorth arbennig i brosesu synau mewn iaith lafar.	Ydi - Sgoriau safonol, oedrannau cyfatebol a chanraddau.	Nag oes, fodd bynnag argymhellir darllen y llawlyfr yn ofalus a gwylio rhywun profiadol yn ei ddefnyddio cyn rhoi cynnig arno eich hunan. Mae'n eithaf cymhleth.	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/phonological-assessment-battery-phab/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/phonological-assessment-battery-phab/</a>	CYDLYNYDD AAA: Mae Seicolegwyr Addysg yn aml yn gofyn am hyn os oes ganddynt bryderon am sgiliau llythrennedd plentyn neu unigolyn ifanc.  CYDLYNYDD AAA: Cyflwynir sgoriau ar graff cyfrifiadurol er mwyn cynnig dehongliad gweledol.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Asesiad Meincnod Darllen PM	Darllen - asesu lefelau darllen cyfarwyddol ac annibynnol a dealltwriaeth o'r testunau	Mae'n cynnwys 46 o destunau ffuglen a ffeithiol gyda lefelau darllen amrywiol ar gyfer plant hyd at 12 oed.	Nac ydi	Nag oes	Ar gael ar: <a href="https://shop.scholastic.co.uk/series/1080">https://shop.scholastic.co.uk/series/1080</a>	Offeryn sgrinio defnyddiol at ddibenion monitro. Hawdd i'w weinyddu a gellir ei ddefnyddio mor aml ag sy'n ofynnol.
Geiriau cyffredin drwy ddull addysgu manwl	Darllen - mesurydd adalw geiriau	Mae'n cynnwys darllen geiriau targed yn awtomatig ac yn ddyddiol.	Nac ydi - Cywirdeb o 95% o ran lefel gallu	Nag oes	Tîm Cynhwysiant ADY Conwy	Cyflym a hawdd i'w fonitro.
Matricsau Cynyddol Lliw Raven	Rhesymu Dieiriau	Posau/patrymau â chymhlethdod cynyddol - mae'n rhaid i blant adnabod pa ddarn sydd ar goll o'r 4 dewis. Mesur sgiliau Rhesymu Cyffredinol Dieiriau.	Ydi a'r oedran cyfatebol	Oes	John C Raven ac eraill (Awdur) Ar gael ar: <a href="http://www.pearsonclinical.co.uk/Psychology/ChildCo">http://www.pearsonclinical.co.uk/Psychology/ChildCo</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
					<a href="#">gnitionNeuropsychology and Language/Child General Abilities/Raven's Educational/Raven's Educational.aspx</a>	
Prawf Rhifedd Cynnar Sandwell (SENT)	Gwybyddiaeth a Dysgu - Rhifedd	Asesu gallu disgybl gyda rhifau, drwy archwilio pum elfen o sgiliau rhifedd sylfaenol: adnabod, cyfri ar lafar, cyfrifo gwerth, cyfri gwrthrychau ac iaith.	Ydi		GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/sandwell-early-numeracy-test-sent/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/sandwell-early-numeracy-test-sent/</a>	
Prawf Darllen Geiriau Unigol (SWRT)	Gwybyddiaeth a Dysgu - darllen	Dull ar gyfer mesur sgiliau darllen geiriau plant. Mae'n cynnwys 2 brawf cyfatebol gyda 60 o eiriau. Addas ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 6 ac 16 oed.	Sgoriau safonol, oedrannau cyfatebol	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/single-word-reading-">https://www.gl-assessment.co.uk/products/single-word-reading-</a>	Offeryn sgrinio cyflym a defnyddiol at ddibenion monitro. Hawdd i'w weinyddu a'i sgorio.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Prawf Sillafu Geiriau Unigol (SWST)	Gwybyddiaeth a Dysgu - sillafu	Prawf grŵp i asesu cyrhaeddiad sillafu. Addas i blant rhwng 6 a 14 oed. Ar gael yn ddigidol neu ar bapur. Mae'n cynnwys rhestrau sillafu wedi'u graddio.	Ydi - Sgoriau safonol, oeddrannau cyfatebol a chanraddau.	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/single-word-spelling-test-swst/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/single-word-spelling-test-swst/</a>	Mae'r profion yn gysylltiedig â rhestrau sillafu sy'n darparu banc geiriau â phatrymau gweledol a ffonolegol tebyg.
Prawf Darllen Cymraeg Safonol	Darllen Cymraeg	Prawf darllen Cymraeg safonol newydd i ddisgyblion ym mlynnyddoedd 1 i 11 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Datblygwyd y prawf gan academyddion Prifysgol Caerdydd.  Y nod oedd datblygu prawf darllen hawdd ei ddefnyddio ar gyfer monitro cysondeb darllen plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i'w	Ydi		<a href="https://cscjes-cronfa.co.uk">Repository - CSC (cscjes-cronfa.co.uk)</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
		<p>defnyddio gan athrawon, ymarferwyr ac ysgolion ar draws Cymru.</p> <p>Mae'r prawf yn cynnwys dwy ffurflen sy'n cynnwys 17 brawddeg yr un. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r ddwy ffurflen ar adegau gwahanol i asesu cynnydd unigolion drwy gymharu eu sgoriau gyda sgoriau safonol. Mae'r sgoriau safonol yn seiliedig ar sgoriau 760 o blant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Ne Ddwyrain Cymru.</p>				
Rhesymu Llafar a Rhesymu Dieiriau	Gwybyddiaeth a Dysgu	Mae Rhesymu Llafar yn datgelu sut mae disgybl yn dysgu gwybodaeth newydd drwy fesur eu gallu i ymgysylltu gydag iaith. Nid yw Rhesymu Dieiriau'n cynnwys darllen, ac felly mae'n darparu	Ydi	Nag oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/verbal-reasoning-vrt-and-non-verbal-reasoning-nvrt/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/verbal-reasoning-vrt-and-non-verbal-reasoning-nvrt/</a>	Hawdd iawn i'w ddefnyddio. Mae Seicolegwyr Addysg yn aml yn gofyn am fesurydd ar gyfer rhesymu dieiriau,

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
		cipolwg o alluoedd disgyblion sy'n ei chael hi'n haws meddwl drwy luniau yn hytrach na geiriau. Mae hefyd yn mesur potensial disgyblion ag ychydig iawn o sgiliau darllen gan gynnwys y rheiny â dyslecsia, diffyg cymhelliant, a disgyblion Saesneg fel Iaith Ychwanegol.				felly mae hwn yn un da cyn cynnal ymgynghoriad.
Asesiadau Personol Llywodraeth Cymru	Gwybyddiaeth a Dysgu	Asesiadau llythrennedd a rhifedd (gweithrediadol) wedi'u teilwra i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau.	Ydi	Oes	<a href="https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/reading-and-numeracy-assessments/personalised-assessments/">https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/reading-and-numeracy-assessments/personalised-assessments/</a>	
Prawf Cyflawniad Ystod Eang (WRAT 4)	Mesur sgiliau academaidd sylfaenol	Darllen geiriau, deall brawddegau, sillafu a chyfrifiannu mathemategol	Ydi	Oes	GJ Robertson a GS Wilkinson (Awduron) Ar gael ar: <a href="http://www.pears">http://www.pears</a>	



Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
					<a href="https://onclinical.co.uk/Psychology/ChildCognitionNeuropsychologyandLanguage/ChildAchieve">onclinical.co.uk/Psychology/ChildCognitionNeuropsychologyandLanguage/ChildAchieve</a>	
Asesiad York o Amgyffred Darllen (YARC)	Gwybyddiaeth a Dysgu - darllen	Asesiad darllen manwl a ddefnyddir i nodi anawsterau gydag adnabod geiriau, rhuglder darllen neu ddealltwriaeth wrth ddarllen	Ydi - Sgoriau safonol, oedrannau cyfatebol a chanraddau.	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/york-assessment-of-reading-for-comprehension-yarc/">https://www.gl-assessment.co.uk/product/s/york-assessment-of-reading-for-comprehension-yarc/</a>	Cyflwynir sgoriau ar graff cyfrifiadurol er mwyn cynnig dehongliad gweledol.
<b>Cyathrebu a Rhyngweithio</b>						
Offeryn Asesu Iaith Fynegiannol (ELAT)	Lleferydd ac Iaith	Asesu sgiliau iaith fynegiannol plant. Mae'n crynhoi meysydd anghenion er mwyn i chi fedru gweld beth i dargedu gyntaf.	Nac ydi, ond mae'n cynnig grŵp oedran.	Oes - mae Robert Robinson yn darparu hyfforddiant drwy Ysgol Gynradd Ash Grove	Drwy'r hyfforddiant	Cwrs ac asesiad defnyddiol iawn Mae'n gallu canfod materion i benderfynu a oes angen atgyfeiriad, mae hefyd yn gallu llywio addysgu.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Rhaglenni Talkboost	Lleferydd ac Iaith	<p>Blynyddoedd Cynnar - Sylw a gwrando, deall iaith, siarad a sgiliau personol, cymdeithasol ac emosïynol.</p> <p>CA1 - Sylw a gwrando, geirfa, ffurfio brawddegau, dweud straeon a sgysiau.</p> <p>CA2 - Sylw a gwrando, geirfa, dweud straeon, gweithio gydag eraill, gwneud ffrindiau a chynnal sgysiau.</p>	Nac ydi	Oes - hyfforddiant gan diwtoriaid achrededig yr elusen iCan. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynhwysiant.	iCan <a href="#">Rhaglenni I CAN</a>	
Universally Speaking - The Communication Trust	Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu	Rhestr o ddatganiadau i'w sgorio gyda'r dull COG o beth ddylai plant ei gyflawni ym mhob cam o'u datblygiad, o 5 i 11 oed.	Nac ydi	Nag oes	<a href="https://www.thecommunicationtrust.org.uk/resource/resources/resources-for-practitioners/universally-speaking.aspx">https://www.thecommunicationtrust.org.uk/resource/resources/resources-for-practitioners/universally-speaking.aspx</a>	Canllawiau datblygiadol defnyddiol gyda chyngor ac awgrymiadau defnyddiol.

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
Sgriniad Wellcomm	Cyfathrebu a Rhyngweithio	Asesu lefel lleferydd ac iaith bresennol y plentyn Ar gyfer y blynyddoedd cynnar (6 mis - 6 oed)	Nac ydi, ond mae'n adroddiad manwl iawn.	Oes	GL Assessment <a href="https://www.gl-assessment.co.uk/products/wellcomm/">https://www.gl-assessment.co.uk/products/wellcomm/</a>	
Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol (PASS)	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl	<p>Mae PASS yn helpu i ddeall pam fod plant yn ddysgwyr cyndyn, wedi ymddieithrio neu'n aflonyddgar. Mae'n darparu ymyraethau ac arweiniad.</p> <p>Mae'n darparu adroddiadau goleuadau traffig gan nodi disgyblion sy'n ymofyn ymyrraeth.</p> <p>Ar gael yn Gymraeg a Saesneg</p> <p>Ar gyfer plant a phobl ifanc 4-18+ oed.</p>	Nac ydi	Nag oes	<a href="https://www.gl-assessment.co.uk/assessments/pass/">https://www.gl-assessment.co.uk/assessments/pass/</a>	
<b>Ymddygiad, Datblygiad Emosiynol a Chymdeithasol</b>						
Proffiliau Boxall	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac	Mae'n cefnogi systemau adnabyddiaeth gynnar, gosod targedau,	Nag oes	Nac ydi. Mae llawlyfr y gweinyddwr yn	<a href="https://nurturegroops.org/introducing-">https://nurturegroops.org/introducing-</a>	CYDLNYDD AAA: Mae'n darparu

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
	iechyd meddwl	ymyraethau a monitro cynnydd.		<p>eguro sut i ddehongli canlyniadau, ac yn rhoi astudiaethau achos a chynghor ar y camau nesaf.</p> <p>Argymhellir eich bod yn darllen y llawlyfr yn ofalus.</p>	<a href="#">nurture/boxall-profile</a>	<p>canllawiau ar gyfer dewis ymyraethau a monitro ymddygiad targed.</p> <p>Cydlynnydd AAA: mae angen eglurhad gofalus</p>
Graddfa Gorbryder Plant SPENCE	Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl	Mesurir 6 o israddau gorbryder. Nid yw'r Raddfa Gorbryder Plant yn offeryn diagnostig ac ni ddylid ei ddefnyddio fel diagnosis clinigol. Gellir ei ddefnyddio i sefydlu p'un a yw lefel gorbryder plentyn yn sylweddol uwch na phobl eraill o'u grŵp oedran/rhyw.	Nac ydi. Dylid dehongli sgoriau drwy eu cymharu â normau'r boblogaeth ar gyfer grwpiau oedran a rhyw. Mae'r sgoriau cymedrig yn tueddu i fod yn wahanol rhwng	Nag oes	<a href="#">Hafan SCAS - Graddfa Gorbryder Plant SPENCE (scaswebsite.com)</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
			bechgyn a merched a hefyd yn tueddu i newid gydag oedran.			
Holiadur cryfderau ac anawsterau (SDQ)	Cryfderau ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl	Rhestr wirio o ddatganiadau ar gyfer unrhyw grŵp oedran. Mae'n crynhoi cryfderau a gwendidau'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ac yn amlygu meysydd i'w datblygu mewn grwpiau sgiliau cymdeithasol ac ati. Gellir hefyd ei ddefnyddio fel rhan o'r broses atgyfeirio at CAMHS.	Nac ydi	Nag oes	Ffynonellau ar-lein amrywiol a CAMHS. Er enghraifft, mae rhai ffynonellau ar gael ar <a href="http://www.sdqi.nfo.com/">http://www.sdqi.nfo.com/</a>	Mae CAMHS angen y rhain ar gyfer atgyfeiriad; rydym yn defnyddio'r fersiwn wedi'i rifo yn yr ysgol yn hytrach na'r blychau gan ei fod yn haws i'w sgorio. Rydym bob amser yn darparu'r un gyda blychau i rieni.
Asesiad Manwl o Gyflymder Ysgrifennu (DASH)	Cyflymder ysgrifennu ac anawsterau ysgrifennu -	Cyflymder ysgrifennu, cyflymder ysgrifennu rhydd a chopio, adnabod arwyddion o ddyspracsia	Ydi	Oes	A Barnett ac eraill. (Awduron) Ar gael ar: <a href="http://www.pearso">http://www.pearso</a>	

Enw'r Asesiad	Pa angen mae'n ei asesu?	Beth mae'n ei fesur/asesu? (Disgrifiad cryno)	A yw'r asesiad yn cynnig sgôr safonol?	A oes angen hyfforddiant neu gymhwyster ffurfiol i ddefnyddio'r asesiad?	Ble mae ar gael? (e.e. enw cwmni a/neu ddolen i'r wefan lle bo modd)	Sylwadau Ychwanegol gan y Cydlynwyr AAA
	cam-ysgrifennu	neu gam-ysgrifennu			<a href="http://nclinical.co.uk/AlliedHealth/PaediatricAssessments/PerceptuaIFineMotorDevelopment/DetailedAssessmentofSpeedofHandwriting(DASH)/DetailedAssessmentofSpeedofHandwriting(DASH).aspx">nclinical.co.uk/AlliedHealth/PaediatricAssessments/PerceptuaIFineMotorDevelopment/DetailedAssessmentofSpeedofHandwriting(DASH)/DetailedAssessmentofSpeedofHandwriting(DASH).aspx</a>	
<b>Amrywiol</b>						
